Cyngor Castell-nedd Port Talbot

# Cynllyun Datblygu LLeol 2011 - 2026

# Adroddiad Adolygu'r CDLl

## (Gorffennaf 2020)







www.npt.gov.uk/ldp

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

## RHAN 1 - Cyflwyniad a Chefndir


1 Cyflwyniad ..... 5

2 Yr Adroddiad Adolygu ..... 7

2.1 Strwythur a Chynnwys ..... 7


## RHAN 2 - Ffactorau sy'n Llywio'r Adolygiad


3 Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLl - Canfyddiadau Allweddol ..... 11

4 Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd - Canfyddiadau Allweddol ..... 15

5 Newidiadau Cyd-destunol ..... 17

6 Newidiadau i'r Sylfaen o Dystiolaeth a Gofynion ..... 25


## RHAN 3 - Adolygiad Manwl


7 Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth y CDLl ..... 31

7.1 Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion ..... 31

7.2 Strategaeth ar gyfer Twf ..... 32

7.3 Strategaeth Ofodol ..... 37

7.4 Ailystyried y Strategaeth ..... 40

8 Adolygiadau Ardaloedd Pynciol y CDLl ..... 43

8.1 Polisïau Trosfwaol ..... 43

8.1.1 Polisi Strategol 1 - Newid yn yr Hinsawdd ..... 43

8.1.2 Polisi Strategol 2 - Iechyd ..... 43

8.1.3 Polisi Strategol 3 - Cymunedau Cynaliadwy ..... 44

8.1.4 Polisi Strategol 4 - Seilwaith ..... 45

8.2 Polisïau Ardal ..... 46

8.2.1 Polisi Strategol 5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir ..... 46

8.2.2 Polisi Strategol 6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd ..... 47

8.3 Cymunedau a Thai ..... 47

Adroddiad Adolygu'r CDLl (Gorffennaf 2020)


8.3.1 Polisi Strategol SP7 - Gofynion Tai ..... 47

8.3.2 Polisi Strategol 8 - Tai Fforddiadwy ..... 48

8.3.3 Polisi Strategol SP9 - Sipsiwn a Theithwyr ..... 50

8.3.4 Polisi Strategol SP10 - Mannau Agored ..... 51

8.4 Yr Economi ..... 52

8.4.1 Polisi Strategol 11 - Twf Cyflogaeth ..... 52

8.4.2 Polisi Strategol 12 - Manwerthu ..... 53

8.4.3 Polisi Strategol 13 - Twristiaeth ..... 54

8.5 Yr Amgylchedd ac Adnoddau ..... 55

8.5.1 Polisi Strategol SP14 - Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu ..... 55

8.5.2 Polisi Strategol 15 - Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth ..... 56

8.5.3 Polisi Strategol 16 - Amddiffyn yr Amgylchedd ..... 57

8.5.4 Polisi Strategol 17 - Mwynau ..... 57

8.5.5 Polisi Strategol 18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel ..... 58

8.5.6 Polisi Strategol 19 - Rheoli Gwastraff ..... 60

8.6 Trafnidiaeth a Mynediad ..... 61

8.6.1 Polisi Strategol 20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth ..... 61

8.7 Diwylliant a Threftadaeth ..... 62

8.7.1 Polisi Strategol 21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol ..... 62

8.7.2 Polisi Strategol SP22 - Yr Iaith Gymraeg ..... 63


## RHAN 4 - Ystyriaethau Eraill


**9 Ailystyried yr AC/AAS a'r ARhC ..... 65**

9.1 Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ..... 65

9.2 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ..... 65

**10 Cyfleoedd i Gydweithio ..... 67**

10.1 CDLlau ar y Cyd ac Astudiaethau Cydweithredol ..... 67

10.2 Cynlluniau Datblygu Strategol ..... 69

## Atodiadau

A Adolygiad Polisi'r CDLI ..... 71
B Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd - Canfyddiadau Allweddol ..... 77
C Statws Dyraniadau'r CDLI ..... 85
D Cyrff Ymgynghori Cyffredinol a Penodol ..... 91
E Sylwadau ac Ymatebion Ymgynghori ..... 95
F Rhestr Eirfa ..... 117

# Mynegai

# 1 Cyflwyniad

**1.0.1** O dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 *(y Ddeddf)* mae'n ofynnol bod y Cyngor yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer ei ardal weinyddol.

**1.0.2** Mabwysiadwyd CDLl cyfredol Castell-nedd Port Talbot[(1)] gan y Cyngor ar 27 Ionawr 2016. Mae'r CDLl yn cyflwyno gweledigaeth ac amcanion y Cyngor, ynghyd â chyfres o bolisïau a chynigion ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y Fwrdeistref Sirol hyd at 2026.

**1.0.3** Mae rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor hefyd i baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) er mwyn asesu i ba raddau mae strategaeth, polisïau a dyraniadau'r CDLl yn cael eu cyflawni, hygrededd y Cynllun o ran cynaliadwydd, a nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol sylweddol a allai ddylanwadu ar ei weithredu.

**1.0.4** Er mwyn sicrhau bod asesiad rheolaidd a chynhwysfawr i weld a yw cynlluniau'n dal wedi'u diweddaru, mae hefyd yn statudol ofynnol bod y Cyngor, o dan Adran 69 o'r Ddeddf, yn cynnal adolygiad llawn o'r CDLl a fabwysiadwyd ar adegau heb fod yn hwy na phob pedair blynedd o'r dyddiad mabwysiadu.

**1.0.5** **Gan fod pedair blynedd wedi mynd heibio bellach ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, bydd y CDLl yn destun adolygiad llawn, a bydd angen asesu pob agwedd ar y Cynllun er mwyn barnu a ydynt yn dal yn gadarn ac yn addas at y diben.** Bydd hyn yn cynnwys y materion allweddol, y weledigaeth a'r amcanion, y strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau/dynodiadau defnydd tir.

1 Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (2011-2026).

# 1 . Cyflwyniad

# 2 Yr Adroddiad Adolygu

**2.0.1** Rhaid i unrhyw ddiwygiad i GDLl gychwyn trwy gyhoeddi Adroddiad Adolygu, a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd yr Adroddiad Adolygu yn rhan allweddol o sylfaen y Cyngor o dystiolaeth pan gyflwynir y CDLl Amnewid i Lywodraeth Cymru i'w archwilio.

**2.0.2** Mae'r Adroddiad Adolygu hwn, felly, yn cyflwyno meysydd lle mae'r CDLl cyfredol yn cyflawni ac yn perfformio'n dda, yn ogystal â'r meysydd hynny lle gall fod angen newidiadau. Yn bwysig, **nid diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud i'r Cynllun. Ni fydd modd canfod manylion a chwmpas unrhyw newidiadau ond trwy broses baratoi'r Cynllun Amnewid.**

**2.0.3** Wrth ddatblygu'r Adroddiad Adolygu hwn, mae'r Cyngor wedi rhoi sylw i'r ystyriaethau canlynol:

- Cynnwys Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLl a gyhoeddwyd (AMBau) (2017, 2018 a 2019), gan gynnwys canfyddiadau monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC);
- Tystiolaeth ac arolygon wedi'u diweddaru, gan gynnwys yr Astudiaethau ar y cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai a gyhoeddwyd ar ôl mabwysiadu'r CDLl;
- Gwybodaeth gyd-destunol berthnasol, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth, y fframwaith polisi cenedlaethol/rhanbarthol a strategaethau a pholisïau lleol; ac
- Ymgysylltu â Gweithgor y Swyddogion Mewnol a thrafod gyda'r Aelodau.

**2.0.4** Bu'r Cyngor yn ymgynghori â chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol (ceir rhestr ohonynt yn Atodiad D)[2] ynghylch ei ganfyddiadau a'i gasgliadau, a chyhoeddwyd yr Adroddiad Adolygu ar wefan y Cyngor fel rhan o ymgynghoriad â rhanddeiliaid a'r cyhoedd a gynhaliwyd rhwng 3 Chwefror ac 16 Mawrth 2020. Mae manylion llawn y sylwadau a ddaeth i law ac ymatebion y Cyngor i'w gweld yn Atodiad E, ac er na wnaed unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu o ganlyniad i'r sylwadau, mae'r holl faterion a godwyd yn rhai a fydd yn cael eu hystyried yn llawn wrth baratoi'r CDLl Amnewid (CDLlA), ynghyd â'r diweddariadau sy'n ofynnol i'r sylfaen o dystiolaeth.

**2.0.5** Cynigir y bydd y CDLl Amnewid yn cwmpasu cyfnod o 15 mlynedd i'r cynllun (2020-2035), gyda dyddiad sylfaen o 1 Ebrill 2020.

## 2.1 Strwythur a Chynnwys

**2.1.1** Mae'r Adroddiad Adolygu wedi'i strwythuro o amgylch y rhannau allweddol canlynol:

**Rhan 1 - Cyflwyniad a Chefndir (Penodau 1-2)**

**2.1.2** Mae **Pennod 1** yn crynhoi'n fyr y gofynion deddfwriaethol ar gyfer monitro ac adolygu'r CDLl, ac mae **Pennod 2** yn nodi pwysigrwydd, cwmpas a strwythur yr Adroddiad Adolygu.

2 Diffinnir Cyrff Cyffredinol a Phenodol yn Rheoliad 2 o Gynllunio Gwlad a Thref Cymru, Rheoliadau CDLl Cynllunio Gwlad a Thref (Cymru) 2005 fel y'u newidiwyd gan Reoliadau Newid CDLl (Cymru) 2015.

**Rhan 2 - Ffactorau sy'n Llywio'r Adolygiad (Penodau 3-6)**

**2.1.3** Mae **Pennod 3** yn amlygu canfyddiadau allweddol y tri Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) a gyhoeddwyd ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys asesiadau manwl o berfformiad holl feysydd polisi'r Cynllun ac yn dystiolaeth bwysig wrth asesu llwyddiant y Cynllun i ddiwallu ei nodau a'i amcanion a chyflawni'r strategaeth.

**2.1.4** Mae **Pennod 4** yn crynhoi prif ganfyddiadau monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) i ddarparu trosolwg o effeithiau'r Cynllun o ran cynaliadwyedd. Mae monitro'r AC hefyd yn digwydd yn flynyddol, ac adroddir amdano fel rhan o'r AMB.

**2.1.5** Amlinellir y prif newidiadau cyd-destunol a welwyd ers mabwysiadu'r Cynllun ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol ym **Mhennod 5.** Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i bolisi a chanllawiau cenedlaethol, gwaith/astudiaethau rhanbarthol ar y cyd, a newidiadau i bolisïau a dulliau gweithredu'r awdurdod lleol a chyrff lleol eraill.

**2.1.6** Mae **Pennod 6** yn cwmpasu newidiadau posibl i'r sylfaen o dystiolaeth sy'n darparu sylfaen ac yn llywio datblygiad y strategaeth a'r polisïau. Amlinellir rhai newidiadau pwysig sy'n amlwg, ynghyd â newidiadau eraill a ragwelir. Fodd bynnag, bydd angen edrych eto ar yr holl wybodaeth sy'n rhan o'r sylfaen o dystiolaeth, fel rhan o'r broses adolygu.

**Rhan 3 - Adolygiad Manwl (Penodau 7-8)**

**2.1.7** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi sylw i holl elfennau manwl y Cynllun yn eu tro, gan ddechrau gyda'r materion allweddol, y weledigaeth a'r amcanion, gan gynnwys ystyried sut gallai fod angen newid y rhain o ganlyniad i'r ffactorau a amlinellwyd yn Rhan 2. Bydd ymgynghori ac ymwneud â rhanddeiliaid a chyrff ymgynghori yn rhan bwysig o adolygu'r agweddau hyn.

**2.1.8** Mae strategaethau twf a gofodol y CDLl yn derbyn sylw ym **Mhennod 7**. Seiliwyd y strategaeth twf ar fodel twf dan arweiniad economaidd, a ddefnyddiodd y cynnydd a ragwelir mewn swyddi a dyheadau i gynyddu'r gyfradd gweithgaredd economaidd er mwyn nodi'r boblogaeth oedran gwaith ofynnol i gefnogi'r nifer o swyddi a ragwelir.

**2.1.9** Yna troswyd y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth oedran gwaith i'r angen am dai newydd, gan sicrhau bod y rhagolygon tai a chyflogaeth yn cyfateb, a bod cyfatebiaeth uniongyrchol rhwng nifer y swyddi, y tai, y cyflenwad llafur a'r tir cyflogaeth. Bydd priodoldeb y strategaeth hon yn cael ei ailystyried fel rhan o'r adolygiad yng ngoleuni'r ffactorau eraill a amlinellir yn Rhan 2.

**2.1.10** Roedd strategaeth ofodol y CDLl yn rhannu'r ardal weinyddol yn ddwy ardal strategaeth wahanol, er mwyn nodi'r lleoliadau cyffredinol ar gyfer diwallu anghenion twf a datblygiad y strategaeth twf, a chan gydnabod hunaniaeth unigryw, nodweddion amrywiol a gofynion marchnad gwahanol ardaloedd Castell-nedd Port Talbot.

**2.1.11** Oddi mewn i 'Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir', hwyluswyd datblygiad ar hyd coridor yr M4 yn ardaloedd trefol Castell-nedd a Phort Talbot, tra bod 'Ardal Strategaeth y Cymoedd' (ardal sy'n cynnwys Pontardawe a'r pum cwm) i gael ei hadfywio trwy ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau polisi. Manylir ar ganlyniadau'r dull gweithredu hwn hefyd ym **Mhennod 7**.

**2.1.12** Mae holl bolisïau'r CDLl (yn rhai trosfwaol, seiliedig ar bynciau ac ardaloedd), yn cael eu hystyried ym **Mhennod 8**, ac fe'u cyflwynir o dan bob un o'r penawdau polisi strategol. Mae'r rhain wedi cael eu hystyried yn bennaf yng ngoleuni canfyddiadau'r AMB, ond hefyd yn cymryd i ystyriaeth newidiadau y gallai fod angen amdanynt o ganlyniad i newidiadau cyd-destunol a thrafodaeth yng Ngweithgorau'r Swyddogion.

**2.1.13** Bydd angen ailystyried rhai dyraniadau tai a chyflogaeth fel rhan o'r adolygiad. Ceir trosolwg o bolisïau a chanfyddiadau'r adran hon yn Atodiad A *'Adolygu Polisi'r CDLl'* ac Atodiad C *'Statws Dyraniadau'r CDLl'*.

**Rhan 4 - Ystyriaethau Eraill (Penodau 9-10)**

**2.1.14** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ymdrin â materion eraill sy'n berthnasol i'r dull gweithredu a ddefnyddir yn ystod yr adolygiad. Mae **Pennod 9** yn ymdrin â'r newidiadau y bydd angen amdanynt i'r AC/AAS a'r ARhC, gan gynnwys gwybodaeth waelodlin, fframweithiau asesu a methodoleg.

**2.1.15** Mae **Pennod 10** yn ystyried gwaith ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill ac yn rhoi sylw i'r posibilrwydd o baratoi Cynllun Datblygu Strategol (CDS) ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru, fel y manylir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft (FfDC). Er bod yr adran yn dod i'r casgliad bod cydweithio'n annhebygol o fod yn ymarferol bosibl yng nghyswllt paratoi CDLl ar y Cyd ag awdurdodau cymdogol, ar sail eu gwahanol amserlenni ar gyfer paratoi'r Cynlluniau Amnewid, mae gwaith sylweddol yn dal i ddigwydd ar ffurf astudiaethau ar y cyd a fydd yn llywio datblygiad y CDLl Amnewid.

# 3 Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLl - Canfyddiadau Allweddol

**3.0.1** Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, dylai'r adolygiad o'r CDLl, ochr yn ochr â ffactorau eraill, dynnu ar ganfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) a gyhoeddwyd ar y CDLl. Fframwaith Monitro'r CDLl [3] sy'n ffurfio sylfaen yr AMB, a thros amser mae'n caniatáu asesu sut mae polisïau strategol y Cynllun a'r polisïau manwl sy'n eu cefnogi yn cyflawni yn erbyn y targedau a'r canlyniadau a nodwyd.

**3.0.2** Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfanswm o 89 o ddangosyddion, sy'n cynnwys nifer bychan o ddangosyddion craidd (a ragnodir gan Reoliadau'r CDLl), ynghyd ag ystod o ddangosyddion lleol a chyd-destunol a nodwyd gan y Cyngor. Mae gan bob dangosydd darged penodedig ynghyd â 'sbardun' sy'n nodi'r pwynt neu'r lefel lle bydd unrhyw wyriad yn sbarduno'r angen am ystyried a/neu gymryd camau pellach.

**3.0.3** Ers mabwysiadu'r CDLl, cyhoeddwyd cyfanswm o dri AMB. Cyhoeddwyd yr AMB diwethaf ym mis Hydref 2019, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod monitro o 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019. Isod ceir crynodeb byr o ganlyniad monitro'r flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â throsolwg o brif ganfyddiadau'r monitro a gwblhawyd hyd yma.

**Tabl 3.0.1 Fframwaith Monitro'r CDLl (2019)**

| Asesu | Gweithredu | Nifer y Dangosyddion sydd yn y Categori |
|---|---|---|
| Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau | **60** |
| Nid yw Polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd. | Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau | **1** |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun | Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol | **2** |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLl mor effeithiol ag y disgwylid yn wreiddiol | Mae angen ymchwil ac ymchwilio pellach | **0** |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu | **26** |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLl yn cael ei gweithredu | Ar ôl ei gadarnhau, bydd y CDLl yn destun proses adolygu | **0** |

**3.0.4** Mae'r trydydd cam monitro hwn wedi dangos bod amcanion y CDLl, yn gyffredinol, yn dal i gael eu cyflawni i raddau helaeth. Mae mwyafrif y dangosyddion yn dal i ddangos bod polisïau'r cynllun yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus, tra bod dangosyddion cyd-destunol yn dangos bod y rhan fwyaf yn arwain at y manteision a ragwelir i gymunedau ar draws yr ardal weinyddol.



3 Tabl 6.2 (Tudalennau 98-114) Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2011-2026) Ionawr 2016

**3.0.5** Fodd bynnag, mae sawl targed allweddol o ran dangosyddion polisi a chanlyniadau monitro, sy'n ymwneud yn bennaf â darpariaeth tai a datblygiad cysylltiedig â chyflogaeth sy'n dal heb eu cyflawni ar hyn o bryd. Mae hyn yn dangos nad yw'r polisïau hyn bob amser yn cael yr effaith sy'n ofynnol, ac o ganlyniad, mae'n arwydd nad yw strategaeth y CDLl (h.y. lefel a dosbarthiad gofodol twf) yn cael ei gweithredu'n llawn.

**3.0.6** Crynhoir y meysydd mwy nodedig sy'n destun pryder yn gryno isod, ac mae'n hanfodol bod y Cyngor yn symud ymlaen gydag adolygiad statudol y CDLl er mwyn rhoi sylw i'r materion hyn.

## Darparu Tai (Y Farchnad Gyffredinol a Thai Fforddiadwy)

**3.0.7** Cofnodwyd bod cyfanswm o 299 o dai wedi'u cwblhau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod cyfnod monitro diweddaraf 2019. Er bod hyn yn welliant ar y cyfraddau cyflawni blynyddol blaenorol, mae'r ffigur hwn yn dal yn sylweddol is na tharged y flwyddyn, sef 686 o anheddau.

**3.0.8** Ers dyddiad sylfaen y CDLl (2011), mae nifer y tai a gwblhawyd wedi cyrraedd cyfanswm o 2,126 o anheddau. O gymharu â'r targed blynyddol cronnol o 3,582, mae hyn yn dangos bod lefelau cwblhau bellach wedi gostwng 1,456 o dan y targed, a 59.4% yn unig o'r targed blynyddol cronnol a gyflwynwyd hyd yma.

**3.0.9** Er bod digon o dir ar gyfer tai wedi'i ddyrannu yn y CDLl i ddiwallu'r gofyn a nodwyd am dai dros gyfnod y cynllun, am amrywiaeth o resymau (gan gynnwys y rhai sy'n annibynnol ar y system gynllunio), nid yw safleoedd yn cael eu cyflwyno ac yn gwneud cynnydd yn unol â'r disgwyl.

### *Darparu Tai Fforddiadwy*

**3.0.10** Yn ystod y cyfnod monitro diweddaraf, ni chofnodwyd bod dim unedau tai fforddiadwy wedi'u darparu trwy'r system gynllunio (h.y. trwy gytundebau Adran 106). Mae hyn yn erbyn targed y flwyddyn, sef 130 o unedau.

**3.0.11** 3Ers dyddad sylfaen y CDLl, mae nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi cyrraedd cyfanswm o 50 uned. O gymharu â'r targed blynyddol cronnol o 478, mae hyn yn dangos bod lefelau cwblhau bellach wedi gostwng 428 o dan y targed, a 10.5% yn unig o'r targed blynyddol cronnol a gyflwynwyd hyd yma.

**3.0.12** Mae darparu tai fforddiadwy wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â darparu tai yn fwy cyffredinol, ac mae'r sefyllfa'n adlewyrchu'r ffaith nad yw safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl yn dod trwy'r system gynllunio fel y rhagwelwyd yn wreiddiol.



### *Dichonoldeb Tai*

**3.0.13** Gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn gwerthoedd gweddilliol yn ystod cyfnod y Cynllun, ac mae hynny wedi cael effaith negyddol ar allu dyraniadau tai i ddarparu tai fforddiadwy a rhwymedigaethau cynllunio eraill. Ers mabwysiadu'r CDLl, bu cynnydd

sylweddol yn y costau adeiladu, na thalwyd amdano â'r cynnydd gofynnol yng ngwerthoedd gwerthiant, ac mae hynny wedi cael effaith niweidiol ar ddichonoldeb ar draws pob un o'r ardaloedd is-farchnad yng Nghastell-nedd Port Talbot.

***Safleoedd sy'n Eithriadau o ran Tai Fforddiadwy***

**3.0.14** Ni chafwyd ceisiadau am Safleoedd sy'n Eithriadau o ran Tai Fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun hyd yma. Er na ddaeth ceisiadau i law, mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) wedi datblygu nifer o safleoedd yn yr ardal, gan ddarparu tai fforddiadwy ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i bortffolio H1 a safleoedd annisgwyl oddi mewn i derfynau aneddiadau.

***Cyflenwad Tir ar gyfer Tai***

**3.0.15** Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r astudiaeth ar y cyd ar argaeledd tir ar gyfer tai, yn 2019, yn dangos bod gan Gastell-nedd Port Talbot gyflenwad tir ar gyfer tai, wedi'i asesu yn erbyn gofyniad tai y CDLl a fabwysiadwyd, o 4.5 blynedd.

**3.0.16** Yn y tair astudiaeth flaenorol a gwblhawyd ers mabwysiadu'r Cynllun, roedd y Cyngor wedi arddangos cyflenwad tir o 5.0 mlynedd (2016), 5.3 mlynedd (2017) a 5.0 mlynedd (2018) yn eu tro. Yr astudiaeth ddiweddaraf hon, felly, yw'r achlysur cyntaf ers mabwysiadu pan fo ffigur cyflenwad tir y Cyngor wedi gostwng o dan y 5 mlynedd sy'n ofynnol.

## Ardaloedd Adfywio Strategol

**3.0.17** Gwnaed cynnydd cyfyngedig yng nghyswllt darparu'r ddwy 'Ardal Adfywio Strategol' a ddyrannwyd yng Nghoed Darcy (Castell-nedd) a Glannau'r Harbwr (Port Talbot) yn eu tro.

**3.0.18** Ym Mhentref Trefol Coed Darcy, cwblhawyd 291 o anheddau ers dyddiad sylfaen y CDLl. Yn sgîl y gyfradd isel barhaol o ddarparu tai, gwelwyd darpariaeth gronnol y tai ar y safle yn gostwng 509 o unedau o dan y targed. Mae'r gyfradd arafach nag y rhagwelwyd wrth ddarparu tai a seilwaith hefyd wedi arwain at oedi wrth symud ymlaen gydag elfen gysylltiedig â chyflogaeth y cynllun adfywio defnydd cymysg, ac ni ddatblygwyd tir newydd at ddefnyddiau cyflogaeth hyd yma. Bu oedi hefyd gyda gwelliannau ffyrdd, gan gynnwys darparu ffordd fynediad ddeheuol a gwelliannau ychwanegol i Gyffordd 43 yr M4.

**3.0.19** Yng Nglannau'r Harbwr, datblygwyd 34 o anheddau ac 1.8 hectar o dir cyflogaeth ers dyddiad sylfaen y CDLl. Mae hyn yn ddiffyg o 41 uned breswyl o dan y targed, heb ddatblygiad cyflogaeth am dair blynedd yn olynol. O ganlyniad, mae darpariaeth gronnol y ddwy elfen wedi syrthio tu ôl i'r targedau a nodwyd ar gyfer y safle.

**3.0.20** Mae'r gwaith o ailddatblygu'r ddwy ardal hon, a fu gynt yn ddiwydiannol, wedi bod yn broses gymhleth a heriol, a thros amser mae nifer o ffactorau wedi rhwystro cynnydd, gan gynnwys natur y cyfyngiadau presennol ar y safle, materion dichonoldeb ac mewn rhai achosion perchnogaeth ar dir.

## Safleoedd Cyflogaeth a Gweithgaredd Economaidd

***Tir a ddatblygwyd at Ddibenion Cyflogaeth***

**3.0.21** Ni fu datblygiad newydd ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae hynny'n bwynt sbarduno ar gyfer Polisi SP11 (Twf Cyflogaeth). Bydd angen ymchwil ac ymchwilio pellach, felly, ynghylch y mater hwn fel rhan o'r broses adolygu, i ganfod y rhesymau ac a oes angen gwneud newidiadau i'r fframwaith polisi.

***Cyflogaeth yn y Gweithle***

**3.0.22** Un o elfennau sylfaenol strategaeth y CDLl, a arweinir gan yr economi, yw creu 3,850 o swyddi yng Nghastell-nedd Port Talbot dros gyfnod y Cynllun. Mae nifer y swyddi wedi amrywio yn ystod y cyfnod cychwynnol, gan godi o 49,400 o swyddi yn 2011 i 50,900 o swyddi yn 2015, cynnydd o 1,500, oedd yn dangos bod y Cynllun yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r targed cyffredinol, sef 3,850 o swyddi erbyn 2026. Ers 2015, fodd bynnag, mae nifer y swyddi wedi gostwng i 49,600 o swyddi yn 2018, sy'n cynrychioli cynnydd o 200 o swyddi'n unig ers dyddiad sylfaen y Cynllun.

***Unedau Bywyd/Gwaith***

**3.0.23** Er mwyn annog datblygiad economaidd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (VSA), mae Polisi EC6 yn caniatáu datblygu unedau bywyd/gwaith y tu allan (ond yn union yn ymyl) i derfynau aneddiadau yn y VSA. Hyd yma, fodd bynnag, ni chynigiwyd datblygiad o'r fath o dan y polisi hwn, a bydd angen i'w ddiffyg effaith ar ddatblygiad economaidd ac economïau lleol gael ei gymryd i ystyriaeth yn adolygiad y CDLl.

## Yr Amgylchedd ac Adnoddau

***Amddiffyn yr Arfordir sydd heb ei Ddatblygu, Lletemau Glas ac Ardaloedd Tirlun Arbennig***

**3.0.24** Er bod yr holl gynigion mewn ardaloedd dynodedig wedi cael eu penderfynu'n unol â'r fframwaith polisi mewn blynyddoedd blaenorol, yn ystod y cyfnod monitro diweddaraf, penderfynwyd ar ddau gais yn groes i'r polisi (roedd un yn benderfyniad ar sail apêl). Mae hyn wedi codi cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd a phriodoldeb y polisïau hyn, y bydd angen rhoi sylw manwl iddynt fel rhan o'r adolygiad.

***Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth***

**3.0.25** Nid yw'r targedau ar gyfer atal colled net bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni, yn rhannol oherwydd effeithiau niweidiol ar ardaloedd amddiffyn a ddynodwyd yn lleol ac yn rhannol oherwydd diffyg mesurau lliniaru a/neu wneud iawn a gyflwynir fel rhan o gynlluniau datblygu.

# 4 Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd - Canfyddiadau Allweddol

**4.0.1** Roedd y prif faterion a nodwyd wrth fonitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) yn ymwneud â phynciau canlynol yr AC:

**Newid yn yr Hinsawdd**

**4.0.2** Mae'r dangosyddion ynghylch amcanion newid yn yr hinsawdd yr AC yn awgrymu nad yw'r CDLl yn cyflawni dyheadau'n llawn o ran addasu i newid yn yr hinsawdd neu ei liniaru. Yn arbennig, ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, bu achosion lle cymeradwywyd cynigion oddi mewn i ardaloedd sy'n cael eu hamddiffyn a rhai lle ceir perygl llifogydd, yn groes i'r polisi; yn aml nid yw gofynion dwysedd y CDLl yn cael eu diwallu; ac mae nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy / carbon isel wedi bod yn is na'r disgwyl.

**Adnoddau Naturiol**

**4.0.3** Yng nghyswllt amcanion adnoddau naturiol yr AC, mae pryderon bod datblygiad dwysedd isel yn cael effaith ddiangen o fawr fesul uned ar adnoddau naturiol yn gyffredinol.

**Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**

**4.0.4** Nid yw'r targedau ar gyfer atal colled net bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni, yn rhannol oherwydd effeithiau niweidiol ar ardaloedd amddiffyn a rhai a ddynodwyd yn lleol ac yn rhannol oherwydd diffyg gwella bioamrywiaeth oddi mewn i safleoedd datblygu neu wedi'u hariannu trwy gyfraniadau datblygwyr.

**Tirlun, Treflun a Chymeriad Hanesyddol**

**4.0.5** Mae nifer bach o ddatblygiadau wedi cael eu caniatáu yn groes i bolisi'r CDLl ar y tirlun a lletemau glas, gan arwain at bryderon ynghylch cyflawni amcan yr AC, sef diogelu a gwell tirlun a threflun yr ardal.

**Cydlyniant Cymunedol**

**4.0.6** Mae'r dangosyddion sy'n dangos colli cyfleusterau cymunedol, cymeradwyo 'defnyddiau canol tref' newydd, mewn lleoliadau y tu allan i ganol y dref a diffygion o ran darparu tai newydd a thai fforddiadwy, mannau agored, arwynebedd cyflogaeth a manwerthu lleol ar raddfa fach yn awgrymu rhai effeithiau cymysg yng nghyswllt amcan cydlyniant cymunedol yr AC.

**Iechyd a Llesiant**

**4.0.7** Mae'r dangosyddion sy'n dangos colli cyfleusterau cymunedol, diffygion yn y ddarpariaeth mannau agored a lefelau gostyngol o gyflogaeth yn y gweithle a gweithgaredd economaidd yn awgrymu rhai effeithiau cymysg neu negyddol yn nghyswllt amcanion yr AC sy'n ymwneud â iechyd a thlodi.

**Yr Economi**

**4.0.8** Mae'r dangosyddion sy'n dangos diffyg o ran darparu tai, arwynebedd cyflogaeth newydd a datblygiadau manwerthu lleol newydd ar raddfa fach yn awgrymu effeithiau cymysg yng nghyswllt amcanion Economi yr AC.

**4.0.9** Ceir crynodeb llawn o ganfyddiadau monitro'r AC yn y tabl yn Atodiad B.

# 5 Newidiadau Cyd-destunol

**5.0.1** Fel yr adroddwyd yn yr AMBau a gyhoeddwyd, ers mabwysiadu'r CDLl cyhoeddwyd ystod o ddeunydd newydd cyd-destunol sy'n cyflwyno'r fframwaith y datblygir polisi cynllunio oddi mewn iddo ar lefel leol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ***Lawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)*** a fydd yn llywio'r gwaith o baratoi'r CDLl Amnewid.

**5.0.2** Bydd angen i'r adolygiad o'r CDLl, felly, gymryd i ystyriaeth yr amrywiol Ddeddfau newydd, fframweithiau polisi, canllawiau wedi'u diweddaru, mentrau a thystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Er nad yw'n hollgynhwysol, mae'r canlynol yn nodi'r elfennau hynny fydd yn cael y dylanwad mwyaf arwyddocaol wrth adolygu'r Cynllun.

## Y Cyd-destun Cenedlaethol

**5.0.3** ***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*** - mae'r Ddeddf yn cyflwyno cyfres o newidiadau deddfwriaethol i gyflawni'r gwaith o ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn gydnerth ac yn caniatáu datblygu. Un o'r amcanion yw cryfhau'r dull gweithredu a arweinir gan y cynllun yng Nghymru, ac o ganlyniad mae'r Ddeddf wedi cyflwyno'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer paratoi'r ***Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)*** a hefyd Gynlluniau Datblygu Strategol *(cyfeirier at Adran 10.2).*

**5.0.4** Bydd y FfDC, sy'n disodli 'Cynllun Gofodol Cymru'[(4)], yn cyflwyno cyfeiriad gofodol 20 mlynedd clir ar gyfer polisi, gweithredu a buddsoddiad y llywodraeth. Cyflwynodd LlC y FfDC Drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Awst 2019, ac mae'r FfDC i gael ei gyhoeddi'n derfynol ym mis Medi 2020. Yn y pen draw bydd angen i'r CDLl Amnewid gydymffurfio â'r FfDC, felly bydd angen i'r Cyngor ystyried yn ofalus oblygiadau'r FfDC wrth i gyfeiriad y polisi cenedlaethol newydd ddod i'r amlwg.

**5.0.5** ***Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 10 (Rhagfyr 2018)*** - mae PCC wedi cael ei ddiwygio'n helaeth a'i ailstrwythuro i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. O ganlyniad, mae'n cymryd y saith nod llesiant a'r pum 'ffordd o weithio' fel themâu trosfwaol, ac yn ymgorffori dull o greu lle ar hyd-ddo, gyda'r nod o ddarparu *Mannau Actif a Chymdeithasol, Mannau Cynhyrchiol a Mentrus* a *Mannau Unigryw a Naturiol.*

**5.0.6** Mae i'r ddogfen oblygiadau sylweddol yng nghyswllt y system gynllunio yng Nghymru, ac mae'n nodi mai'r system gynllunio yw un o'r prif offerynnau ar gyfer creu mannau cynaliadwy, a bod egwyddorion creu lle yn offeryn i gyflawni hynny trwy lunio cynlluniau a'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd y diwygiadau i PCC yn cael effaith ar ddatblygu a chyflawni Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Lle yn y dyfodol.

**5.0.7** ***Nodiadau Cyngor Technegol (TANs)*** - ymhlith y rhai sy'n gysylltiedig â PCC a'r rhai a gyflwynwyd/newidiwyd ers mabwysiadu'r CDLl yn cynnwys:

4 Cynllun Gofodol Cymru - Pobl, Lleoedd, Dyfodol (2004/Diweddarwyd 2008).

- ***TAN 1: Astudiaethau ar y Cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Ionawr 2015)*** - ym mis Mehefin 2018, cyflwynodd LlC hysbysiad y byddai Paragraff 6.2 o TAN 1 yn cael ei anghymhwyso dros dro, yn ystod adolygiad cenedlaethol o ddarparu tai trwy'r system gynllunio. Mae hynny'n golygu nad yw ffigurau Cynghorau ledled Cymru o ran eu cyflenwad tir ar gyfer tai yn cael eu trin fel ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai;
- ***TAN 4: Datblygiad Manwerthu a Masnachol (Tachwedd 2016)***;
- ***TAN 12: Dylunio (Mawrth 2016);***
- ***TAN 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Hydref 2017);***
- ***TAN 21: Gwastraff (Chwefror 2017);***
- ***TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017).***

**5.0.8** ***Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel (Mawrth 2019)*** - mae'r ddogfen yn cyflwyno agwedd LlC at dorri'n ôl ar allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd mewn modd sy'n mwyafu'r manteision ehangach i Gymru, gan sicrhau cymdeithas decach a iachach. Mae'n cyflwyno polisïau a chynigion sydd wedi'u bwriadu i leihau allyriadau a chefnogi twf yr economi garbon isel.

**5.0.9** Elfen arbennig o nodedig yng nghyswllt cynllunio yw'r targedau a'r polisïau a gyflwynwyd ar gyfer y sectorau canlynol: pŵer; adeiladau; cludiant; diwydiant; defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth; amaethyddiaeth; a rheoli gwastraff. Bydd goblygiadau'r Cynllun yn cael eu hystyried trwy broses adolygu'r CDLl.

**5.0.10** ***Gweithredu Atodlen 3 i Ddeddf Llifogydd a Rheoli Dŵr 2010: Defnydd Gorfodol o Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)*** - o 7 Ionawr 2019 ymlaen, bydd gofyn bod pob datblygiad newydd lle ceir mwy nag un annedd, neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy, yn cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ar gyfer dŵr arwyneb. Rhaid dylunio'r SuDS a'u hadeiladu'n unol â Safonau Statudol SuDS (a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru) ac mae'n rhaid i Gynlluniau SuDS gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol yn gweithredu yn ei rôl Corff Cymeradwyo SuDS (SAB), cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn.

**5.0.11** ***Cylchlythyr Llywodraeth Cymru (005/2018): Cynllunio ar gyfer Safleoedd i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn (Mehefin 2018) -*** mae'r Cylchlythyr yn darparu'r arweiniad diweddaraf ar agweddau cynllunio nodi safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac yn amlinellu sut gall awdurdodau cynllunio a Sipsiwn a Theithwyr gydweithio i gyflawni'r nod hwn. Mae'r cylchlythyr yn amlinellu'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd, yr angenrheidrwydd o gynnwys Sipsiwn a Theithwyr yn rhagweithiol yn y broses, a'r camau sy'n ofynnol i asesu'r angen am safleoedd, nodi safleoedd addas, a chynnwys polisïau mewn cynlluniau datblygu.



**5.0.12** ***Cynllun Gweithredu Sŵn a Sainlun (2018-2023)*** - mae'r cynllun yn amlinellu cyfeiriad polisi strategol sector cyhoeddus Cymru mewn perthynas â rheoli sŵn a sainlun yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae iddo ffocws ehangach na dim ond lleihau lefelau sŵn, gan gydnabod yn ogystal yr angen am greu sainluniau priodol, hynny yw'r amgylchedd acwstig cywir ar yr adeg ac yn y lle cywir.

**5.0.13** ***Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb': y Strategaeth Genedlaethol' (2017)*** - yma cymerir ymrwymiadau eu rhaglen 5 mlynedd ar gyfer y Llywodraeth, 'Symud Cymru Ymlaen: 2016-2021', a'u gosod mewn cyd-destun tymor hir, gan nodi sut byddant yn cael eu cyflawni trwy gyfuno ymdrechion sector cyhoeddus Cymru yn ei gyfanrwydd. Pedair Thema allweddol y strategaeth yw: 'Llewyrchus a Diogel'; 'Iach ac Actif'; 'Uchelgeisiol ac yn Dysgu'; ac 'Unedig a Chysylltiedig'.

**5.0.14** **Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP) (2017)** - mae'r NNRP yn canolbwyntio ar reolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol Cymru, ac yn cyflwyno tair blaenoriaeth genedlaethol: cyflwyno atebion seiliedig ar fyd natur; cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; a defnyddio dull gweithredu seiliedig ar le. Mae'r NNRP yn cyflwyno'r cyd-destun er mwyn i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gynhyrchu 'Datganiadau Ardal' i sicrhau bod y blaenoriaethau cenedlaethol yn llywio'r dull gweithredu ar y lefel leol. Bydd goblygiadau'r NNRP a'r Datganiad Ardal perthnasol yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiad y CDLl.

**5.0.15** ***Tasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru: Ein Cymoedd, Ein Dyfodol (Gorffennaf 2017)*** - cyhoeddodd y Tasglu Gweinidogol hwn ar gyfer Cymoedd De Cymru gynllun gweithredu lefel uchel yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer dyfodol y Cymoedd. Mae'r themâu/blaenoriaethau allweddol yn y Cynllun yn cynnwys swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w gwneud; gwell gwasanaethau cyhoeddus; a'm cymuned leol. Yn sgîl hynny mae Cynlluniau Cyflawni Cysylltiedig yn amlinellu ystod o gamau gweithredu cysylltiedig â phob blaenoriaeth ac yn cynnwys creu swyddi newydd, teg, diogel a chynaliadwy, ac archwilio datblygiad Parc Tirlun y Cymoedd.

**5.0.16** Yn nodedig, mae Castell-nedd wedi cael ei nodi fel un o saith canolbwynt strategol lle mae arian cyhoeddus i'w ganolbwyntio er mwyn darparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd. Mae ffocws pob canolbwynt yn adlewyrchu'r cyfleoedd a'r galw yn yr ardal benodol, ynghyd â dyheadau ar gyfer y dyfodol - bydd canolbwynt Castell-nedd yn canolbwyntio ar ddatblygiadau diwydiannol, preswyl, digidol ac ynni.

**5.0.17** ***Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru (2017)*** - mae'r adroddiad hwn yn nodi tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol i'r dyfodol yng Nghymru, o dan chwe thema. Wrth nodi tueddiadau'r dyfodol, y gobaith yw y bydd hyn yn helpu i newid sut mae awdurdodau'n meddwl am wneud penderfyniadau a chynllunio yn y tymor hir. Mae'r adroddiad yn ymgais i edrych ar y sefyllfa ehangach, mwy hirdymor, gan gyfuno tueddiadau ac archwilio'r rhyngweithio a'r rhyngddibyniaeth yn eu plith.

**5.0.18** ***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*** - mae'r Ddeddf yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydlynus. Mae'r Ddeddf yn gofyn bod CNC yn adrodd ar gyflwr adnoddau naturiol Cymru ac yn manylu ar eu gallu i ymateb i bwysau ac addasu i newid yn yr hinsawdd, a hefyd yn gofyn bod LlC yn cynhyrchu 'Polisi Adnoddau Naturiol' sy'n cyflwyno'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.

**5.0.19** ***Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016*** - mae'r Ddeddf yn gwneud gwelliannau pwysig i systemau presennol ar gyfer amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol trwy roi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig; gwella mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy; a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i'r penderfyniadau a wneir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol.

**5.0.20** ***Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru - Strategaeth ar gyfer y Deng Mlynedd Nesaf (2016 - 2026)*** - mae'r strategaeth yn ystyried rôl awdurdodau wth yrru'r agenda hon ymlaen, yn ogystal â rôl sefydliadau eraill, busnesau a pherchnogion tai. Mae hefyd yn amlygu ein gweledigaeth i sicrhau bod modd i Gymru wireddu ei photensial llawn o ran effeithlonrwydd ynni a dod yn allforiwr pwysig o safbwynt technoleg a gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni.

**5.0.21** ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)*** - mae'r Ddeddf yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru trwy sicrhau bod 'datblygu cynaliadwy' yn ganolog i'r penderfyniadau a wneir ar draws y Llywodraeth a'r holl gyrff cyhoeddus, ac mae'n pennu saith nod llesiant: Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach, sy'n fwy cyfartal a chyfrifol ar lefel fyd-eang, a Chymru o gymunedau cydlynus, â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'r Ddeddf hefyd wedi darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer paratoi 'Cynlluniau Llesiant Lleol'.

**5.0.22** Mae'r Ddeddf yn diffinio 'datblygu cynaliadwy' fel y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac mae'n cyflwyno pum egwyddor llywodraethu (neu bum ffordd o weithio) i helpu wrth ystyried y gwaith hwn (h.y. tymor hir, integreiddio, cydweithio, ataliaeth a chynnwys).

**5.0.23** Bydd angen i'r CDLl Amnewid gael ei seilio ar egwyddorion datblygu cynaliadwy ac o ganlyniad bydd angen i'r adolygiad gael ei lywio gan 'Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig / Asesiad Amgylcheddol Strategol' (ACI/AAS). Bydd angen creu cysylltiadau a dolenni clir hefyd rhwng nodau ac amcanion y Cynllun Llesiant Lleol a'r CDLl newydd sy'n dod i'r amlwg.

## Y Cyd-destun Rhanbarthol

**5.0.24** ***Dinas-Rnbarth Bae Abertawe a'r Fargen Ddinesig*** - er i'r Ddinas-Ranbarth gael ei lansio'n ffurfiol yn 2013, y newid allweddol ar lefel ranbarthol ers mabwysiadu'r CDLl oedd llofnodi'r 'Fargen Ddinesig' ar 20 Mawrth 2017. Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnwys awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, ynghyd â Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a chwmnïau sector preifat.

**5.0.25** Y bwriad yw bod rhaglen fuddsoddi'r Fargen Ddinesig yn trawsffurfio'r economi ranbarthol, yn sefydlu a chynnal sylfaen effeithiol o sgiliau wedi'u halinio, yn creu, yn profi ac yn masnacholi technolegau a syniadau newydd, ac yn dod yn ganolfan ragoriaeth ranbarthol gydnabyddedig ar gyfer cymhwyso technolegau digidol, gwyddor bywyd a llesiant, ynni a gweithgynhyrchu uwch. Y Cyngor hwn yw'r awdurdod arweiniol ar y tri phrosiect canlynol, sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig:

1. Cartrefi sy'n Bwerdai;
2. Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe; a
3. Canolfan Ragoriaeth Gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf (CENGS) - wedi'i lleoli yng Nghanolfan Dechnoleg Bae Abertawe.

**5.0.26** Bydd angen i'r gwaith o baratoi'r CDLl Amnewid gael ei osod yn bendant yng nghyd-destun dyheadau'r Ddinas-Ranbarth/Fargen Ddinesig.

**5.0.27** ***Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) 2il Adolygiad (2020)*** - o dan ddarpariaethau Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (MTAN1): Agregau, mae Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) yn gyfrifol am baratoi DTRh yn nodi sut bydd y galw am agregau yn cael ei ddiwallu yn y rhanbarth am gyfnod o 15 mlynedd.

**5.0.28** Mae'r DTRh yn asesu'r galw am agregau a'r cyflenwad ohonynt yn rhanbarth De Cymru, gan ystyried capasiti amgylchedd pob Awdurdod Cynllunio Mwynol i wneud cyfraniad at ddiwallu'r galw rhanbarthol. Mae'r SWRAWP yn ddiweddar wedi ymgynghori ar 2il Adolygiad wedi'i ddiweddaru o'r DTRh, bydd yn ei gyhoeddi'n fuan, a bydd goblygiadau'r datganiad yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiad y CDLl.

## Y Cyd-destun Lleol

**5.0.29** ***Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot (BGC) 'Y Castell-nedd Port Talbot a Garem'*** - mae'r Cynllun Llesiant a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018 yn disodli'r Cynllun Integredig Sengl (CIS), ac yn cyflwyno'r weledigaeth dymor hir a geir ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn y BGC. Mae'r Cynllun yn nodi'r chwe amcan canlynol i wella llesiant pobl yng Nghastell-nedd Port Talbot, ac mae'n nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:

- Cefnogi plant yn ystod eu blynyddoedd cynnar, yn arbennig plant sydd mewn perygl o ddioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod;
- Creu cymunedau diogel, hyderus a chydnerth, gan ganolbwyntio ar bobl fregus;
- Bywiogi blynyddoedd diwedd oes - heneiddio'n dda;
- Hybu llesiant trwy waith ac yn y gweithle;
- Gosod gwerth ar ein seilwaith werdd a chyfraniad hynny at ein llesiant (*trosfwaol*); a
- Mynd i'r afael ag eithrio digidol (*trawsbynciol*).

**5.0.30** ***Cynllun Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot (2019-2022) 'Ffurfio CNPT'*** - mae'r Cynllun yn cyflwyno gweledigaeth drosfwaol, ynghyd â thri amcan llesiant: gwella llesiant plant a phobl ifanc; gwella llesiant yr holl oedolion sy'n fyw yn y Fwrdeistref Sirol; a datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl.

**5.0.31** Bydd angen i'r CDLl Amnewid roi mynegiant gofodol i oblygiadau defnydd tir Cynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot a'r Cynllun Corfforaethol, a bydd angen i weledigaeth y CDLl yn arbennig gydweddu â'r hyn a geir yn y dogfennau a gyhoeddwyd.

**5.0.32** ***Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Castell-nedd Port Talbot (2017)*** - mae'r cynllun yn dangos sut bydd y Cyngor yn cyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth a nodir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2017 a bydd yn gweithredu fel sbardun ar gyfer


gweithgareddau cadwraeth ar draws Castell-nedd Port Talbot. Trwy gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth, mae'r Cyngor yn cyflawni yn erbyn amcanion llesiant a'r ffyrdd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac yn cyfrannu at gyflawni Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru. Bydd angen i'r CDLl Amnewid gydweddu â'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a sefydlu fframwaith priodol ar gyfer sicrhau bod ecosystemau'n gadarn ac amddiffyn a gwella bioamrywiaeth.

**5.0.33** ***Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Castell-nedd Port Talbot (CGBLl)*** - ar hyn o bryd mae'r cynllun yn cael ei adolygu gan Bartneriaeth Natur Castell-nedd Port Talbot a bydd yn cael ei ddisodli gan 'Gynllun Natur' newydd i Gastell-nedd Port Talbot; bydd hwn yn cyflwyno cyflwr byd natur, yn amlygu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu cadwraeth yn y dyfodol, ac yn sicrhau adferiad natur yn CNPT. Hefyd bydd cynllun gweithredu yn cael ei gynhyrchu i gyflwyno prosiectau a gweithgareddau allweddol a fydd yn cyfrannu at adfer byd natur ac yn bwydo i weithrediad Cynllun Gweithredu ar gyfer Adfer Natur Cymru. Mae bwriad i gyhoeddi Cynllun Natur CNPT yn 2020 a bydd yn bwydo i adolygiad y CDLl ac yn ei lywio.

**5.0.34** ***Parth Menter Glannau Port Talbot (2016)*** - ym mis Mawrth 2016, cadarnhaodd LlC y byddai Glannau Port Talbot yn derbyn statws Parth Menter. Mae'r cyfuniad unigryw o ffactorau a geir yno, o ran lleoliad, seilwaith a chysylltedd â'r economi wybodaeth, wedi denu rhai o brif weithgynhyrchwyr y Deyrnas Unedig, gan gynnwys TATA Steel, BOC, SPECIFIC, TWI a ThyssenKrupp.

**5.0.35** Mae'r ardal a gwmpasir gan y dynodiad yn cynnwys: Glannau'r Harbwr, Dociau Port Talbot, Parc Ynni Baglan ac Ystâd Ddiwydiannol Baglan. Bellach mae ffocws pendant ar barhau i ddatblygu diwydiannau o'r radd flaenaf, sydd ymhlith y gorau yn y byd, mewn sectorau megis Deunyddiau Uwch a Gweithgynhyrchu, Adeiladwaith ac Ynni Gwyrdd. Bydd busnesau sy'n symud i'r ardal yn elwa o gryfderau cynhenid a photensial twf presennol y rhanbarth, a momentwm Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe sy'n gatalydd ar gyfer gwella rhagolygon cymunedau, busnesau a'r economi. Bydd angen i'r gwaith o baratoi'r CDLl Amnewid gael ei osod yn bendant yng nghyd-destun y dyheadau hyn.

**Ffigur 5.1 Parth Menter Glannau Port Talbot**




Source: Business Wales - Enterprise Zones in Wales

**5.0.36** ***Teithio Llesol Castell-nedd Port Talbot - 'Map o'r Llwybrau Presennol' (ERM) a 'Map o'r Rhwydwaith Integredig' (INM)*** - cymeradwyodd Gweinidogion LlC ERM ac INM diwygiedig y Cyngor ym mis Chwefror 2018. Mae'r Map o'r Llwybrau Presennol (ERM) yn nodi'r llwybrau presennol yng Nghastell-nedd Port Talbot y mae'r Cyngor yn barnu eu bod yn addas ar gyfer teithio llesol, ac mae'r INM yn nodi dyheadau'r Cyngor ar gyfer y 15 mlynedd nesaf, gan nodi naill ai welliannau y gellid eu gwneud i lwybrau presennol, neu lle gellid datblygu llwybrau newdd a'u hychwanegu at y rhwydwaith teithio llesol. Bydd angen i'r CDLl Amnewid ddarparu fframwaith polisi priodol fel bod modd gwireddu dyheadau'r INM.

**5.0.37** ***Strategaeth Dadgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy Castell-nedd Port Talbot*** - yng ngoleuni'r datganiad diweddar gan LlC ynghylch 'argyfwng hinsawdd', mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi ymgynghori ar strategaeth/gynllun gweithredu, a gyhoeddir yn fuan, a fydd yn pennu'r fframwaith er mwyn cyflawni dyheadau'r Cyngor o ran lleihau ôl-troed carbon. Datblygir y strategaeth o amgylch tair prif thema: trafnidiaeth; adeiladau a gofodau; ac ymddygiad sy'n dylanwadu. Bydd rôl allweddol i'r CDLl Amnewid, felly, yn y gwaith o hwyluso gweithrediad y strategaeth gorfforaethol drosfwaol hon.

# 6 Newidiadau i'r Sylfaen o Dystiolaeth a Gofynion

**6.0.1** Er mwyn llywio adolygiad y CDLl ac yn ogystal â rhoi cyfrif am y newidiadau cyd-destunol a nodwyd uchod, bydd angen diweddaru amrywiol elfennau o'r sylfaen o dystiolaeth a lywiodd y CDLl cyfredol.

**6.0.2** Mae'r tabl isod yn darparu rhestr o astudiaethau *(er nad yw'n hollgynhwysol)*, a fydd yn angenrheidiol i lywio'r CDLl Amnewid. Fodd bynnag, gan nad yw'r data hwn ar gael eto, mae'r adran sy'n dilyn yn canolbwyntio ar Ragamcanion Poblogaeth ac Aelwydydd Llywodraeth Cymru, a ryddhawyd, a'r newidiadau sydd wedi digwydd ers i'r CDLl cyfredol gael ei lunio.

**Tabl 6.0.1 CDLl Amnewid - Astudiaethau Sylfaen o Dystiolaeth**

| Meysydd Pwnc | Astudiaethau Sylfaen o Dystiolaeth |
|---|---|
| Polisïau Trosfwaol | Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (SFCA)<br>Hierarchaeth Aneddiadau ac Adolygu Ffiniau |
| Cymunedau a Thai | Astudiaethau Blynyddol ar y Cyd - Argaeledd Tir ar gyfer Tai<br>Archwiliad o Gyfleusterau Cymunedau<br>Asesiad Dichonoldeb Tai Fforddiadwy<br>Astudiaeth Capasiti Trefol<br>Asesiad Mannau Agored<br>Rhagamcanion Poblogaeth ac Aelwydydd<br>Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA)<br>Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Yr Economi | Astudiaeth Asesu Economaidd a Darpariaeth Tir Cyflogaeth<br>Adolygiad o Dir Cyflogaeth<br>Astudiaeth Fanwerthu<br>Arolwg Manwerthu Blynyddol |
| Yr Amgylchedd ac Adnoddau | Asesiad Seilwaith Werdd<br>Asesiad Anghenion Ynni, Asesiad Ynni Adnewyddadwy ac Asesiad Rhwydwaith Gwres Ardal |
| Trafnidiaeth a Mynediad | Asesiad Trafnidiaeth Strategol |

## Rhagamcanion Poblogaeth ac Aelwydydd

### Y CDLl a Fabwysiadwyd - Y Sefyllfa Bresennol

**6.0.3** Mae'r CDLl cyfredol, a seiliwyd ar y senario twf dan arweiniad economaidd, sef 3,850 o swyddi ar gyfer yr ardal, yn darparu ar gyfer 7,800 o unedau preswyl newydd ychwanegol. Bydd cyflwyno'r lefel hon o anghenion tai dros gyfnod y Cynllun yn arwain at gynnydd o ryw 7,500 o bobl a chyfanswm poblogaeth o 147,400 erbyn 2026.

**6.0.4** Ar y cychwyn, ar adeg paratoi'r Cynllun Adnau, defnyddiwyd Rhagamcanion Aelwydydd LlC a seiliwyd ar 2008 yn fan cychwyn, ac fe'u hymgorfforwyd i senario uchelgeisiol dan arweiniad yr economi, oedd yn ceisio mwyafu twf swyddi yn yr economi leol. Roedd y dull hwn yn galluogi'r Awdurdod i ragfynegi sut bydd newidiadau economaidd dros gyfnod y Cynllun yn cyfateb i'r gofynion o ran tir cyflogaeth a nifer y tai newydd angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y cyfanswm a ragwelir i'r boblogaeth a'r cyflenwad llafur fydd yn ofynnol. Cyn yr Archwiliad Cyhoeddus, cyhoeddwyd y rhagamcanion ar sail 2011 ac yna ailaseswyd lefel y twf, gan ddefnyddio'r rhagamcanion hyn wedi'u diweddaru.

**6.0.5** Dros amser, bu newid pwyslais bychan gan LlC ynghylch sut dylid defnyddio'r rhagamcanion aelwydydd. Yn ystod y broses o baratoi'r CDLl, nododd PCC y dylai rhagamcanion aelwydydd diweddaraf LlC fod yn fan cychwyn ar gyfer asesu lefel y twf a'r gofyn o ran tai mewn CDLlau. Fodd bynnag, mae'r fersiwn ddiweddaraf o PCC (2018) yn awr yn datgan y bydd y rhagamcanion hyn yn rhan hanfodol o'r sylfaen o dystiolaeth, ac felly'n parhau'n ystyriaeth allweddol yn yr Adolygiad o'r CDLl.


**6.0.6** Diben yr adran sy'n dilyn yw dadansoddi'r rhagamcanion a gyhoeddwyd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu a goblygiadau'r rhagamcanion diweddaraf wrth lunio angen tai yn ystod cyfnod estynedig y Cynllun.

### Rhagamcanion Aelwydydd a Adolygwyd

**6.0.7** Mae LlC yn rhyddhau rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd bob tair blynedd (wedi'u dadansoddi fesul Awdurdod Lleol). Y rhagamcanion diweddaraf a ryddhawyd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu yw'r rhagamcanion ar sail 2014. Mae'r tabl canlynol yn dangos y cymariaethau rhwng y prif ragamcanion ar sail 2008, 2011 a 2014.

**6.0.8** Fel y dangosir yn Ffigur 6.1 isod, mae amrywiad mawr rhwng rhagamcanion 2008 a rhai 2011 a 2014, gan yr amcangyfrifir mai nifer yr aelwydydd yn 2026 fydd 74,307 o dan ragamcanion 2008, 62,715 o dan ragamcanion 2011, a 63,009 o dan ragamcanion 2014. Mae rhagamcanion 2008 yn dangos lefel uchel o dwf, tra bod rhagamcanion 2011 a 2014 yn dilyn patrwm tebyg gyda rhyw fymryn o amrywiad rhwng y ddwy set o ragamcanion.

**Ffigur 6.1 Cymhariaeth o Ragamcanion Cartrefi ar sail Llywodraeth Cymru yn 2008, 2011 a 2014**




**6.0.9** Gan fod y rhagamcanion wedi'u seilio ar dueddiadau, seiliwyd y rhagdybiaethau oedd yn sylfaen ar gyfer rhagamcanion 2011 ar gyfnod o ddirywiad economaidd wedi'r argyfwng economaidd byd-eang, a arweiniodd at ragweld lefel sylweddol is o dwf nag yn rhagamcanion 2008. Gan ddefnyddio'r rhagamcan o ran egwyddor, amcangyfrifwyd y byddai angen 10,066 o gartrefi newydd ar sail rhagamcanion 2008, gyda rhagamcanion 2011 yn sylweddol is, sef 2,319 o gartrefi newydd erbyn 2026.


**6.0.10** Gan fod rhagamcanion egwyddor 2011 wedi'u seilio ar gyfnod o dwf economaidd isel, a chan nad ydynt yn caniatáu ar gyfer effeithiau polisi'r llywodraeth, pwysleisiodd LIC o'r newydd y disgwyl y dylid defnyddio'r rhagamcanion yn fan cychwyn, gan roi sylw i'r holl ffynonellau o dystiolaeth sydd ar gael. Am y rheswm hwn, defnyddiwyd amrywiad mudo 10 mlynedd ar sail 2011, oedd yn cwmpasu cyfnod o dwf economaidd uchel ac isel, ac a gododd nifer yr aelwydydd yn 2026 o 2,319 o dan y prif amrywiad i 4,331. Yna cafodd yr amrywiad hwn ei ystyried yng nghyd-destun y senario twf economaidd uchelgeisiol er mwyn ffurfio'r strategaeth ar gyfer twf a geir yn y CDLl a fabwysiadwyd.

**6.0.11** Yn fwy diweddar, gwnaeth LIC y penderfyniad i beidio â chyhoeddi'r rhagamcanion ar sail 2017, a rhagwelir y bydd y rhagamcanion ar sail 2018 yn cael eu cyhoeddi yn 2020. Er bod rhagamcanion yr awdurdod heb eu rhyddhau eto, cyhoeddwyd y rhagamcanion cenedlaethol ar sail ffigurau 2018, sy'n amcangyfrif y bydd yr angen am dai yn lleihau'n raddol yn ystod y 15 mlynedd nesaf, ac erbyn canol y 2030au (sef dyddiad gorffen y CDLl nesaf), bydd angen 6,500 o dai newydd yng Nghymru bob blwyddyn.

**Rhagamcanion Poblogaeth a Adolygwyd**

**6.0.12** Roedd rhagamcanion poblogaeth 2008 yn amcangyfrif y byddai cyfanswm poblogaeth 2026 yn 148,038, fymryn yn uwch na senario twf dan arweiniad economaidd y CDLl (oedd yn amcangyfrif y byddai'r boblogaeth yn 147,400). Ar sail Cyfrifiad 2011, cyhoeddwyd rhagamcanion seiliedig ar 2011 cyn mabwysiadu'r CDLl, ac amcangyfrifwyd y byddai'r boblogaeth yn 2026 yn 142,716, sef 5,322 yn llai na'r rhagamcan ar sail 2008. Mewn cyferbyniad, mae rhagamcanion 2014 yn dangos poblogaeth o 142,779 yn 2026, sef 63 yn unig o bobl o dan ragamcan 2011. Mae Ffigur 6.2 isod yn dangos y cymariaethau rhwng y rhagamcanion.

**Ffigur 6.2 Cymharu Rhagamcanion Poblogaeth Llywodraeth Cymru ar sail 2008, 2011 a 2014**




**6.0.13** Bydd angen felly i'r gofyniad tai yn y CDLl Amnewid gael ei ailystyried yng nghyd-destun y canlynol: rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd LIC yn 2018; y Fargen Ddinesig; darpariaethau strategaethau corfforaethol, dichonoldeb a chyfyngiadau (megis llifogydd a thopograffi); y materion allweddol y bydd y cynllun yn ceisio'u cyflawni; cysylltiadau rhwng cartrefi a swyddi; yr angen am dai fforddiadwy; a chyflawni amcan cyfannol y system gynllunio: 'Creu Lleoedd’.

**Creu Lleoedd**

**6.0.14** Mae PCC yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd nodi'r gofyniad tai yn glir yn y cynllun datblygu, ac yn datgan: *'Rhaid seilio'r gofynion hyn ar dystiolaeth a mynegi'n glir nifer y cartrefi marchnad a fforddiadwy y mae'r awdurdod cynllunio yn barnu fydd yn ofynnol yn eu hardal dros gyfnod y cynllun'.*

**6.0.15** Fodd bynnag, mae pwyslais hefyd yn awr ar *Greu Lleoedd* a chreu lleoedd cynaliadwy: *'Lleoedd Cynaliadwy yw nod y system cynllunio defnydd tir yng Nghymru;* nhw yw allbwn y system gynllunio, yn hytrach na'r broses o'u cyflawni. *Dylai pob penderfyniad datblygu, naill ai trwy ddewisiadau polisi cynllun datblygu neu reoli datblygiad unigol, geisio cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant'.*

**6.0.16** Bydd angen, felly, i'r CDLl barhau i sicrhau bod gofyniad tai â thystiolaeth lawn wedi'i nodi a bod darparu tai yn dal yn flaenoriaeth, ond ni ddylai hynny fod ar draul yr angen am greu lleoedd yn effeithiol a chreu lleoedd cynaliadwy.

**Cynllunio Rhanbarthol - Asesu'r Angen am Dai ar Lefel Ranbarthol**

**6.0.17** Bydd cynllunio a chydlynu darparu tai newydd i ymateb i anghenion a nodwyd yn dasg bwysig ar gyfer y broses gynllunio ranbarthol. Mae'r FfDC *Drafft* (Awst 2019) yn defnyddio rhagamcanion 2014 ac o dan amcangyfrifon canolog LlC yn nodi bod angen 114,000 o gartrefi a draws Cymru erbyn 2038, gyda bron chwarter o'r rheiny (23,400) yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru.

**6.0.18** Seiliwyd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) ar draws y Ffin (2019) a gynhaliwyd gan ORS ar ran rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru[5] ar ragamcanion 2014. Mae'n darparu ar gyfer y rhagamcanion poblogaeth a ffafrir gan bob un o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) ac yn cwmpasu cyfnod o 15 mlynedd (2018-2033) bron wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei gyhoeddi'n gynnar yn y flwyddyn newydd (2020).

**6.0.19** Yn flaenorol, bu Castell-nedd Port Talbot yn gweithio ar y cyd â Dinas a Sir Abertawe ac yn comisiynu Peter Brett Associates (PBA) i ragfynegi nifer y cartrefi fydd yn angenrheidiol yn ystod pob un o gyfnodau'r Cynllun, ar sail strategaeth dan arweiniad cyflogaeth oedd yn alinio nifer swyddi a chartrefi.

**6.0.20** Fel rhan o'r adolygiad, bydd angen i'r Cyngor ystyried a ddylai gynnal ymarferiad tebyg, naill ai gydag Abertawe neu ar raddfa ddaearyddol ehangach, a allai gwmpasu ACLlau ymhellach i'r gorllewin er mwyn sicrhau aliniad â'r CDS sydd i ddod.



5 Seiliwyd ar fethodoleg ORS, ac fe'i cymhwyswyd yn gyson ar draws holl Awdurdodau Cynllunio Lleol rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.

# 6 . Newidiadau i'r Sylfaen o Dystiolaeth a Gofynion

# 7 Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth y CDLl

## 7.1 Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion

**Materion Allweddol**

**7.1.1** Nodwyd Materion Allweddol y CDLl yn dilyn cryn dipyn o gasglu tystiolaeth, a chynhaliwyd rhaglen helaeth o ymwneud cymunedol, gan gynnwys nifer o ddigwyddiadau rhanddeiliaid, a gynhaliwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Nodwyd cyfanswm o 18 mater allweddol, oedd yn cwmpasu ystod eang o bynciau megis newid yn yr hinsawdd, yr angen am dai fforddiadwy, erydu'r iaith Gymraeg ac ansawdd aer.

**7.1.2** Yna bwydodd y materion allweddol i ddatblygiad amcanion y CDLl, a gafodd eu grwpio yn ôl y themâu a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru.

**7.1.3** Bydd angen ailystyried pob un o'r materion allweddol yng ngoleuni tystiolaeth a ddiweddarwyd a newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol, gan gynnwys yn arbennig ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) sy'n ymwneud â'r pum 'ffordd o weithio' a'r saith 'nod llesiant', ynghyd â'r weledigaeth a'r amcanion a gyflwynwyd yng Nghynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot a'r Cynllun Corfforaethol yn eu tro.

**7.1.4** I gyd-fynd â'r ffyrdd o weithio, bydd angen cynnwys y gymuned (*y cyhoedd a rhanddeiliaid*) yn fanwl er mwyn asesu perthnasedd parhaus y materion allweddol presennol neu a oes angen newidiadau neu ychwanegiadau. Bydd angen i'r broses hon gael ei llywio gan yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pob agwedd ar fywyd yng Nghastell-nedd Port Talbot, er mwyn medru adnabod ardaloedd lle mae materion wedi derbyn sylw, yn ogystal â'r rhai lle mae materion yn dal yn destun pryder parhaus.

**Gweledigaeth**

**7.1.5** Datblygwyd gweledigaeth y CDLl o gyfraniad cyhoeddus a chasglu tystiolaeth, ac fe'i paratowyd er mwyn ceisio rhoi sylw i'r materion allweddol a nodwyd. Roedd y weledigaeth yn cynnwys sawl ailadroddiad wrth i ddatblygiad y Cynllun symud yn ei flaen, o'r ymgynghori cychwynnol a'r sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid hyd at ei ddatblygiad trwy'r Strategaeth a Ffafrir, cyn cyrraedd y fersiwn derfynol yn y cam Adnau.

**7.1.6** Fel yn achos y materion allweddol, bydd angen ailystyried y weledigaeth yng ngoleuni tystiolaeth gefndir a ddiweddarwyd, y ddeddfwriaeth newydd a'r polisi cenedlaethol a ddaeth i'r amlwg, ynghyd â'r blaenoriaethau corfforaethol newydd a'r amcanion a ddatblygwyd.

**Amcanion**

**7.1.7** Cefnogir gweledigaeth y CDLl gan 25 o amcanion, wedi'u croesgyfeirio i'r materion allweddol perthnasol. O'r 25 o amcanion, mae pedwar yn drosfwaol, dau yn rhai ardal, a'r gweddill wedi'u grwpio o dan themâu Cynllun Gofodol Cymru.

**7.1.8** Eto, bydd angen ailystyried yr amcanion fel rhan o Adolygiad y CDLl yng ngoleuni unrhyw newidiadau i'r materion allweddol a'r weledigaeth, ac i roi cyfrif am dystiolaeth newydd yn sgîl diweddaru gwybodaeth a diwygio deddfwriaeth a chanllawiau. O ystyried y bydd Cynllun Gofodol Cymru yn cael ei ddisodli pan fabwysiadir y FfDC, rhagwelir y bydd y gyfres newydd o amcanion yn cael eu grwpio i gyd-fynd â'r FfDC a/neu'r themâu a gyflwynir yn fersiwn newydd PCC a ddiweddarwyd.

## 7.2 Strategaeth ar gyfer Twf

**7.2.1** Nod Strategaeth gyfredol y CDLl yw:

**Hwyluso twf yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan ganolbwyntio ar Goridor yr Arfordir, ochr yn ochr ag adfywio cymunedau'r Cymoedd.**

Mae hynny'n golygu:

- Canolbwyntio datblygiad ar hyd coridor yr arfordir ac yn ardaloedd trefol Castell-nedd a Phort Talbot, gan gydnabod rôl bwysig yr aneddiadau hynny yn y cyd-destun ehangach;
- Gwneud yn fawr o fanteision diddordeb y farchnad ar hyd coridor yr arfordir, a sbarduno twf trwy ddarparu safleoedd cyflogaeth strategol ac ardaloedd adfywio strategol;
- Nodi Pontardawe a Chwm Nedd Uchaf fel ardaloedd twf strategol yn y Cymoedd a fydd yn creu mecanwaith ar gyfer cydlynu buddsoddiad ac yn sicrhau bod manteision twf ac adfywio yn cael eu rhannu ar led yn fwy ar draws cymunedau'r cymoedd. ac
- Ymagweddu'n hyblyg at ddatblygu yng nghymunedau'r Cymoedd

**Strategaeth Economaidd ar gyfer Twf - *Alinio swyddi, tai, cyflenwad llafur a chyflogaeth***

**7.2.2** Seiliwyd strategaeth y CDLl ar fodel twf dan arweiniad economaidd, sy'n defnyddio'r cynnydd a ragwelir mewn swyddi a dyheadau i gynyddu'r gyfradd gweithgaredd economaidd er mwyn nodi'r boblogaeth oedran gwaith ofynnol i gefnogi'r nifer o swyddi a ragwelir. Yna trosir y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth oedran gwaith i'r angen am dai newydd, gan sicrhau bod y rhagolygon tai a chyflogaeth yn cyfateb, a bod cyfatebiaeth uniongyrchol rhwng nifer y swyddi, y tai, y cyflenwad llafur a'r tir cyflogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**7.2.3** Cyn dyddiad sylfaen y CDLl, roedd twf economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ddisymud, ac felly roedd cyfle i'r Cynllun geisio rhoi sylw i nifer o faterion sylfaenol yn yr ardal, a mwyafu'r cyfleoedd oedd yn debygol o gael eu creu trwy brosiectau adfywio a seilwaith allweddol. Mae'r senario dan arweiniad economaidd yn un uchelgeisiol, gyda'r

nod o fwyafu'r swyddi a greir yn yr economi leol, a cheisio cynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd a lleihau lefelau diweithdra yn unol â chyfartaledd Cymru, a thrwy hynny roi sylw i rai o'r materion allweddol a nodwyd yn y CDLI.

**7.2.4** Roedd y model twf economaidd yn rhagweld y byddai 3,850 o swyddi yn cael eu creu dros gyfnod y Cynllun, gan gynyddu nifer y swyddi yng Nghastell-nedd Port Talbot i 53,250 erbyn 2026, gyda thwf poblogaeth yr ardal yn deillio o gymhareb y boblogaeth oedran gwaith i'r boblogaeth gyfan. Mae'r nifer o swyddi a greir dros gyfnod y Cynllun, felly, yn un o'r prif ddangosyddion sy'n gallu monitro sut mae strategaeth y CDLI yn cael ei gweithredu a phennu pa mor llwyddiannus fu'r Cynllun wrth roi sylw i rai o'r prif faterion yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**7.2.5** Mae modd i ddata a ryddheir ar gyfer niferoedd swyddi gael eu diwygio, ac weithiau byddant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Gall bod cyfnod o oedi hefyd cyn rhyddhau data'r flwyddyn gyfredol, a all olygu bod monitro cyflogaeth yn y gweithle yn anoddach na dangosyddion economaidd eraill. Roedd y model twf economaidd yn rhagweld y byddai cynnydd yn nifer y swyddi o 48,200 yn 2011 i 52,050 yn 2026, sy'n cynrychioli cynnydd o 3,850. Fodd bynnag, erbyn amser yr Archwiliad Cyhoeddus (2015), dangosodd y data diweddaraf a ryddhawyd fod gostyngiad wedi bod mewn gwirionedd yn nifer y swyddi, o 48,200 yn 2011 i 46,300 yn 2013, ac o ganlyniad, er mwyn i'r Cynllun gyflawni 52,050 o swyddi erbyn 2026, byddai angen i'r targed blynyddol ar gyfer creu swyddi gynyddu er mwyn gwneud iawn am y gostyngiad mewn swyddi rhwng 2011 a 2013.

**7.2.6** Roedd yr ystadegau nesaf a ryddhawyd yn diwygio'r ffigurau ymhellach, ac yn nodi bod union nifer y swyddi adeg y gwaelodlin (2011) mewn gwirionedd yn uwch nag yr oedd y data a ryddhawyd yn flaenorol wedi awgrymu, ac mai nifer y swyddi yn 2011 oedd 49,400 (yn hytrach na'r ffigur gwreiddiol a ryddhawyd, sef 48,200), ac er bod nifer y swyddi wedi gostwng yn 2013 (47,100), erbyn 2014 roedd nifer y swyddi wedi codi i 50,500, oedd yn adlewyrchiad cadarnhaol ar yr economi leol, ac a allai fod yn arwydd o economi fwy cydnerth.

**7.2.7** Yna gwelwyd cynnydd pellach mewn swyddi yn ystod y cyfnod nesaf o 12 mis, gan godi i 50,900 o swyddi erbyn 2015. Ers 2015, bu gostyngiad yn nifer y swyddi, gyda gostyngiad dramatig i 46,600 o swyddi yn 2017, sef 2,800 yn llai o swyddi nag adeg dyddiad sylfaen y CDLI. Mae'r ffigurau diweddaraf a ryddhawyd (2018) yn dangos gwelliant aruthrol, gyda chynnydd o 3,000 o swyddi i 49,600. Er bod hyn yn gadarnhaol, y cynnydd cyffredinol rhwng y dyddiad sylfaen, 2011 a 2018 yw 200 o swyddi'n unig, a hynny yn erbyn targed o 3,850 o swyddi dros gyfnod y Cynllun. Mae'r tabl canlynol yn dangos yr amrywiadau blynyddol yng nghyflogaeth y gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**Tabl 7.2.1 Cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot**

| Blwyddyn | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogaeth yn y Gweithle | 49,400 | 50,200 | 47,100 | 50,500 | 50,900 | 49,800 | 46,600 | 49,600 |


Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

**7.2.8** Er bod lefel cyflogaeth yn y gweithle wedi syrthio'n sylweddol is na dyheadau'r Cynllun, mae rhai o amcanion eraill y CDLl, megis cynyddu'r gyfradd gweithgaredd economaidd i gyfateb i gyfartaledd Cymru a lleihau'r gyfradd ddiweithdra, wedi bod yn fwy cadarnhaol.

**7.2.9** Un o amcanion y Cynllun yw cynyddu cyfradd gweithgaredd economaidd i 76% erbyn 2026, ac alinio hynny â chyfartaledd Cymru. Bu cynnydd yng nghyfradd y gweithgaredd economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot, o 69.7% yn 2011 i 74% yn 2019, gyda'r bwlch rhwng Castell-nedd Port Talbot a Chymru yn lleihau rhywfaint o 3% y tu ôl i gyfartaledd Cymru yn 2011 i 2.7% y tu ôl iddo yn 2019. Mae'r bwlch rhwng Castell-nedd Port Talbot a chyfartaledd y Deyrnas Unedig hefyd wedi lleihau o 6.3% i 4.5% yn ystod yr un cyfnod.

**7.2.10** Amcan arall yw lleihau'r gyfradd ddiweithdra yn unol â chyfartaledd tymor hir Cymru, sef 6.9%. Mae'r graff isod yn dangos cyfradd diweithdra Castell-nedd Port Talbot, Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae Cymru a'r Deyrnas Unedig yn dilyn patrwm tebyg, gyda dirywiad cyson yn ystod y cyfnod. Mewn cyferbyniad, gwelwyd mwy o amrywiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y cyfnod, gyda gostyngiad arwyddocaol o 6.9% rhwng y dyddiad sylfaen a 2019, ac mae bellach yn 3%, sy'n is na chyfartaledd Cymru (4.5%) a chyfartaledd y Deyrnas Unedig (4.1%).

**Ffigur 7.1 Cyfradd Diweithdra yng Nghastell-nedd Port Talbot, Cymru a'r Deyrnas Unedig**




**7.2.11** Mae'r cynnydd mewn gweithgaredd economaidd a'r gostyngiad mewn diweithdra yn darparu rhagolwg cadarnhaol ar gyfer yr ardal, ac mae'n dangos sylfaen economaidd fwy cadarn. Fodd bynnag, un o elfennau hanfodol strategaeth y CDLl yw mwyafu twf swyddi yn yr economi leol, er mwyn ymdrin â nifer o faterion allweddol y mae'r ardal yn

eu profi, ac mae angen creu cyfoeth trwy dwf swyddi i gyflawni gweledigaeth gyffredinol y Cynllun. Er bod gweithgaredd economaidd wedi cynyddu, nid ymddengys bod y swyddi wedi cael eu creu yn yr ardal, a gallai hynny olygu bod mwy o bobl yn cymudo allan o'r ardal at ddibenion cyflogaeth.

**7.2.12** Fel cyfraniad hanfodol at gynyddu nifer y swyddi yn yr ardal, dyrannodd y Cynllun dir cyflogaeth digonol i ddarparu cyflenwad, cyfuniad ac amrywiaeth digonol o safleoedd cyflogaeth ansawdd uchel ym Mae Baglan, C38 o'r M4, Coed Darcy a Glannau'r Harbwr. Dyrannwyd cyfanswm o 96 hectar o dir ar gyfer cyflogaeth, sef 32 hectar ar gyfer defnyddiau Dosbarth B confensiynol a lle i ddarparu ar gyfer anghenion y sector ynni sy'n tyfu. Hyd yma, dim ond 5.1 o hectarau sydd wedi cael eu datblygu ar draws y pedwar dyraniad cyflogaeth strategol hyn.


**7.2.13** Gan fod gofynion tai y CDLI wedi'u seilio ar dai i gynnal cynnydd a ragwelid yn y boblogaeth oedran gwaith, i gefnogi creu swyddi newydd, a chan nad oes swyddi'n cael eu creu, nid yw'r galw am dai newydd wedi cael ei wireddu o ganlyniad.

**Tai**

**7.2.14** Mae'r CDLI yn darparu ar gyfer cyflwyno 7,800 o anheddau newydd yn ystod cyfnod y Cynllun. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2019, datblygwyd cyfanswm o 2,126 o unedau tai newydd, yn erbyn y targed o 3,582, sy'n cyfateb i 59% o'r targed ar gyfer y cyfnod.

**7.2.15** Mae'r tabl isod yn dangos gofyniad blynyddol y CDLI o gymharu â'r tai a ddarparwyd yn erbyn y targed, ac yn dangos bod lefelau cwblhau tai wedi bod yn is na'r gofyn o ran anheddau yn y CDLI bob blwyddyn ers y dyddiad sylfaen. Roedd lefelau cwblhau tai isaf yn 2016/17 a 2017/18, lle roedd y cyfanswm a gwblhawyd yn 178 a 148 o unedau yn unig yn eu tro, sy'n sylweddol is na'r targed blynyddol o 520 o unedau.

**Tai a Gwblhawyd yng Nghastell-nedd Port Talbot (2011-2019)**




**7.2.16** O ganlyniad i gyflwyno nifer isel o dai yn ystod blynyddoedd cychwynnol y Cynllun, er mwyn cyrraedd targed tai'r CDLl, sef 7,800 o anheddau newydd, bydd angen cyfradd adeiladu flynyddol o 810 o gartrefi yn awr o 2019 tan 2026. Ni chyflawnwyd y lefel hon o adeiladu tai erioed yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan fod y gyfradd adeiladu gyfartalog ers y dyddiad sylfaen ar lefel o 265 o unedau fesul blwyddyn. Bernir felly bod lefel yr angen am dai yn afresymol, ac nad oes modd ei gyflawni dros weddill cyfnod y Cynllun.

**7.2.17** Hyd at 31 Mawrth 2019, darparwyd cyfanswm o 2,126 o unedau, sy'n cyfateb i 27.3% o'r angen cyffredinol am dai yn ystod 8 mlynedd cyntaf y CDLl. Mae nifer o resymau pam nad yw safleoedd wedi cael eu cynnig yn unol â'r disgwyl, rhai ohonynt yn annibynnol ar y system gynllunio, ac mae rhesymau eraill megis dichonoldeb yn dylanwadu ar a fydd safleoedd yn dod i'r amlwg yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun.

**7.2.18** Mae gan y CDLl ddigon o dir wedi'i ddyrannu i ddiwallu'r gofyniad tai a nodwyd, a than yn ddiweddar, roedd yr Awdurdod yn gallu darparu tystiolaeth o gyflenwad tir o 5 mlynedd, ar sail y lefel o gyflawni a ragwelir yn y dyfodol, o ystyried trafodaethau cynnar gyda thirfeddianwyr a chynnydd a wnaed ar nifer o safleoedd. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae'r broses o gyflwyno tai wedi digwydd yn arafach na'r disgwyl, ac nid yw nifer o ddyraniadau'r CDLl wedi symud ymlaen i'r cam cais cynllunio/datblygu am nifer o resymau. Yn sgîl hyn mae'r cyflenwad tir sydd ar gael wedi syrthio o dan y 5 mlynedd sy'n ofynnol.



**Tabl 7.2.2 Cyflenwad Tir yng Nghastell-nedd Port Talbot**

| Blwyddyn | Cyflenwad Tir |
|---|---|
| 2011/12 | 6 years |

| Blwyddyn | Cyflenwad Tir |
|---|---|
| 2012/13 | 2.6 years |
| 2013/14 | 2.5 years |
| 2014/15 | 5.5 years |
| 2015/16 | 5.0 years |
| 2016/17 | 5.3 years |
| 2017/18 | 5.0 years |
| 2018/19 | 4.5 years |

**7.2.19** Yng ngoleuni'r hyn a gyflawnwyd hyd yma, mae'n amlwg nad oes modd cario lefel gyfredol y twf a'r dyraniadau tai a geir yn y CDLI cyfredol ymlaen, ac y bydd angen ailystyried y stategaeth twf yn ystod yr adolygiad.

## 7.3 Strategaeth Ofodol

**7.3.1** Roedd strategaeth ofodol y CDLI yn rhannu'r ardal weinyddol yn ddwy ardal strategaeth wahanol, er mwyn nodi'r lleoliadau cyffredinol ar gyfer diwallu anghenion twf a datblygiad y strategaeth twf, a chan gydnabod hunaniaeth unigryw, nodweddion amrywiol a gofynion marchnad gwahanol ardaloedd Castell-nedd Port Talbot.

**7.3.2** Mae'r strategaeth ofodol yn hwyluso datblygiad ar hyd 'coridor arfordirol' yr M4 yn ardaloedd trefol Castell-nedd a Phort Talbot, ochr yn ochr ag adfywio'r 'cymoedd', sef ardal sy'n cynnwys Pontardawe ac ardaloedd y pum cwm.

### Coridor yr Arfordir

**7.3.3** Coridor yr arfordir sy'n cynnwys yr ardaloedd lle mae'r galw cryfaf yn y farchnad, a lle mae'r gyfran fwyaf o fuddsoddiad economaidd ac adeiladu tai wedi'i chrynhoi. Er mwyn cyflawni'r strategaeth twf a darparu datblygiadau yn y mannau mwyaf cynaliadwy, mae datblygiadau newydd pwysig yn troi o gwmpas y coridor er mwyn mwyafu potensial yr ardal, ac elwa ar rwydweithiau trafnidiaeth strategol er mwyn cyflawni gweledigaeth y Cynllun.

**7.3.4** Er mwyn cyflawni patrymau datblygu mwy cynaliadwy, ailddefnyddir tir maes llwyd lle bo modd, ac yn ofodol, mae datblygiadau adfywio ar raddfa fawr yn troi o gwmpas tir maes llwyd yng Nghoed Darcy a Glannau'r Harbwr trwy nodi Ardaloedd Adfywio Strategol (AASau).

**7.3.5** Nod datblygiad Coed Darcy yw creu pentref trefol cynaliadwy sy'n cynnwys preswylfeydd, addysg a chyflogaeth, tra bod dyraniad Glannau'r Harbwr yn gyfle ar gyfer datblygiad adfywio sylweddol a defnydd cymysg, ar ffurf manwerthu, addysg, preswylfeydd a chyflogaeth.

**7.3.6** Yn ogystal â'r ardaloedd hyn, nodir dyraniadau cyflogaeth strategol yng Nghyffordd 38 (M4) a Bae Baglan yn sgîl galw'r farchnad a'u gallu i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o gyflogaeth, gan gynnwys gofynion y sector ynni sy'n tyfu ac i ddarparu ar gyfer datblygiadau sy'n deillio o Gampws newydd y Bae Prifysgol Abertawe, er mwyn annog symudiad oddi wrth weithgynhyrchu traddodiadol at economi seiliedig ar wybodaeth.

**7.3.7** Er bod datblygiad Campws y Bae wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus, a bod defnyddiau cyflogaeth wedi ehangu rhywfaint i mewn i Fae Baglan, mae'r datblygiad cyffredinol ar y safleoedd cyflogaeth strategol a'r ardaloedd adfywio strategol wedi bod yn gyfyngedig yn ystod cyfnod y Cynllun, gan syrthio'n is na'r lefelau datblygiad a ragwelwyd.

**7.3.8** Erbyn 31 Mawrth 2019, roedd llwybr tai CDLl yn rhagweld y byddai Coed Darcy wedi darparu rhyw 800 o anheddau a 2 hectar o arwynebedd llawr cyflogaeth. Hyd yma, ni fu datblygiad at ddefnyddiau cyflogaeth a dim ond 36% (291 o unedau) o'r lefel o dai a ragwelwyd a gyflawnwyd. Yn yr un modd yng Nglannau'r Harbwr mae'r ddarpariaeth wedi syrthio'n sylweddol is na llwybr arfaethedig y Cynllun, gyda 34 o'r 75 o unedau tai a ragwelwyd yn cael eu cyflwyno ac 1.8ha o arwynebedd llawr cyflogaeth yn cael ei ddatblygu yn erbyn targed o 4.92ha.

**7.3.9** O ran seilwaith i gyflawni'r strategaeth, nodwyd nifer o welliannau allweddol i gefnogi'r strategaeth ar gyfer twf ac i ymdrin â materion megis tagfeydd ac annog newid moddol at ffurfiau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth. Mae ailddatblygu Gorsaf Parcffordd Port Talbot, y Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan, Ffordd yr Harbwr, a Ffordd Amazon i gyd wedi cael eu gweithredu'n llwyddiannus yn ystod cyfnod y Cynllun. O ganlyniad, er bod y datblygiad wedi bod yn gyfyngedig, rhoddwyd seilwaith allweddol ar waith a allai hwyluso datblygiad yn y dyfodol a rhoi sylw i'r materion allweddol yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**7.3.10** Bydd angen i'r adolygiad, a seiliwyd ar y lefelau cyflawni isel hyd yma, ailystyried a fydd y mentrau adfywio hyn yn darparu twf oddi mewn i goridor yr arfordir, neu a fydd datblygiad wedi'i ganolbwyntio ar leoliadau amgen yn fwy effeithiol o ran cyflawni Strategaeth y CDLl, gan ystyried mentrau newydd fel dyrannu Parth Menter Glannau Port Talbot yn 2016.

**7.3.11** Mae'r FfDC sy'n dod i'r amlwg yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwella a ffocws gwahanol ar gynllunio ar gyfer seilwaith y dyfodol. Bydd y potensial ar gyfer 'Metro Bae Abertawe' newydd yn gwella cysylltedd ar draws y rhanbarth ac yn mwyafu'r cyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddi a thwf. Byddai'r Metro yn un o'r datblygiadau seilwaith mwyaf a welid ar draws y rhanbarth, a gallai ddod â chryn fudd economaidd yn ei sgîl, ochr yn ochr â gwella hygyrchedd. Oherwydd graddfa'r cynigion, bydd angen i'r strategaeth adlewyrchu'r cyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â'r datblygiad ac ystyried sut bydd y Metro yn cydweddu â sut mae'r FfDC yn nodi Ardal Twf Cenedlaethol Bae Abertawe a Llanelli (NGA). Bydd angen ystyried mathau eraill o seilwaith newydd hefyd yng nghyd-destun y strategaeth, ymhlith yr elfennau allweddol bydd seilwaith gwefru cerbydau trydan, seilwaith cyfathrebu symudol a seilwaith werdd.

**Cymoedd**

**7.3.12** Mae gan ardaloedd y Cymoedd dreftadaeth ddiwylliannol gref a hunaniaeth unigryw, ac maent yn llawn adnoddau naturiol. Fodd bynnag, mae cymunedau wedi wynebu dirywiad yn y diwydiannau traddodiadol, iechyd gwael ac allfudo, sydd wedi arwain at gylch o amddifadedd mewn rhai ardaloedd. Mae'r strategaeth i adfywio'r Cymoedd yn cydnabod yr heriau a'r materion allweddol yn yr ardaloedd hynny ac yn ceisio arallgyfeirio oddi wrth ddiwydiannau traddodiadol, gan fwyafu mentrau adfywio a darparu agwedd fwy hyblyg ar ddatblygiad newydd.

**7.3.13** Nodwyd ardaloedd Pontardawe a phen Uchaf Cwm Nedd fel 'Ardaloedd Twf Strategol' ar gyfer y cymoedd, gan gydnabod eu statws fel aneddiadau allweddol a chefnogol yng Nghynllun Gofodol Cymru, a chan mai nhw oedd yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer canolbwyntio datblygiad yn ardal y cymoedd. Mae manteision twf ac adfywio a reolir yn yr ardaloedd hyn yn gallu hyrwyddo manteision ehangach, a fydd i'w teimlo ar draws cymunedau eraill y cymoedd.

**7.3.14** Pontardawe yw'r anheddiad mwyaf yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC), ac mae'n gweithredu fel canol tref gyda chysylltiadau agos â'r M4 a phorth i rai o ardaloedd y cymoedd. Gyda gallu a'r galw am ddarparu ar gyfer nifer sylweddol o ddatblygiadau tai newydd, mae cyfanswm o 11 o safleoedd tai wedi'u dyrannu, gyda chapasiti o 664 o unedau. O'r dyraniadau hyn, datblygwyd 240 o unedau (hyd at 30 Mawrth 2019), ac mae disgwyl i'r tai a gyflwynir gynyddu ar sail y cynnydd sy'n digwydd ar hyn o bryd ar nifer o safleoedd.

**7.3.15** Mae'r pwynt twf ym mhen uchaf Cwm Nedd yn troi'n bennaf o gwmpas Glyn-nedd, sydd yn ymyl yr A465, coridor trafnidiaeth allweddol sy'n cysylltu â Chastell-nedd, Abertawe, Caerdydd a Chanolbarth Lloegr. Mae canolfan fanwerthu ardal Glyn-nedd yn gweithredu fel canolbwynt, gydag ystod eang o wasanaethau, ac wrth i'r strategaeth gael ei ffurfio roedd wedi elwa'n ddiweddar o Gynllun Adfywio Canol Tref Glyn-nedd. I gyd-fynd â hyn a chefnogi canol y dref, dyrannwyd cynllun adfywio gyda ffocws ar fanwerthu yn Rhodfa'r Parc, oedd yn cynnwys dyraniad preswyl a manwerthu cymysg.

**7.3.16** Mae datblygiad adfywio defnydd cymysg dan arweiniad twristiaeth yn Rheola hefyd wedi'i ddyrannu i ddarparu llety gwyliau a chyfleusterau ategol i hybu twf yn y sector twristiaeth, yn sgîl statws cynyddol yr ardaloedd fel cyrchfan twristiaeth. Nid yw'r datblygiadau yn Rhodfa'r Parc a Rheola wedi cychwyn yn ystod blynyddoedd cychwynnol y Cynllun, a bydd angen i'r strategaeth ddiwygiedig archwilio sut mae hybu a chyflawni twf ar draws cymunedau'r cymoedd.

**7.3.17** Mae'r Strategaeth hefyd yn ceisio annog agwedd fwy hyblyg at ddatblygu yn y Cymoedd, er mwyn creu cymunedau cynaliadwy, gwydn, gyda'r bwriad o atal y broses o ddiboblogi a dirywio. Anogir unedau bywyd/gwaith y tu allan i derfynau aneddiadau, ond yn union yn eu hymyl, ac mae cynigion manwerthu hyd at 200m$^2$ o arwynebedd llawr gros yn dderbyniol y tu allan i ganolfannau tref, ardal a lleol dynodedig er mwyn cefnogi cyflogaeth newydd a phresennol, creu swyddi, ac adfywio'r ardal.

**7.3.18** Fodd bynnag, ni fu datblygiadau bywyd/gwaith yn ASC hyd yma. Cafwyd tri chais perthnasol ar gyfer datblygiadau manwerthu bach o dan 200m$^2$ yn ASC yn 2018, ond dim yn 2017 na 2019. Bydd angen ailasesu'r polisïau hyn ac effeithiolrwydd y dull gweithredu adfywio a ddefnyddir ar gyfer ASC fel rhan o'r adolygiad.

**7.3.19** Mae'r FfDC sy'n dod i'r amlwg yn nodi ardaloedd o'r ASC fel ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy. Bydd angen i'r sector ynni cynyddol a'r potensial i'r cymoedd ddarparu ar gyfer nifer o gynigion ynni gwynt a solar gael eu hystyried yn ystod yr adolygiad. Bydd angen ystyried y potensial ar gyfer twf mewn diwydiannau eraill, megis twristiaeth, yn ogystal.

## 7.4 Ailystyried y Strategaeth

**7.4.1** Er bod y strategaeth twf a arweinir yn economaidd wedi gweld rhai gwelliannau cadarnhaol yng nghyfradd y gweithgaredd economaidd a gostyngiad mewn diweithdra, bydd y twf cyfyngedig yn nifer y swyddi a'r anallu i gyflawni'r gofynion tai yn golygu bod angen ailystyried y strategaeth fel rhan o'r adolygiad.

**7.4.2** Elfen gritigol o Strategaeth y CDLl yw creu swyddi yn yr economi leol, sydd yn ei dro yn bwydo i'r galw am dai newydd, gyda chreu swyddi newydd yn elfen annatod o gyflawni'r weledigaeth gyffredinol. Gan fod y Cynllun wedi syrthio'n eitha pell o'r nod o ran cyflawni twf swyddi a datblygiad cyflogaeth, bydd angen i'r adolygiad ystyried a yw dull gweithredu â ffocws economaidd yn dal yn briodol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Er bod y strategaeth bresennol wedi rhoi sylw i rai o amcanion y Cynllun, megis lleihau'r gyfradd ddiweithdra, mae rhai o'r materion allweddol a nodwyd yn dal heb dderbyn sylw.

**7.4.3** Mae angen dadansoddi pellach i bennu pam mae twf swyddi wedi lleihau ers 2015, ac a yw'r ansicrwydd ynghylch dyfodol TATA Steel neu Brexit wedi cael unrhyw effaith ar ddenu buddsoddiad newydd i'r ardal. Bydd angen rhagolygon economaidd newydd i ganfod ble bydd y sectorau twf posibl yn ystod cyfnod y Cynllun Amnewid a sut bydd newidiadau cyd-destunol megis Bargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, Parth Menter Port Talbot, potensial Metro Bae Abertawe a'r FfDC sy'n dod i'r amlwg yn dylanwadu ar ddatblygiad economaidd yn y dyfodol.

**7.4.4** Mae lefel y datblygiad ar draws y ddau faes yn y strategaeth (h.y. 'Coridor yr Arfordir' a'r 'Cymoedd') wedi syrthio o dan y lefelau twf a ragwelwyd, a nodwyd yn y Cynllun a fabwysiadwyd (fel y dangosir isod). Bydd angen i broses yr adolygiad bennu lefel ddiwygiedig o dwf tai yn ystod cyfnod estynedig y Cynllun, gan gymryd i ystyriaeth ragamcanion diweddaraf Llywodraeth Cymru ac ystyried ai'r strategaeth ofodol yw'r dull priodol o hyd ar gyfer dosbarthu twf.

**Tabl 7.4.1 Dyraniadau Tai a lefelau cwblhau yn ôl Ardal Strategaeth**

| | Polisi H1 y CDLl | Cyfran a Ddyrannwyd | Lefelau Cwblhau Tai Dyraniadau H1 (hyd at 31 Mawrth 2019) | Elfennau a Gwblhawyd yn erbyn y Targed (hyd at 31 Mawrth 2019) |
|---|---|---|---|---|
| Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | 5,690 | 82% | 1,189 | 21% |
| Ardal Strategaeth y Cymoedd | 1,275 | 18% | 457 | 36% |
| Cyfanswm | 6,695 | 100% | 1,646 | - |

**7.4.5** Bydd y portffolio H1 o ddyraniadau tai yn cael ei arfarnu o'r newydd a bydd unrhyw ddyraniadau tai sydd heb eu cyflawni yn cael eu hailasesu i sicrhau bod modd cyflawni safleoedd a'u bod yn ddichonadwy oddi mewn i gyfnod estynedig y Cynllun. Yn drawiadol, mae'r argraffiad newydd o PCC yn gofyn bod dichonoldeb safle yn cael ei ddangos cyn ei ddyrannu yn y Cynllun, felly mae pwyslais mwy bellach ar ddichonoldeb, a allai arwain at ddad-ddyrannu rhai safleoedd a chynnwys safleoedd newydd i ddiwallu'r gofyn cyffredinol am dai.

**7.4.6** Bydd angen hefyd i ddosbarthiad gofodol y lefel twf a ddiweddarwyd gael ei ystyried yng nghyd-destun y FfDC drafft, gan fod y ddogfen sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu y bydd ffocws gwahanol ar gyfer meysydd sy'n rhan o'r ardal. Mae cynigion drafft yn dangos y bydd Coridor yr Arfordir yn rhan o NGA dynodedig Bae Abertawe a Llanelli, a fydd yn brif ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad ar raddfa fwy ar draws rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, gan gydnabod ei statws fel lleoliad y prif ganolfannau poblogaeth, cyflogaeth, gwasanaethau a chysylltedd.

**7.4.7** Bydd angen i'r polisi cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg er mwyn canolbwyntio twf strategol, gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol, trafnidiaeth a seilwaith ddigidol yn y prif ganolfannau, gael ei adlewyrchu yn strategaeth y CDLl Amnewid. Ymhellach, mae'r FfDC drafft yn cydnabod potensial y rhanbarth i chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gefnogi dadgarboneiddio ac ecsbloetio ffynonellau ynni adnewyddadwy megis gwynt, y llanw a solar. Mae cyfran sylweddol o Ardal Strategaeth y Cymoedd, sydd eisoes yn bodoli, wedi'i nodi mewn ardal flaenoriaeth ar gyfer datblygu ynni gwynt a solar. Mae potensial yn yr ardaloedd hyn hefyd i ehangu ac arallgyfeirio'r diwydiant twristiaeth.

**7.4.8** Ochr yn ochr â hynny, mae PCC diwygiedig hefyd yn cyflwyno nifer o egwyddorion cynllunio y bydd angen iddynt fod yn ffocws allweddol ar gyfer y Cynllun Amnewid, er mwyn sicrhau bod creu lleoedd yn ganolog i ddatblygiadau newydd, a bod y Cynllun yn creu lleoedd sy'n hybu ffyniant i bawb, gan hyrwyddo mannau mwy iach, actif, cymdeithasol a hygyrch i bobl fyw a gweithio ynddynt. Bydd angen ystyried pob un o'r elfennau hyn wrth asesu'r sefyllfa bresennol, ac o'u cyfuno gallai hynny arwain at nifer o newidiadau i'r strategaeth gyffredinol.

# 8 Adolygiadau Ardaloedd Pynciol y CDLI

## 8.1 Polisïau Trosfwaol

### 8.1.1 Polisi Strategol 1 - Newid yn yr Hinsawdd

**8.1.1.1** Mae Polisi SP1 Newid yn yr Hinsawdd yn bolisi trosfwaol y bwriadwyd iddo gael ei weithredu ar draws holl themâu a pholisïau pynciol y CDLl. Yn y blynyddoedd ers mabwysiadu'r CDLl, mae'r holl arwyddion yn awgrymu bod newid yn yr hinsawdd yn dod yn fater mwyfwy pwysfawr gydag effeithiau a goblygiadau sy'n dod yn fwy amlwg wrth i amser fynd heibio. Yn dilyn datganiad Llywodraeth Cymru ynghylch argyfwng hinsawdd[(6)], bernir ei fod yn briodol cadw'r polisi hwn fel ystyriaeth drosfwaol a fydd yn cael dylanwad gor-redol ar bob rhan o'r Cynllun.

**8.1.1.2** Oherwydd natur drosfwaol y polisi, mae nifer o ddogfennau sylfaen o dystiolaeth yn berthnasol i newid yn yr hinsawdd, a hynny o ran achosion a chanlyniadau, er enghraifft Papur Pwnc yr Amgylchedd, yr Asesiad o Ganlyniadau Strategol Llifogydd, a'r Papur Pwnc Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel. Bydd angen diweddaru'r sylfaen o dystiolaeth sy'n ymwneud yn gyffredinol â newid yn yr hinsawdd yng nghyd-destun Castell-nedd Port Talbot.

**8.1.1.3** Mae'r FfDC drafft yn ategu pwysigrwydd newid yn yr hinsawdd, ac yn datgan mai nod y FfDC a PCC yw sicrhau bod y system gynllunio yn canolbwyntio ar gyflawni Cymru ddi-garbon a chydnerth trwy '...y lleoedd rydym ni'n eu creu, yr ynni rydym ni'n ei gynhyrchu a'i ddefnyddio, economi gylchol, y tai rydym ni'n byw ynddynt a sut rydym ni'n teithio'. Datblygir hyn trwy'r thema creu lleoedd a ymgorfforir yn PCC.

**8.1.1.4** 8Yng Ngweithgor y Swyddogion, ni nodwyd materion penodol yng nghyswllt telerau'r polisi na'i rôl drosfwaol yn y Cynllun. Y prif fater a nodwyd yn yr AMBau yw'r diffyg yn nwysedd datblygiadau ar hyd coridor yr arfordir, sef mater sy'n derbyn sylw o dan Bolisi BE1 (Dylunio).

**8.1.1.5** Ar hyn o bryd mae'r polisi wedi'i rannu'n fesurau i ddelio gydag achosion newid yn yr hinsawdd (mesurau lliniaru) a mesurau cysylltiedig â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd (mesurau addasu). Mae'n fwriad cadw'r strwythur sylfaenol yma, ond adolygu'r meini prawf polisi penodol er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a'r dulliau gweithredu diweddaraf yn cael eu hymgorffori.

### 8.1.2 Polisi Strategol 2 - Iechyd

**8.1.2.1** Yn yr un modd, mae Polisi SP2 Iechyd yn bolisi trosfwaol y bwriadwyd iddo gael ei weithredu ar draws holl themâu a pholisïau pynciol y CDLl:

- *Aneddiadau Cynaliadwy* - gall cymdogaethau wedi'u dylunio'n dda, ag adnoddau digonol, sydd â chysylltiadau da ddarparu manteision iechyd cadarnhaol;

6 Datganiad i'r Wasg 29/05/19

- *Dyraniadau Tai* - lleoli datblygiadau sensitif megis tai yn ddigon pell o ffynonellau sŵn, llygredd aer a pherygl llifogydd, ac adeiladu gan gadw at safonau amgylcheddol llym er mwyn cynyddu effeithlonrwydd ynni;
- *Diogelu Cyfleusterau Cymunedol* - mae ceisio cadw ystod o gyfleusterau hamdden, adloniant, iechyd, cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol hygyrch yn annog ffyrdd o fyw sy'n iachach, yn fwy egnïol ac yn fwy diogel;
- *Darparu a Diogelu Mannau Agored* - sicrhau bod pob preswylydd yn cael mynediad at fannau agored digonol i wella'u hiechyd corfforol a meddyliol;
- *Hygyrchedd* - gwella hygyrchedd rhwng cymunedau ac annog teithio llesol lle bynnag y bo modd;
- *Cyflogaeth* - darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd i leihau cyfraddau diweithdra a segurdod economaidd; a'r
- *Amgylchedd* - gall ansawdd yr amgylchedd naturiol ac adeiledig ddylanwadu ar iechyd a llesiant y boblogaeth.

**8.1.2.2** Iechyd yw'r brif elfen sydd wedi'i gwreiddio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n rhoi pwyslais ar agwedd gyfannol, hirdymor a chydweithredol at gyflawni llesiant trwy greu lleoedd. Un o'r saith nod yw cyflawni Cymru iachach. Mae thema newydd creu lleoedd a mannau cynaliadwy yn PCC yn berthnasol i'r maes pwnc hwn, ac mae gwella iechyd yn un o amcanion y FfDC drafft. Cyflwynir iechyd a llesiant, felly, fel amcan allweddol ym mholisi LIC.

**8.1.2.3** Bernir ei fod yn briodol, felly, bod polisi iechyd a llesiant yn cael ei gadw fel ystyriaeth drosfwaol a fydd yn cael dylanwad gor-redol ar hyd y Cynllun. Fodd bynnag, bydd angen i'r adolygiad ystyried a ddylai barhau'n bolisi trosfwaol annibynnol, neu gael ei gyfuno o dan thema drosfwaol newydd, sef creu lleoedd cynaliadwy.

### 8.1.3 Polisi Strategol 3 - Cymunedau Cynaliadwy

**8.1.3.1** Bwriad Polisi SP3 Cymunedau Cynaliadwy yw hwyluso darparu rhwydwaith o gymunedau cynaliadwy, iach a chydlynus trwy adnabod a gweithredu hierarchaeth aneddiadau, gyda therfynau aneddiadau wedi'u diffinio a chan ddiogelu cyfleusterau cymunedol.

**8.1.3.2** Mae'r sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisïau hyn, gan gynnwys yr Hierarchaeth Aneddiadau (Tabl 3.1 o'r CDLI) a'r Papur Pwnc Aneddiadau, gyda gwybodaeth sydd mewn papurau pwnc a dogfennau eraill hefyd yn berthnasol. Bydd angen cynnal archwiliad o gyfleusterau cymunedol ac astudiaeth capasiti trefol er mwyn canfod yr wybodaeth waelodlin gyfredol ar gyfer asesu capasiti anheddiadau a'r cyfleoedd sy'n bodoli iddynt dyfu.



**8.1.3.3** Yn gyffredinol, mae'r Hierarchaeth Aneddiadau yn annhebygol o fod wedi newid yn helaeth o gwbl, ond bydd angen ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau trawiadol sydd wedi digwydd. Ymhellach, bydd angen newid y terfynau aneddiadau a nodwyd i adlewyrchu unrhyw fân newidiadau ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu. Bydd angen ystyried hefyd a fyddai modd cymhwyso agwedd ddiwygiedig, fwy hyblyg wrth nodi terfynau aneddiadau yn ardaloedd y cymoedd er mwyn annog mwy o ddatblygiadau ar raddfa lai a hwyluso adfywio ymhellach.

**8.1.3.4** Mae thema newydd creu lleoedd sydd wedi'i gwreiddio yn PCC yn rhoi mwy fyth o bwyslais ar greu lleoedd cynaliadwy, iach, tra bod y FfDC drafft yn nodi Bae Abertawe, gan gynnwys trefi Castell-nedd a Phort Talbot) fel ardal twf genedlaethol. Bydd angen i'r agweddau hyn gael eu hadlewyrchu yn y polisïau a adolygwyd.

**8.1.3.5** Yng Ngweithgor y Swyddogion, codwyd materion hefyd ynghylch geiriad manwl y meini prawf a nodwyd ym Mholisi SC1 (Terfynau Aneddiadau), sy'n diffinio'r amgylchiadau pryd byddai'n dderbyniol datblygu y tu allan i derfynau aneddiadau. Bydd angen adolygu'r polisi a gwneud newidiadau i ymdrin â'r materion hyn. Yng nghyswllt Polisi SC2 (Diogelu Cyfleusterau Cymunedol Presennol), nododd y swyddogion fod peth dryswch ynghylch y diffiniad o beth yw *cyfleuster cymunedol.* Nodwyd hefyd nad oes polisi ar hyn o bryd sy'n ymwneud yn benodol â datblygu cyfleusterau cymunedol *newydd.* Eto, bydd angen ystyried y materion hyn fel rhan o'r adolygiad.

### 8.1.4 Polisi Strategol 4 - Seilwaith

**8.1.4.1** Mae Polisi SP4 Seilwaith, Polisi I1 (Gofynion Seilwaith) a'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Rhwymedigaethau Cynllunio yn ceisio sicrhau bod cynigion datblygu newydd yn gwneud defnydd effeithlon o'r seilwaith bresennol ac yn darparu'r rhwymedigaethau cynllunio angenrheidiol (fel y nodwyd yn Adran 106 (A106) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) i liniaru effeithiau'r datblygiad. Ar adeg mabwysiadu'r CDLl, ni symudwyd ymlaen gydag Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL), gan fod cyllid wedi dod i law trwy fecanweithiau eraill i gyflawni Strategaeth y CDLl.

**8.1.4.2** Bydd y sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio lluniad y polisïau hyn yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses. Sefydlodd y Cynllun Cyflwyno Seilwaith (IDP) (2014) raddfa'r seilwaith sy'n bodoli ar hyn o bryd, ond nododd hefyd lefel y seilwaith fydd yn cael ei darparu ac yn ofynnol mewn blynyddoedd i ddod, y sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu'r seilwaith, y dull (ariannol ac fel arall) o ddarparu'r seilwaith hon, a phryd y rhagwelir y bydd y ddarpariaeth ar gael.

**8.1.4.3** Fel rhan o'r adolygiad, cynhelir asesiad o'r ddarpariaeth seilwaith a'r anghenion er mwyn nodi capasiti ac argaeledd seilwaith bresennol a'r hyn a gynlluniwyd. Bydd angen cydweithio'n agos â darparwyr cyfleustodau i roi sylw i'w cynlluniau diweddaraf ar gyfer gwelliant ac argaeledd cyllid fel bod seilwaith a datblygiad yn cyfateb i'w gilydd. Bydd angen i'r strategaeth adlewyrchu argaeledd y seilwaith bresennol ac arfaethedig.

**8.1.4.4** Mae'r seilwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â nifer o egwyddorion creu lleoedd a nodwyd yn y PCC diwygiedig. Mae PCC a'r FfDC drafft bellach yn rhoi mwy o ffocws ar fathau newydd o seilwaith, megis seilwaith gwefru cerbydau trydan, seilwaith ddigidol, telathrebu symudol a seilwaith werdd, y bydd angen i bob un ohonynt gael eu hystyried yn ystod yr adolygiad.



**8.1.4.5** Yn ystod yr adolygiad o'r polisïau seilwaith, mynegodd Gweithgor y Swyddogion beth pryder bod diffyg eglurder yn y polisi, yn ei ffurf bresennol, ac y gallai hynny gael effaith ar ei weithrediad. Gall y defnydd o'r term 'seilwaith' gwmpasu ystod o ystyriaethau cynllunio, a gellir ei ddehongli'n gyffredinol fel seilwaith ffisegol, megis ffyrdd a

chyfleustodau, yn hytrach na rhwymedigaethau cynllunio. Yn ystod yr adolygiad, bydd angen newid y polisi er mwyn sicrhau bod eglurder digonol yn y derminoleg a ddefnyddir i ganiatáu dehongli'r polisi'n effeithiol.

**8.1.4.6** Mae dangosyddion yr AMB wedi dangos bod nifer sylweddol o geisiadau heb fodloni eu gofynion o ran seilwaith (yn bennaf yng nghyswllt tai fforddiadwy a darpariaeth mannau agored). Oherwydd materion dichonoldeb, mae swm y cyfraniadau A106 sy'n cael eu sicrhau wedi bod yn sylweddol is na'r trothwyon a bennwyd yn y CDLl.

**8.1.4.7** Wrth i ddichonoldeb ddod yn fater o bwys yng nghyswllt penderfynu ar geisiadau cynllunio, bydd angen i'r adolygiad ystyried y dull mwyaf priodol ac effeithiol o sicrhau rhwymedigaethau cynllunio a sicrhau bod seilwaith ddigonol yn ei lle i gyflawni'r strategaeth. Mae PCC yn datgan bod rhaid dangos dichonoldeb ariannol safleoedd datblygu cyn eu cynnwys yn y Cynllun, er mwyn sicrhau bod modd cyflawni safleoedd a'u bod yn gallu cydymffurfio â pholisïau eraill i ddarparu seilwaith a gofynion y cynllun.

**8.1.4.8** Mae angen profion dichonoldeb lefel uchel wedi'u diweddaru er mwyn ystyried a ddylid addasu'r targedau yn y Cynllun, ac a ddylid ystyried CIL. Mae Model Dichonoldeb Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i greu dull methodolegol cyson wrth bennu targedau tai fforddiadwy a chynnal asesiadau dichonoldeb safle-benodol.

**8.1.4.9** Edrychir hefyd ar ffyrdd amgen o sicrhau rhwymedigaethau cynllunio a seilwaith hanfodol, megis targedau safle-benodol a llunio prif gynllun ar gyfer safleoedd strategol.

## 8.2 Polisïau Ardal

### 8.2.1 Polisi Strategol 5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

**8.2.1.1** Mae Polisi SP5, Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, yn nodi sut bydd y strategaeth ofodol i hwyluso twf yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cael ei chymhwyso yng nghoridor yr arfordir. Bydd yn cael ei weithredu trwy nifer o fesurau a pholisïau ardal-benodol, gan gynnwys nifer o ddyraniadau tai, dyraniadau cyflogaeth, cynlluniau adfywio defnydd cymysg, campws prifysgol a nifer o gynlluniau priffyrdd.

**8.2.1.2** Mae'r ddwy Ardal Adfywio Strategol (AAS) yn darparu cyfleoedd i ailddatblygu ac adfywio ardaloedd sylweddol o dir llwyd ar raddfa fawr, a datblygir y rhain dros gyfnod y CDLl a'r tu hwnt iddo. Bydd yr AAS yn gwneud cyfraniad sylweddol i gyflawni strategaeth y CDLl, byddant yn hybu twf economaidd, yn cyflawni amcanion y cynllun, ac maent yn hanfodol i gyflawni prif gynigion adfywio'r Awdurdod. Maent wedi'u lleoli'n strategol yn ardaloedd trefol Castell-nedd a Phort Talbot ac fe'u cynigiwyd ar gyfer datblygiad defnydd cymysg er mwyn hybu adfywio sylweddol a fydd yn dod â manteision ehangach i Gastell-nedd Port Talbot.

**8.2.1.3** Mae Adran 7.3 o'r adroddiad yn adolygu'r strategaeth ofodol ac yn nodi'r newidiadau cyd-destunol sy'n berthnasol i goridor yr arfordir, canfyddiadau'r tri AMB blaenorol a nifer y dyraniadau tai a gwblhawyd yn erbyn y targedau.

### 8.2.2 Polisi Strategol 6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

**8.2.2.1** Mae Polisi SP6, Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd, yn nodi'r prif fesurau a roddir ar waith i gyflawni'r strategaeth ofodol, sef adfywio ardaloedd y Cymoedd. Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar wella gwydnwch economaidd, gan annog twristiaeth, cyflogaeth ar raddfa fach a datblygiadau economaidd eraill, arallgyfeirio o ddiwydiannau traddodiadol, a nodi ardaloedd twf lle caiff datblygiad ei grynhoi, gyda'r nod o ledaenu'r effeithiau adfywio ar draws ardal ehangach.

**8.2.2.2** Mae Adran 7.3 o'r adroddiad yn adolygu'r strategaeth ofodol ac yn nodi'r newidiadau cyd-destunol sy'n berthnasol i goridor yr arfordir, canfyddiadau'r tri AMB blaenorol a nifer y dyraniadau tai a gwblhawyd yn erbyn y targedau.

## 8.3 Cymunedau a Thai

### 8.3.1 Polisi Strategol SP7 - Gofynion Tai

**8.3.1.1** Mae'r Strategaeth y CDLI yn sicrhau aliniad rhwng twf cyflogaeth a thai, ac mae Polisi SP7 yn darparu ar gyfer cyflawni 7,800 o anheddau newydd i ymateb i'r cynnydd a ragweir yn y boblogaeth oedran gwaith. Mae cyflwyno'r lefel ofynnol o dai, felly, yn rhan annatod o strategaeth twf y CDLI.

**8.3.1.2** Mae'r PCC diwygiedig yn cyflwyno'r cysyniad o greu lleoedd, sy'n elfen allweddol o ddatblygu lleoedd cynaliadwy a fydd yn hybu ffyrdd iachach o fyw ac yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai awdurdodau ddeall eu marchnad tai leol a nodi gofynion o ran tai sy'n ymarferol, y gellir eu cyflawni, ac sy'n ystyried pob aelod o'r gymuned. Dylai cynlluniau'r dyfodol, felly, ddarparu ar gyfer anghenion tai pawb, a dyrannu tir digonol yn y mannau mwyaf priodol i greu cymunedau cynhwysol sy'n ddeniadol, yn hygyrch, yn actif ac yn iach, gan greu ffyniant i bawb. Mae'r ffocws, felly, nid yn unig ar ddiwallu'r galw am dai, ond hefyd ar sicrhau bod creu lleoedd yn ganolog i ddatblygiadau newydd. Mae'r FfDC sy'n dod i'r amlwg yn gosod Castell-nedd Port Talbot yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, ac yn amcangyfrif bod angen 23,400 o gartrefi ar draws yr ardal erbyn 2038.

**8.3.1.3** Mae dau ddangosydd monitro sy'n mesur a yw'r CDLI yn diwallu'r angen am dai a nodwyd yn y Cynllun, sef nifer y tai a gwblhawyd ac argaeledd tir ar gyfer tai. Mae nifer y tai sy'n cael eu darparu wedi gostwng yn sylweddol is na'r targedau a bennwyd yn y fframwaith monitro, gyda chyfradd gyflawni gyfartalog o 230 o gartrefi'r flwyddyn ar safleoedd mawr rhwng 2011/12 a 2018/19, o gymharu â gofyniad o 448 o gartrefi'r flwyddyn, fel y nodir isod.

**Tabl 8.3.1.1 Lefelau Cwblhau Tai Gwirioneddol a Thargedau ar Safleoedd Mawr rhwng 2011/12 a 2018/19**

| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Totals |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwirioneddol | 231 | 243 | 262 | 344 | 231 | 166 | 113 | 245 | 1,835 |
| Targed | 262 | 287 | 301 | 386 | 486 | 549 | 625 | 686 | 3,582 |

**8.3.1.4** Gan fod lefel y datblygiadau tai a gyflawnwyd wedi gostwng yn sylweddol is na'r targed ac na chyrhaeddwyd y ffigur blynyddol gofynnol ar gyfer tai mewn unrhyw flwyddyn benodol ers mabwysiadu'r Cynllun, er mwyn diwallu'r angen tai a nodwyd yn y CDLI, yn ystod blynyddoedd olaf y Cynllun byddai angen adeiladu unedau tai ar gyfradd na chyflawnwyd erioed yng Nghastell-nedd Port Talbot. O ganlyniad, nid yw'r lefel bresennol o dwf yn gyflawnadwy bellach, a bydd angen ailystyried hyn yn ystod yr adolygiad. Manylir ymhellach ar hyn yn Adran 7.2: Strategaeth ar gyfer Twf.

**8.3.1.5** O ran argaeledd tir, llwyddodd y Cyngor i ddangos bod ganddo gyflenwad tir o 5 mlynedd yn ystod y tair blynedd cyntaf wedi mabwysiadu'r CDLI. Fodd bynnag, mae'r Astudiaeth JHLAS diweddaraf yn 2019 wedi dangos bod y cyflenwad tir wedi lleihau i 4.5 mlynedd.

**8.3.1.6** Pan adolygwyd y polisïau gyda Gweithgor y Swyddogion, cafwyd bod dichonoldeb wedi dod yn bryder cynyddol yn yr ardal, gyda nifer o geisiadau'n methu bodloni lefel y rhwymedigaethau cynllunio sy'n ofynnol o dan bolisïau presennol y CDLI. Canfu'r grŵp hefyd mai diddordeb cyfyngedig fu mewn datblygiad ar draws Castell-nedd Port Talbot, gyda nifer o ddyraniadau yn y portffolio H1 naill ai'n gwneud dim cynnydd at gyflawni, neu lle nad yw safleoedd wedi symud y tu hwnt i'r cyfnod cyn-ymgeisio.

**8.3.1.7** O ganlyniad, bydd angen i'r adolygiad adolygu'r holl ddyraniadau ym Mholisi H1, yng nghyd-destun unrhyw lefel ddiwygiedig o dwf, a phenderfynu pa ddyraniadau mae modd eu cyflawni, a pha safleoedd ddylai gael eu dad-ddyrannu. Bydd gofyn bod pob safle, p'un a ydynt yn ddyraniadau H1 presennol neu'n safleoedd ymgeisiol newydd, yn dangos eu bod yn ddichonadwy, bod modd eu cyflawni oddi mewn i amserlen y CDLI, a'u bod yn gallu cyflawni rhwymedigaethau cynllunio i liniaru effeithiau'r datblygiad, er mwyn sicrhau bod datblygiadau yn hybu lleoedd cynaliadwy ac yn bodloni egwyddorion creu lleoedd. Awgrymodd Gweithgor y Swyddogion yn arbennig y dylai'r adolygiad ystyried adeiladu tai ar raddfa lai yn ardal y cymoedd.

**8.3.1.8** Bydd angen i'r adolygiad ystyried yr Asesiad Marchnad Tai Leol diwygiedig er mwyn sicrhau bod anghenion holl aelodau'r gymuned yn cael eu hasesu. Hefyd bydd y posibiliadau o ran diwygio terfynau aneddiadau ac ystyried dyraniadau llai yn ardal strategaeth y cymoedd yn cael eu hasesu, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer datblygiadau tai graddfa amrywiol.

### 8.3.2 Polisi Strategol 8 - Tai Fforddiadwy

**8.3.2.1** Nod y CDLI yw darparu cyfuniad a chyflenwad priodol o dai, ac mae Polisi SP8 yn nodi'r dull a ddefnyddir i ddarparu tai fforddiadwy. Mae'r fframwaith polisi yn cyflwyno targedau a throthwyon ar gyfer gofyn bod datblygiadau preswyl preifat yn cyfrannu at dai fforddiadwy, ac mae'n caniatáu datblygiadau tai fforddiadwy ar raddfa fach y tu allan i derfynau diffiniedig aneddiadau. Llywiwyd y fframwaith polisi cysylltiedig â thai fforddiadwy gan Astudiaeth Dichonoldeb Tai Fforddiadwy (2012) a'r Asesiad o'r Farchnad Tai Leol (2013), a bydd angen diweddaru'r ddwy ddogfen honno fel rhan o'r adolygiad.

**8.3.2.2** Bydd tai fforddiadwy yn parhau'n ystyriaeth bwysig yn ystod yr adolygiad, gyda Pholisi Cynllunio Cymru yn gofyn bod awdurdodau yn creu lleoedd cynaliadwy ac yn sicrhau cyfuniad digonol o fathau o dai i ddiwallu'r angen a nodwyd am dai. Rhaid i'r

cynlluniau ddeall pob agwedd ar y farchnad dai a gwerthfawrogi'r galw am wahanol fathau o dai fforddiadwy. Mae'r FfDC sy'n dod i'r amlwg yn nodi darparu tai digonol i ddiwallu'r angen a nodwyd fel un o'r prif flaenoriaethau, ac mae'n amcangyfrif y dylai 47% o'r cartrefi newydd fod yn fforddiadwy. Nod y FfDC yw cynyddu nifer y tai fforddiadwy sy'n cael eu darparu trwy sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, a bod gan gynlluniau datblygu fframweithiau polisi digonol i ddarparu tai fforddiadwy.

**8.3.2.3** Mae'r AMB yn monitro nifer y cartrefi fforddiadwy a gyflwynwyd trwy'r system gynllunio, y newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol, a'r ceisiadau am safleoedd a eithriwyd o ran tai fforddiadwy. Mae nifer y tai fforddiadwy newydd sy'n cael eu darparu trwy'r system gynllunio wedi gostwng yn sylweddol is na'r targedau a bennwyd yn y fframwaith monitro. Erbyn 31 Mawrth 2019, dim ond 50 o gartrefi newydd fforddiadwy oedd wedi cael eu darparu trwy'r system gynllunio, yn erbyn targed o 478, sy'n cynrychioli 10.5% yn unig o'r targed. Er bod unrhyw nifer o dai newydd, fforddiadwy, yn gadarnhaol, bydd y diffyg yn y nifer a gyflwynir yn creu ôl-groniad angen ac yn rhoi mwy o bwysau ar adnoddau yn y dyfodol i ddarparu cartrefi fforddiadwy.

**8.3.2.4** Mae nifer o resymau pam mae'r lefel a ddarparwyd wedi gostwng gymaint yn is na'r targed, a'r prif resymau yw'r diffyg yn natblygiad tai'r farchnad gyffredinol a dichonoldeb. Mae nifer fawr o safleoedd tai yn y portffolio H1 heb wneud y cynnydd a ragwelwyd, ac felly nid ydynt wedi darparu'r lefel o dai fforddiadwy trwy gytundebau A106. Ar safleoedd sydd wedi mynd rhagddynt, bu angen aildrafod lefel y tai fforddiadwy sy'n cael eu darparu ar safleoedd am resymau dichonoldeb.

**8.3.2.5** Mae dichonoldeb wedi dod yn bryder cynyddol yng Nghastell-nedd Port Talbot, gyda'r AMB yn dod i'r casgliad bod y newidiadau o ran gwerth gweddilliol ers mabwysiadu'r Cynllun yn cael effaith negyddol. Iun mabwysiadu a negyddol effaith. Ar draws ardaloedd y chwe is-farchnad, mae'r gwerth gweddilliol wedi gostwng yn sylweddol. Oddi mewn i AMB 2019, y newidiadau o ran gwerth gweddilliol ar draws yr ardaloedd gofodol lle ceisir tai fforddiadwy oedd -21.46% yng Nghastell-nedd, -28.1% ym Mhort Talbot a -23.1% ym Mhontardawe. Mae'r newidiadau hyn yn sylweddol fwy na'r pwynt sbarduno o 5% yn y fframwaith monitro. Un rheswm am y newid yw'r cynnydd mawr yn y costau adeiladu ers i'r Astudiaeth Dichonoldeb Tai Fforddiadwy gael ei chyflawni, ac ni chafwyd cynnydd cyfatebol i hynny ym mhrisiau tai, fel bod effaith niweidiol ar ddichonoldeb.

**8.3.2.6** Cadarnhaodd Gweithgor y Swyddogion ganfyddiadau'r AMB, ac amlygu dichonoldeb fel problem wrth ddatblygu safleoedd yn yr ardal, gan fod mwyafrif y ceisiadau cynllunio yn gorfod aildrafod y rhwymedigaethau cynllunio gofynnol oherwydd dichonoldeb, ac mai anaml y byddai rhai mathau o ddatblygiadau, megis cynlluniau trawsnewid ar raddfa fach, yn gallu darparu cyfraniadau ariannol.

**8.3.2.7** Fel rhan o'r adolygiad, bydd gofyn cynnal profion dichonoldeb wedi'u diweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn costau datblygu a'r farchnad ers i'r gwaith dichonoldeb gwreiddiol gael ei wneud i bennu targed addas a throthwy ar gyfer y Cynllun Amnewid ac i sicrhau bod y targedau'n realistig ac yn gyflawnadwy. Bellach mae PCC yn gofyn bod safleoedd yn arddangos eu dichonoldeb ariannol cyn eu cynnwys yn y Cynllun, a dylai hynny helpu i sicrhau bod y safleoedd a ddyrannir yn gallu cael eu cyflawni oddi mewn i gyfnod y Cynllun, ac yn gallu darparu'r rhwymedigaethau cynllunio angenrheidiol i sicrhau

bod datblygiadau'n creu lleoedd cynaliadwy. Hefyd mae angen Asesiad wedi'i ddiweddaru o'r Farchnad Tai Leol i ganfod yr angen am dai yn yr ardal ac asesu'r gofynion ar gyfer grwpiau neilltuol, er mwyn sicrhau bod tai ar gyfer holl aelodau'r gymuned yn cael eu hystyried.

**8.3.2.8** Ni fu ceisiadau am safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r trothwy cyfredol wedi'i gyfyngu i 9 o unedau, ac yn ystod yr adolygiad bydd y trothwy presennol yn cael ei adolygu mewn trafodaeth gyda Gweithgor y Swyddogion a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n weithredol yn yr ardal. Amlygodd y grŵp hefyd y cynnydd yn nifer y ceisiadau am Dai Amlddeiliadaeth (HMO), y bydd angen hefyd iddynt gael eu hystyried yn ystod yr adolygiad.

### 8.3.3 Polisi Strategol SP9 - Sipsiwn a Theithwyr

**8.3.3.1** Mae gan Gastell-nedd Port Talbot gymuned sefydledig o Sipsiwn a Theithwyr. Mae Polisi SP9 yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer sicrhau bod darpariaeth ddigonol o leiniau ar gyfer anghenion y gymuned dros gyfnod y Cynllun, trwy ddyrannu safle a darparu polisi meini prawf er mwyn asesu ceisiadau am safleoedd newydd.

**8.3.3.2** Llywiwyd y polisi gan ganfyddiadau Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2012 (GTAA), a nododd fod angen 20 llain: 4 llain erbyn 2017; 7 llain erbyn 2022; a 9 llain erbyn 2026. Er mwyn darparu ar gyfer yr angen tymor byr i ganolig (11 llain erbyn 2022), dyrannwyd estyniad i'r safle presennol yng Nghae Garw, Margam, a byddai'r angen tymor hwy (9 llain rhwng 2023 a 2026) yn cael ei ddiwallu trwy'r fframwaith monitro a seiliwyd ar GTAAs wedi'u diweddaru.

**8.3.3.3** O dan ofynion Deddf Tai (Cymru) (2014), cwblhawyd GTAA newydd a'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn 2016. Daeth yr asesiad diweddaraf hwn i'r casgliad bod yr 11 llain y darparwyd ar eu cyfer yng Nghae Garw yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned, a bod gofyn darparu 4 llain ychwanegol erbyn diwedd cyfnod y Cynllun (2026); roedd hyn yn is na'r angen a nodwyd yn astudiaeth 2012.

**8.3.3.4** Mae gofyn cynnal GTAA bob 5 mlynedd o leiaf, ac mae'r asesiad nesaf i gael ei gynnal erbyn 2021. Bydd yr astudiaeth hon yn nodi anghenion y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr dros gyfnod y Cynllun Amnewid, ac fe'i defnyddir i lunio polisi newydd os nodir bod angen. Cwblhawyd y gwaith o estyn 11 llain yng Nghae Garw yn 2016 ac felly bydd angen addasu Polisi GT1 yn ystod yr adolygiad i adlewyrchu'r asesiad newydd.

**8.3.3.5** Canfu Gweithgor y Swyddogion fod y dull polisi cyffredinol yn gweithio'n effeithiol. Ers mabwysiadu'r CDLl, cyhoeddwyd Cylchlythyr Cynllunio 005/2018 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn', gan roi arweiniad ar y ddyletswydd i ddarparu safleoedd, cynnwys y gymuned yn y broses a'r polisïau i'w cynnwys mewn cynlluniau datblygu. Gall fod angen rhai mân newidiadau i Bolisi GT2 er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r Cylchlythyr newydd.

### 8.3.4 Polisi Strategol SP10 - Mannau Agored

**8.3.4.1** Mae'r Polisi Strategol (SP10), Polisi OS1 (Darpariaeth Mannau Agored), OS2 (Diogelu Mannau Agored sydd eisoes yn bodoli) a'r CCA Mannau Agored a Mannau Glas, yn ceisio sicrhau bod cynigion datblygu newydd yn darparu ar gyfer anghenion mannau agored y meddianwyr a'r gweithwyr yn y dyfodol, trwy gynnig darpariaeth ar y safle neu oddi arno, neu wneud cyfraniadau A106 fel bod modd cynnig darpariaeth neu welliant yn lleol. Ar ben hynny, mae mannau agored sydd eisoes yn bodoli yn cael eu hamddiffyn rhag datblygiad oni bai bod modd bodloni meini prawf penodol.

**8.3.4.2** Roedd y Papur Pwnc Mannau Agored a'r Asesiad Mannau Agored (2013) yn darparu'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer y polisïau yn y CDLI. Nododd yr asesiad ddiffygion yn nifer ac ansawdd y ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â Safon Chwe Erw Fields in Trust (FIT) a fabwysiadwyd yn y CDLI. Bellach mae'r Safon FIT wedi cael ei diwygio ers mabwysiadu'r CDLI: Mae Guidance for Outdoor Sport and Play: Beyond the Six Acre Standard (2017) yn argymell canllawiau meincnod ar gyfer mannau ffurfiol ac anffurfiol yn yr awyr agored. Bydd angen i'r Adolygiad ystyried yn llawn a ddylid rhoi'r gofynion hyn ar waith yng ngoleuni TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009) sy'n hybu safonau seiliedig ar dystiolaeth a gynhyrchir yn lleol.

**8.3.4.3** Mae Mannau Agored yn ymwneud yn uniongyrchol â nifer o'r egwyddorion creu lleoedd a nodir yn PCC, ac yng nghyswllt y gofynion o ran Seilwaith Werdd yn ogystal â bod wedi'u gwreiddio yn yr egwyddorion llesiant: 'Cymru Iachach' a 'Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at iechyd ac ymddygiad corff a meddwl neu annog cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden. Bydd angen ystyried yr egwyddorion hyn fel rhan o'r adolygiad, yn arbennig y defnydd amlswyddogaethol o fannau agored ar draws y cenedlaethau.

**8.3.4.4** Nododd Gweithgor y Swyddogion y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r trothwy yn y polisi, yn arbennig yng ngoleuni materion dichonoldeb ar rai safleoedd, ac a allai hynny effeithio ar gyflawni safleoedd. Gallai fod yn briodol hefyd addasu geiriad rhai o'r polisïau i wella eglurder.

**8.3.4.5** Mae'r AMB yn monitro'r ddarpariaeth a'r mannau agored a gollwyd. O ran darparu mannau agored, mae'r dangosydd yn amlygu bod y polisi'n gweithio i raddau helaeth i sicrhau mannau agored, er bod ystyriaethau dichonoldeb yn aml yn effeithio ar hynny. Mae'r AMB diweddaraf yn nodi y dylid adolygu'r polisi. Yng nghyswllt diogelu mannau agored, cymhwysir hyn yn gyson fel arfer, ond gallai fod lle i'w gryfhau.

**8.3.4.6** Fel y dangosir o dan Bolisi PS4 (Seilwaith), mae dichonoldeb wedi dod yn fater pwysig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd angen i'r adolygiad ystyried y dull mwyaf priodol ac effeithiol o sicrhau rhwymedigaethau cynllunio a gofalu bod seilwaith ddigonol yn ei lle i gyflawni'r strategaeth. Mae PCC bellach yn datgan bod rhaid dangos dichonoldeb ariannol safleoedd datblygu cyn eu cynnwys yn y Cynllun, er mwyn sicrhau bod modd cyflawni safleoedd a'u bod yn gallu cydymffurfio â pholisïau eraill i ddarparu seilwaith a gofynion y cynllun. Er y gall hyn fod o gymorth ar safleoedd a ddyrannwyd, mae'n bosibl bod dichonoldeb yn dal yn broblem ar safleoedd llai neu safleoedd annisgwyl. Mae cysylltiadau rhwng adolygu Polisi SP4 ac SP10, felly bydd angen ystyried yn ofalus sut gallai unrhyw newidiadau effeithio ar y polisïau.

**8.3.4.7** Dros gyfnod yr adolygiad, bydd angen ystyried hefyd a oes angen dyrannu tir ar gyfer mannau agored, ac a ddylid lleoli'r polisi mannau agored mewn rhan wahanol o'r Cynllun, o dan thema creu lleoedd.

## 8.4 Yr Economi

### 8.4.1 Polisi Strategol 11 - Twf Cyflogaeth

**8.4.1.1** Nod Polisi SP11 Twf Cyflogaeth yw hybu economi gynaliadwy trwy nifer o fesurau, gan gynnwys dyrannu safleoedd ar gyfer datblygiad economaidd, diogelu safleoedd cyflogaeth presennol a darparu agwedd fwy hyblyg at ddatblygu yn ardaloedd y cymoedd.

**8.4.1.2** Llywiwyd y fframwaith polisi gan yr Astudiaeth o Ddarpariaeth Tir Cyflogaeth ac Asesiad Economaidd (2012), a ddefnyddiodd dueddiadau macro-economaidd i ragfynegi'r gofynion o ran tir cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun. Yna addaswyd swm yr arwynebedd llawr a argymhellwyd i ddarparu ar gyfer cymarebau plot amgen, i roi cyfrif am golledion stoc, ac i sicrhau bod digon o hyblygrwydd. Seiliwyd y dyraniadau cyflogaeth a'r ardaloedd i'w diogelu ar gasgliadau'r Adolygiad Tir Cyflogaeth (2014).

**8.4.1.3** Un o elfennau allweddol PCC a ddiweddarwyd yw *'Mannau Cynhyrchiol a Mentrus',* lle mae'r economi'n elfen bwysig o greu lleoedd a chreu mannau cynaliadwy. Bydd yr economi'n parhau'n un o elfennau sylfaenol y Cynllun, gan gynnwys dyrannu tir digonol i ymateb i alw'r farchnad a sicrhau bod seilwaith economaidd priodol ar gael (h.y. ffisegol, electronig neu ddigidol).

**8.4.1.4** Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn nodi'r ardaloedd yng Nghastell-nedd a Phort Talbot oddi mewn i NGA Bae Abertawe a Llanelli ar gyfer Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, a fydd yn dylanwadu ar i ble mae darpariaeth gyflogaeth yn cael ei chyfeirio yn strategaeth ofodol y Cynllun Amnewid.

**8.4.1.5** Mae'r AMB wedi nodi nifer o faterion sy'n ymwneud â chyflawni datblygiadau cyflogaeth yn yr ardal. O'r pedwar safle a ddyrannwyd ar gyfer datblygiad economaidd ym Mholisi EC1 (Dyraniadau Cyflogaeth), ni fu datblygiad at ddibenion cyflogaeth yn C38 (M4) na Choed Darcy. Er y gwelwyd peth datblygiad ym Mae Baglan a Glannau'r Harbwr, mae hynny wedi bod yn gyfyngedig, ac wedi syrthio'n sylweddol y tu ôl i'r cyfraddau cyflawni a ragwelwyd yn y fframwaith monitro. Dyrannodd Polisi EC1 96ha o dir cyflogaeth, yr oedd 32ha ohono at ddefnyddiau traddodiadol Dosbarth B, tra bod y gweddill (64ha) i ddiwallu anghenion y sector ynni cynyddol. Hyd yma, bu cyfanswm o 5.1ha o ddatblygiad ar draws y dyraniadau, ac o hynny roedd 1.8ha at ddibenion dosbarth B a 3.3ha ar gyfer cynllun solar Ffotofoltaidd.

**8.4.1.6** Mae nifer o'r dangosyddion monitro yn mesur perfformiad yr economi yn ei gyfanrwydd, o ran nifer y swyddi, gweithgaredd economaidd a diweithdra. Mae'r rhain yn elfennau allweddol o strategaeth y Cynllun, a chânt eu harchwilio'n fanylach yn adran 7.2: Strategaeth ar gyfer Twf. Canfu'r AMB hefyd na fu ceisiadau am unedau bywyd/gwaith ers mabwysiadu'r Cynllun, ac felly bydd angen i'r adolygiad ystyried a oes angen y polisi o hyd, neu a oes angen addasiadau a fyddai'n annog defnydd ohono.

**8.4.1.7** Awgrymodd Gweithgor y Swyddogion y gellid newid rhai elfennau o'r fframwaith polisi i ddarparu mwy o eglurder ac annog mwy o ddatblygu. Mae polisïau presennol EC3 (Defnyddiau Ardal Gyflogaeth) ac EC4 (Diogelu defnyddiau cyflogaeth presennol) ar hyn o bryd yn diffinio defnyddiau priodol mewn ardaloedd cyflogaeth (EC3) ac yn amddiffyn defnyddiau cyflogaeeth rhag datblygiad a fyddai'n arwain at golli tir cyflogaeth neu adeiladau (EC4). Awgrymodd y grŵp y gellid cyfuno'r polisïau yn un polisi a allai gwmpasu'r ddwy elfen. Mae Polisi EC5 (Defnyddiau Cyflogaeth yn y Cymoedd) yn caniatáu agwedd fwy hyblyg at ddatblygu yn y cymoedd. Awgrymwyd, er bod datblygiad yn cael ei ganiatáu y tu allan i derfynau aneddiadau, y dylid ystyried a oedd modd llacio hyn ymhellach i hybu datblygiadau cyflogaeth y y cymoedd, cyhyd â'i fod wedi'i gydbwyso ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

**8.4.1.8** Bydd angen i'r adolygiad ystyried canfyddiadau'r sylfaen o dystiolaeth a ddiweddarwyd, sef yr Astudiaeth Asesu Economaidd a'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth, er mwyn canfod yr angen am arwynebedd llawr cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun, ar sail sectorau twf a ragwelir, a nodi'r lleoliadau mwyaf addas ar gyfer datblygu. Bydd angen ailasesu dyraniadau presennol i bennu a ydynt yn ddichonadwy ac yn gallu cyflawni strategaeth ddiwygiedig y Cynllun. Yn ystod yr adolygiad bydd angen i bob un o'r canlynol gael eu hystyried: newidiadau cyd-destunol, megis nodi Parth Menter Port Talbot, a nifer o'r polisïau FfDC sy'n dod i'r amlwg, megis Metro Bae Abertawe, parthau gweithredu symudol, a nodi'r ardal twf.

### 8.4.2 Polisi Strategol 12 - Manwerthu

**8.4.2.1** Mae'r Polisi Manwerthu Strategol (SP12) a'r Polisïau R1 (Dyraniadau Manwerthu), R2 (Cynigion mewn Canolfannau Manwerthu) ac R3 (Cynigion Manwerthu y tu allan i'r Canol), yn ceisio diogelu, gwella a chefnogi'r canolfannau manwerthu trwy'r broses gynllunio.

**8.4.2.2** Mae'r sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisïau hyn yn cynnwys y Papur Pwnc Manwerthu, y Papur Hierarchaeth Manwerthu a'r Astudiaeth Fanwerthu. Yn y blynyddoedd ers i'r dogfennau hyn gael eu paratoi (2013/14), mae'r hinsawdd fanwerthu genedlaethol wedi newid yn sylweddol yn sgîl poblogrwydd cynyddol siopa ar y rhyngrwd a chau nifer sylweddol o fusnesau manwerthu pwysig, a bydd angen diweddaru'r dogfennau a'r astudiaethau hyn. Cynhelir arolwg manwerthu blynyddol hefyd, a fydd yn helpu i lywio datblygiad polisi.

**8.4.2.3** Mae'r FfDC drafft yn cynnwys polisïau a fwriadwyd i gefnogi canolfannau trefol a sicrhau bod datblygiadau sylweddol yn cael eu lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd, tra bod PCC yn hybu canolfannau manwerthu a masnachol fel y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, yn ogystal â gwasanaethau manwerthu. Mae'r pwyslais ar greu lleoedd yn PCC hefyd yn arwyddocaol yng nghyswllt rheoli newid ac wrth ddatblygu canolfannau manwerthu a masnachol.



**8.4.2.4** Yng nghyfarfod Gweithgor y Swyddogion a gynhaliwyd i drafod y pwnc hwn, nodwyd, er bod yr hierarchaeth fanwerthu yn effeithiol, cydnabyddiaeth y bydd angen adolygu a newid y ffiniau ar sail y dystiolaeth, gan gynnwys newidiadau o astudiaethau manwerthu. Awgrymwyd y gallai fod angen dyraniadau nwyddau swmpus ar safleoedd yn ymyl y canol, er y byddai angen cyfiawnhau hynny trwy astudiaeth fanwerthu newydd.

Yng nghyswllt Polisi R2, meini prawf (3) a (4), nid yw'r rhain bob amser wedi cael eu cymhwyso'n llwyddiannus, a bydd angen adolygu'r rhain a chwmpas y dynodiadau stryd sylfaenol. Dylid ystyried y polisi ar gyfer delio gyda busnesau 'unnos' a chiosgau manwerthu yn ogystal.

**8.4.2.5** Nid yw'r AMB wedi nodi unrhw faterion penodol o ran gweithredu polisi manwerthu, ond dylid ystyred yr angen cyffredinol am bolisïau a'u heffeithiolrwydd, yn arbennig mewn perthynas â'r angen am gyfyngiadau polisi Canolfan Fanwerthu R2 a'u defnyddioldeb. Ar ben hynny, er bod consesiwn polisi siopau bach R2 wedi cael effaith fechan ond cadarnhaol, dylid adolygu trothwyon y polisi.

**8.4.2.6** Materion eraill y dylid eu hystyried fel rhan o'r adolygiad yw ailffocysu'r pwnc yn gyffredinol er mwyn ymwneud â datblygiad manwerthu *a masnachol,* a'r thema creu lleoedd, yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol diweddarach.

### 8.4.3 Polisi Strategol 13 - Twristiaeth

**8.4.3.1** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r diwydiant twristiaeth wedi bod yn tyfu yng Nghastell-nedd Port Talbot, gyda chryn fuddsoddiad mewn rhai ardaloedd. I gefnogi'r diwydiant sy'n tyfu, darparodd dull gweithredu'r polisi yn y CDLl hyblygrwydd i annog datblygu twristiaeth gynaliadwy. Mae Ardal Strategaeth y Cymoedd yn arbennig yn elwa o atyniadau ymwelwyr sydd eisoes yn bodoli, megis beicio mynydd yng Nghwm Afan a Gwlad y Sgydau ym Mro Nedd.

**8.4.3.2** Mae PCC yn cydnabod bod rôl twristiaeth yn hanfodol i ffyniant economaidd a chreu swyddi mewn rhannau o Gymru, ac mae'n gofyn bod cynlluniau'n darparu fframwaith i gynnal a datblygu cyfleusterau twristiaeth o ansawdd da, sydd mewn lleoliad da. Nododd y FfDC sy'n dod i'r amlwg dwristiaeth fel ardal twf posibl ar gyfer rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, ac mae'n cefnogi datblygiad o ansawdd uchel ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod pob cymuned yn gallu elwa o'u tirluniau, eu hamgylchedd naturiol a hanesyddol, eu hasedau treftadaeth ac atyniadau ymwelwyt i dyfu eu heconomïau.

**8.4.3.3** Nid yw'r AMBau wedi nodi unrhyw faterion yn ymwneud â dangosyddion twristiaeth ac nid ydynt wedi nodi bod angen cymryd unrhyw gamau. Mae nifer o gynigion cysylltiedig â thwristiaeth wedi cael eu cymeradwyo ers mabwysiadu'r Cynllun, ac mae'r holl lwybrau cerdded a beicio a nodwyd ym Mholisi TO4 wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r cynllun adfywio ar sail twristiaeth yn Rheola wedi cael cymeradwyaeth gynllunio, yn amodol ar lofnodi cytundeb A106. Gan nad yw'r A106 wedi'i lofnodi eto, a bod datblygiad heb fynd rhagddo, bydd statws y dyraniad a'r potensial ar gyfer cyflawni yn y dyfodol yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad.

**8.4.3.4** Canfu Gweithgor y Swyddogion fod y polisïau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn gweithredu'n effeithiol, a nodwyd meysydd lle gellid gwella eglurder. Mae Polisi TO2 yn diogelu cyfleusterau twristiaeth presennol, ac ni fydd yn caniatáu newidiadau i ddefnydd preswyl ond lle dangosir nad yw twristiaeth neu ddefnyddiau eraill sy'n creu cyflogaeth yn ddichonadwy bellach. Awgrymodd y grŵp y dylid ehangu'r polisi i ddarparu dull dilyniannol a fyddai'n caniatáu newid i ddefnyddiau eraill, nid dim ond rhai preswyl. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad.

## 8.5 Yr Amgylchedd ac Adnoddau

### 8.5.1 Polisi Strategol SP14 - Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu

**8.5.1.1** Mae'r Polisi Strategol (PS14) a'r Polisïau EN1 (Arfordir sydd heb ei Ddatblygu), EN2 (Ardaloedd Tirlun Arbennig), EN3 (Lletemau Glas), EN4 (Anheddau Amnewid yng Nghefn Gwlad) ac EN5 (Trawsnewid ac Estyn Anheddau sydd eisoes yn bodoli yng Nghefn Gwlad), ochr yn ochr â CCA y Tirlun a'r Morlun, yn ceisio sicrhau bod cefn gwlad a thirluniau pwysig, a'r arfordir sydd heb ei ddatblygu ar draws yr ardal yn cael eu diogelu rhag datblygiadau amhriodol a'u cadw, ond gan gefnogi mentrau gwledig, gan gynnwys gweithgareddau hamdden a thwristiaeth.

**8.5.1.2** Mae'r sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisïau hyn yn cynnwys Papur Pwnc yr Amgylchedd (Adrannau ar Gefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu), Asesiad Tirlun LANDMAP CNPT (2004) ac Asesiad Cymeriad Morlun Lleol Bae Caerfyrddin, Gŵyr a Bae Abertawe (2017). Ar y cyfan, mae cymeriad cefn gwlad a'r tirlun ar draws Castell-nedd Port Talbot yn annhebygol o fod wedi newid yn sylweddol yng nghyswllt y sylfaen o dystiolaeth, ond gallai fod yn briodol ystyried diweddaru'r Asesiad Tirlun LANDMAP (i asesu'r angen am newidiadau i gwmpas ac ychwanegiadau posibl i'r Lletem Las ac Ardaloedd Tirlun Arbennig). Bydd gofyn asesu'r angen am y diweddariadau hyn yng ngoleuni polisi cenedlaethol newidiol, wrth iddo ddod i'r amlwg (gweler isod).

**8.5.1.3** Mae'r polisi Cefn Gwlad a'r Economi Wledig a geir yn PCC a'r TANs perthnasol heb ei newid i raddau helaeth ers mabwysiadu'r CDLI. Fodd bynnag, mae'n debygol mai un o'r prif effeithiau ar gefn gwlad a thirluniau Castell-nedd Port Talbot fydd datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy, yn arbennig ffermydd gwynt a solar. Dim ond cynigion o dan 10MW sy'n cael eu penderfynu gan ACLlau bellach, a'u cwmpasu gan bolisi'r CDLI, a bwriad Polisi FfDC drafft 10 yw cwmpasu cynlluniau mwy o faint, y penderfynir arnynt gan Lywodraeth Cymru. Mae Polisi drafft 10 yn arwydd o ragdybiaeth o blaid cynlluniau yn yr Ardaloedd Blaenoriaeth a nodir yn y FfDC drafft. Yr Ardaloedd Blaenoriaeth yw ardaloedd lle bernir bod newid i'r tirlun yn dderbyniol, ac felly gallent fod yn anghydnaws yn eu hanfod â dynodiadau Ardal Tirlun Arbennig CDLI. Bydd angen rhoi sylw i'r mater hwn wrth i bolisi cenedlaethol ddod i'r amlwg yn ystod cyfnod paratoi'r CDLI.

**8.5.1.4** Yng nghyfarfod Gweithgor y Swyddogion a gynhaliwyd i drafod y polisïau hyn, nodwyd bod y dynodiadau Ardaloedd Tirlun Arbennig a Pholisi EN2 yn debygol o fod angen eu hailasesu yng ngoleuni'r polisi FfDC sy'n dod i'r amlwg ar ynni adnewyddadwy (gweler uchod). Barnwyd bod Polisi EN3 (Lletemau Glas) yn effeithiol, ac nad oedd yn debygol y byddai angen mwy na mân newidiadau i ffiniau rhai dynodiadau. Barnwyd bod Polisïau EN4 (Anheddau Amnewid yng Nghefn Gwlad) ac EN5 (Trawsnewid ac Estyn Adeiladau sydd Eisoes yn Bodoli yng Nghefn Gwlad) yn effeithiol at ei gilydd o ran egwyddor, ond gall fod angen newidiadau ac eglurhad mewn perthynas â'r meintiau canllaw a roddir ar gyfer estyniadau ac anheddau amnewid.

**8.5.1.5** Prif ganfyddiad yr AMB yng nghyswllt y polisïau Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu oedd effeithiau cymysg o ran datblygu mewn Lletemau Glas ac Ardaloedd Tirlun Arbennig, lle caniatawyd datblygiadau'n groes i'r polisi. Nodwyd hefyd yr ymddengys bod gwrthdaro rhwng polisi SLA EN2 a pholisi ynghylch yr Ardaloedd Chwilio Strategol diwygiedig ar gyfer ynni adnewyddadwy (Polisi RE1).

**8.5.1.6** Mae'r materion eraill y gallai fod angen eu hystyried fel rhan o'r adolygiad yn cynnwys rhoi sylw i orgyffwrdd posibl rhwng polisïau sy'n ymwneud â datblygiadau y tu allan i derfynau aneddiadau (Polisi SC1), Ardaloedd Tirlun Arbennig (EN2), Lletemau Glas (EN3), dynodiadau bioamrywiaeth (SP15, EN6 ac EN7) a dulliau newydd o ymdrin â seilwaith werdd.

### 8.5.2 Polisi Strategol 15 - Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

**8.5.2.1** Mae'r Polisi Strategol Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth (SP15) a Pholisïau EN6 (Safleoedd Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth pwysig) ac EN7 (Nodweddion Naturiol Pwysig), ochr yn ochr â'r CCA Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth, yn ceisio amddiffyn, cadw a gwella safleoedd a nodweddion bioamrywiaeth a geoamrywiaeth pwysig yn yr ardal drwy'r broses gynllunio.

**8.5.2.2** Mae'r sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisïau hyn yn cynnwys Papur Pwnc yr Amgylchedd (Adrannau ar Fioamrywiaeth a Geoamrywiaeth). Er bod materion geoamrywiaeth yn annhebygol o fod wedi newid yn sylweddol, bydd angen diweddaru'r wybodaeth ynghylch bioamrywiaeth yr ardal.

**8.5.2.3** Mae polisi Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yn y FfDC drafft a Pholisi Cynllunio Cymru yn ymgorffori rôl a phwysigrwydd cryfach ystyriaethau bioamrywiaeth yn y system gynllunio, yn dilyn ymlaen o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a gyflwynodd ddyletswydd uwch ar gyfer bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau (dyletswydd A6) i awdurdodau cyhoeddus, yn gofyn eu bod yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer eu holl swyddogaethau. Mae'r pwyslais ar greu lleoedd yn PCC hefyd yn debygol o fod yn berthnasol yng nghyswllt cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

**8.5.2.4** Yng nghyfarfod Gweithgor y Swyddogion a gynhaliwyd i ystyried y polisïau hyn, trafodwyd y materion canlynol: Nodwyd bod rhai problemau wedi codi wrth ganfod safleoedd addas ar gyfer gwneud iawn am fioamrywiaeth mewn perthynas â rhai cynlluniau. Mae nifer o ddyraniadau'r CDLI ar safleoedd a ddynodwyd fel SINCs; mae hyn yn achosi problemau ac yn ddelfrydol dylid ei osgoi. Dylid cynnal arolwg o safleoedd i nodi nodweddion o ddiddordeb i'w cadw fel rhan o'r dull gweithredu creu lleoedd. Yn flaenorol roedd polisi oedd yn gofyn bod un goeden yn cael ei blannu ar gyfer pob anheddiad newydd, a dylid ystyried ailgyflwyno hyn. Mae PCC bellach yn galw am wella bioamrywiaeth: gall hynny olygu bod angen integreiddio dulliau gweithredu Seilwaith Werdd a chreu lleoedd ynghyd â rhagor o wybodaeth am y bioamrywiaeth sy'n bresennol ar safleoedd a ddyrannwyd. Mae Polisi EN7 yn ddefnyddiol ac yn cael ei ddefnyddio'n aml, a gallai fod yn briodol ei gryfhau fel rhan o ddull gweithredu creu lleoedd.

**8.5.2.5** Prif ganfyddiad yr AMB mewn perthynas â'r polisïau Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth oedd colled net parhaus bioamrywiaeth o ganlyniad i benderfyniadau cynllunio, heb sicrhau mesurau lliniaru digonol neu wneud iawn ym mhob achos.

**8.5.2.6** Mae'r materion eraill y dylid eu hystyried fel rhan o'r adolygiad yn cynnwys ystyried y dull o ymdrin â'r gorgyffwrdd rhwng y polisi bioamrywiaeth a pholisïau yn ymwneud â datblygu y tu allan i derfynau aneddiadau (Polisi SC1), Ardaloedd Tirlun

Arbennig (EN2), Lletemau Glas (EN3) a dulliau newydd o ymdrin â'r Seilwaith Werdd. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r angen posibl am ddynodi ardaloedd fel Coedwig Genedlaethol, fel y cynigiwyd yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft.

### 8.5.3 Polisi Strategol 16 - Amddiffyn yr Amgylchedd

**8.5.3.1** Mae Polisi Strategol Amddiffyn yr Amgylchedd (SP16) a Pholisïau EN8 (Llygredd a Sefydlogrwydd Tir), EN9 (Datblygiadau yn Ardal Ganolog Port Talbot) ac EN10 (Mannau Tawel), y mae'r CAA Llygredd yn cyd-fynd â hwy, yn ceisio diogelu ansawdd aer, dŵr a phridd a'r amgylchedd yn gyffredinol, a sicrhau nad yw datblygiadau'n cynyddu nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd.

**8.5.3.2** Mae'r sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisïau hyn yn cynnwys Papur Pwnc yr Amgylchedd (adran Amddiffyn yr Amgylchedd). Bydd angen diweddaru gwybodaeth y sylfaen o dystiolaeth a'r dogfennau ar gyfer y pwnc hwn er mwyn cymryd i ystyriaeth yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch llygredd a materion sefydlogrwydd tir, ac yng ngoleuni unrhyw newidiadau i bolisi cenedlaethol, ond nid ragwelir y bydd unrhyw newidiadau mawr yn hyn o beth yng nghyswllt y pwnc hwn.

**8.5.3.3** Mae polisïau diogelu'r amgylchedd yn PCC yn ailbwysleisio pwysigrwydd llygredd a materion sefydlogrwydd, ac yn cyflwyno rhai dulliau gweithredu diwygiedig a therminoleg, gan gynnwys yr angen am gyflawni sainluniau priodol, yn hytrach nag ymdrin â llygredd sŵn yn unig, ac argymhellir mabwysiadu dull gweithredu sy'n dileu risgiau. Bydd angen i'r agweddau hyn gael eu hadlewyrchu ym mholisïau'r CDLI.

**8.5.3.4** Yng nghyfarfod Gweithgor y Swyddogion a gynhaliwyd i drafod y polisïau hyn, trafodwyd materion o ran sefydlogrwydd tir mewn rhannau o Gastell-nedd Port Talbot. Dylid ystyried y posibilrwydd o rannu Polisi EN8 er mwyn darparu polisïau ar wahân ar gyfer llygredd a sefydlogrwydd tir, gan gyfeirio at faterion sefydlogrwydd tir hanesyddol sydd gan ardaloedd. Gallai hyn gynnwys gofyniad i ddatblygwyr ddarparu gwybodaeth i gyfiawnhau datblygu mewn ardaloedd o'r fath. Trafodwyd problemau gydag ansawdd aer mewn perthynas â dyraniadau CDLI penodol, ynghyd â'r posibilrwydd o gryfhau'r ystyriaeth i'r effeithiau y byddai datblygiad newydd yn eu cael ar ddefnyddiau presennol o ran gwaethygu materion llygredd presennol. Hefyd dylid cymryd i ystyriaeth ofynion i ddarparu systemau draenio cynaliadwy mewn datblygiadau newydd (SuDS) a dylid cymryd maen prawf ansawdd dŵr Polisi EN8 i ystyriaeth yn ogystal.

**8.5.3.5** Ni nodwyd materion penodol yn yr AMB yng nghyswllt cymhwyso polisïau llygredd a sefydlogrwydd tir y CDLI.

### 8.5.4 Polisi Strategol 17 - Mwynau

**8.5.4.1** Mae swm sylweddol o adnoddau mwynau yn gorwedd o dan Gastell-nedd Port Talbot, ac mae nifer o safleoedd gweithredol yn yr ardala arwyddocaol swm y adnoddau gyda a nifer o gweithredol mae'r ardal. Mae'r Polisi Mwynau Strategol (SP17) a Pholisïau M1 (Datblygu mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau), M2 (Gweithrediadau Glo ar yr Wyneb), M3 (Datblygu mewn Parthau Clustogi Mwynau) ac M4 (Meini Prawf ar gyfer Asesu Datblygu Mwynau), yn ceisio rheoleiddio ecsbloetio adnoddau mwynau er mwyn gwneud cyfraniad

cymesur at ymateb i'r galw cenedlaethol, rhanbarthol  lleol am fwynau, ochr yn ochr â chyflawni cydbwysedd derbyniol a chynaliadwy â diogelu'r amgylchedd a chymunedau lleol.

**8.5.4.2** Mae'r sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisïau hyn yn cynnwys y Papur Pwnc Mwynau. Cyflwynir y canllawiau ar gyfer echdynnu mwynau a datblygiad cysylltiedig yng Nghymru yn PCC a ddiweddarwyd, wedi'u hategu gan y Nodiadau Cyngor Technegol ar gyfer Mwynau (MTANs).

**8.5.4.3** O dan ddarpariaethau MTAN1: Agregau, mae Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) yn gyfrifol am baratoi Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) yn nodi sut bydd y galw am agregau yn cael ei ddiwallu yn y rhanbarth am gyfnod o 15 mlynedd. Mae'r DTRh yn asesu'r galw am agregau a'r cyflenwad ohonynt yn rhanbarth, gan ystyried capasiti amgylchedd pob Awdurdod Cynllunio Mwynol i wneud cyfraniad at ddiwallu'r galw rhanbarthol.

**8.5.4.4** Mae SWRAWP wedi ymgynghori'n ddiweddar ar 2il Adolygiad wedi'i ddiweddaru o'r DTRh, bydd yn ei gyhoeddi'n fuan, a bydd angen ystyried goblygiadau'r datganiad yn llawn fel rhan o adolygiad y CDLl.  Bydd angen i'r CDLl Amnewid barhau i ddangos tystiolaeth bod gan yr Awdurdod y gronfa angenrheidiol o agregau wrth gefn i ymateb i'r angen a nodwyd.  Mae tystiolaeth a gyflwynwyd yn yr AMBau hyd yma yn dangos bod gan Gastell-nedd Port Talbot gronfa fwy na digonol o agregau i ymateb i'r angen a nodwyd, ac felly mae'n annhebygol iawn y bydd angen unrhyw ddyraniadau newydd.

**8.5.4.5** Er y bernir bod y polisïau mwynau yn gyffredinol gadarn o hyd, bydd angen rhoi sylw i'r angen am ymateb i amgylchiadau newidiol. Gan fod datganiad wedi'i wneud ynghylch 'argyfwng hinsawdd' a'r angen am ddadgarboneiddio'r economi, polisi Llywodraeth Cymru yw peidio â chefnogi gweithio glo bellach. Mae PCC wedi cael ei ddiweddaru, felly, gan gyflwyno'r safbwynt y dylid gwrthsefyll ceisiadau newydd am weithio glo, oni bai bod amgylchiadau eithriadol wedi'u nodi, ac nad oes gofyn bellach i bolisïau'r CDLl ddiogelu adnoddau glo na dangos ble na fyddai gweithrediadau glo yn dderbyniol (h.y. Polisi M2).

**8.5.4.6** Ar ben hynny, mae'r FfDC drafft yn cyflwyno'r fframwaith polisi ar gyfer penderfynu ar gynigion ynni adnewyddadwy, gan gynnwys cyflwyno Ardaloedd Blaenoriaeth, lle bydd rhagdybiaeth o blaid cynlluniau gwynt a solar (gweler isod).  Mae rhan fawr o Gastell-nedd Port Talbot yn yr ardaloedd blaenoriaeth drafft ar gyfer ynni gwynt a/neu solar, felly bydd angen egluro mater sterileiddio adnoddau/cronfeydd mwynau trwy ddatblygiadau ynni adnewyddadwy fel rhan o'r adolygiad.

### 8.5.5 Polisi Strategol 18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel

**8.5.5.1** Mae'r Polisi Strategol (SP18) a Pholisïau RE1 (Meini Prawf ar gyfer Asesu Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel) ac RE2 (Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd), ochr yn ochr â'r CCA Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel, yn ceisio sicrhau bod yr ardal yn gwneud cyfraniad cymesur i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ogystal â chydbwyso effaith datblygiadau ynni adnewyddadwy ar yr amgylchedd a chymunedau.

**8.5.5.2** Mae'r sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisïau hyn yn cynnwys y Papur Pwnc Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel, Asesiad Ynni Adnewyddadwy y CDLl, Astudiaeth Anecs D TAN 8 o Ardaloedd Chwilio Strategol E ac F: Cymoedd De Cymru, a'r Adroddiad Darparu Cyngor ar y Tirlun. Bydd angen ailystyried ac edrych eto ar wybodaeth y sylfaen o dystiolaeth a dogfennau ar gyfer y pwnc hwn, yng ngoleuni newidiadau i bolisi cenedlaethol a threfniadau cydsynio, a hefyd newidiadau i dechnolegau ynni adnewyddadwy. Gall fod angen gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r canlynol:

- Astudiaeth i'r potensial ar gyfer datblygu rhwydweithiau gwres rhanbarthol, yn arbennig yn ardal Castell-nedd;
- Asesiadau o anghenion ynni pob datblygiad newydd arfaethedig a'r angen am gapasiti cynhyrchu ychwanegol;
- Nodi targedau heriol ond cyflawnadwy ar gyfer ynni adnewyddadwy (capasiti absoliwt yr ynni a osodwyd/potensial o ran adnoddau); a
- Rhoi'r Pecyn Offer Carbon Isel ar waith (gan gynnwys asesu potensial o ran adnoddau, effeithiau a chyfleoedd, effeithiau cronnol a materion cysylltu).

**8.5.5.3** Mae pob cynnig ar gyfer prosiectau cynhyrchu ar y lan sydd â chapasiti rhwng 10MW a 50MW (a mwy yn achos ynni gwynt) bellach yn derbyn sylw gan Weinidogion Cymru, gydag Awdurdodau Lleol yn delio gyda chynigion o dan 10MW yn unig.

**8.5.5.4** Mae'r FfDC drafft yn cyflwyno'r fframwaith polisi ar gyfer penderfynu ar gynigion ynni adnewyddadwy, gan gynnwys cyflwyno Ardaloedd Blaenoriaeth, lle bydd rhagdybiaeth o blaid cynlluniau gwynt a solar. Mae polisïau eraill drafft y FfDC yn cwmpasu agweddau eraill ar ddatblygu ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau gwres ardal. Mae rhan fawr o Gastell-nedd Port Talbot yn yr ardaloedd blaenoriaeth drafft ar gyfer ynni gwynt a/neu solar, lle byddai rhagdybiaeth o blaid datblygiadau Ynni Adnewyddadwy. Mae Castell-nedd wedi'i nodi fel ardal flaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Ardal, lle dylid nodi a gweithredu cyfleoedd.

**8.5.5.5** Mae'r polisi cenedlaethol yng nghyswllt ynni adnewyddadwy, felly, yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd mae PCC yn hybu datblygiad adnoddau ynni adnewyddadwy, yn cyflwyno'r Hierarchaeth Ynni ac yn gofyn bod awdurdodau cynllunio yn cynllunio'n gadarnhaol ar gyfer cynhyrchu pŵer lleol, gan gynnwys darparu ar gyfer cydleoli datblygiadau fel bod modd caniatáu cyfleoedd gwres lleol, gan fwyafu'r defnydd o wres gwastraff, gwresogi ardal, a gwres a phŵer cyfunedig. Bydd PCC a TAN8 (Ynni Adnewyddadwy) yn cael eu hadolygu unwaith mae'r polisi FfDC wedi'i lunio'n derfynol, a bydd angen i bolisïau'r CDLl adlewyrchu a chydymffurfio â'r fframwaith hwn sy'n dod i'r amlwg.

**8.5.5.6** Yng nghyfarfod Gweithgor y Swyddogion a gynhaliwyd i drafod polisïau'r CDLl nodwyd y byddai angen newid Polisi RE1, ond y byddai ei ffurf yn dibynnu ar y fframwaith polisi cenedlaethol terfynol. Barnwyd y dylid asesu'r angen am hollti RE1 fel bod polisïau ar wahân ar gyfer pŵer gwynt a solar fel rhan o'r adolygiad. Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy sy'n sterileiddio cronfeydd mwynau wedi bod yn broblem yn y gorffennol, a bydd angen egluro'r mater hwn hefyd.

**8.5.5.7** O ran Polisi RE2 (Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd) argymhellwyd y dylid ystyried newid y trothwyon lle mae gofyn cynnal Asesiadau Ynni, ac a ddylid gostwng y trothwy o 100 annedd ar gyfer datblygiadau preswyl yn arbennig, er y bydd angen ystyried hynny yng ngoleuni materion dichonoldeb datblygiadau.

**8.5.5.8** Ni nodwyd materion penodol yn yr AMB yng nghyswllt polisïau Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel y CDLl. Fodd bynnag, mae monitro'r AC wedi nodi effeithiau cymysg mewn perthynas â'r trothwyon sy'n galw am gyflwyno asesiadau ynni adnewyddadwy (Polisi RE2).

**8.5.5.9** Yn ogystal â'r uchod, bydd angen ystyried yr angen am bolisi ar wahân ar gyfer rhwydweithiau gwres ardal, yn arbennig yn ardal Castell-nedd, a nodi targedau ynni adnewyddadwy yn ffurfiol.

### 8.5.6 Polisi Strategol 19 - Rheoli Gwastraff

**8.5.6.1** Mae'r Polisi Rheoli Gwastraff Strategol (SP19) a Pholisïau W1 (Cyfleusterau Trin Gwastraff oddi mewn i Adeiladau), W2 (Gollwng Gwastraff Anadweithiol ar Dir Amaethyddol) a W3 (Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad Newydd), yn ceisio sicrhau agwedd gynaliadwy at reoli gwastraff ac yn cyfrannu at ddarparu ar gyfer rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff.

**8.5.6.2** Mae'r sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisïau hyn yn cynnwys y Papur Pwnc Gwastraff a'r Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff (WPMRs), sy'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol gan Ranbarth De-orllewin Cymru. Mae PCC yn dangos y dylai egwyddorion *Economi Gylchol* ddarparu sylfaen ar gyfer pob datblygiad, ac mae'n annog dulliau dylunio sy'n atal gwastraff. Mae hefyd yn cyflwyno'r hierarchaeth wastraff ar gyfer delio gyda deunyddiau gwastraff, gyda gwaredu'n opsiwn olaf.

**8.5.6.3** Ymhellach, mae PCC, ochr yn ochr â TAN 21 (Gwastraff), yn gofyn bod cynnydd tuag at sefydlu rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau yn cael ei fonitro er mwyn nodi a oes capasiti digonol yn cael ei gynnal o ran tirlenwi; a oes capasiti digonol o ran triniaeth yn cael ei gynnal; a yw patrwm gofodol y ddarpariaeth yn briodol i roi sylw i'r anghenion a nodwyd; ac a oes angen i ACLlau gymryd unrhyw gamau pellach i roi sylw i faterion nas rhagwelwyd.

**8.5.6.4** Elfen ganolog o'r broses o baratoi'r WPMR yw casglu a dadansoddi gwybodaeth ynghylch y sefyllfa wastraff yn y rhanbarth. Prif rôl WPMR yw coladu a chyflwyno'r holl ddata sydd ar gael i alluogi monitro effeithiol ar ddeilliannau gwastraff y rhanbarth a'i gyfleusterau rheoli gwastraff, ac asesu perfformiad y rhanbarth yn erbyn y targedau a nodwyd yn Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru - 'Tuag at Ddim Gwastraff' (TZW).

**8.5.6.5** Er bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr AMBau hyd yma yn dangos bod y polisïu gwastraff yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn dal yn gadarn, bydd angen ystyried yr angen am ymateb i amgylchiadau newidiol ar hyd yr adolygiad. Bydd yr wybodaeth a'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn y WPMRs yn llywio'r broses hon ac yn darparu sylfaen ar gyfer gweithredu ar y deilliannau gwastraff ym mhob ardal awdurdod lleol, ac yn sgîl hynny, y rhanbarth yn gyfan.

## 8.6 Trafnidiaeth a Mynediad

### 8.6.1 Polisi Strategol 20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

**8.6.1.1** Mae Polisi Strategol y Rhwydwaith Trafnidiaeth (SP21) a pholisïau TR1 (Cynigion Trafnidiaeth), TR2 (Dylunio Datblygiad Newydd a Mynediad iddo), TR3 (Diogelu Seilwaith Rheilffyrdd nad yw'n cael ei defnyddio) a TR4 (Diogelu Cyfleusterau Cludo Nwyddau), a ategir gan y CCA Safonau Parcio, yn ceisio cefnogi a datblygu'r rhwydwaith trafnidiaeth er mwyn hwyluso'n ddiogel ac yn effeithiol symudiadau pobl a nwyddau o fewn yr ardal, gan leihau dibyniaeth ar y car preifat a gwella cysylltedd.

**8.6.1.2** Mae'r sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisïau hyn yn cynnwys y Papur Pwnc Trafnidiaeth. Bydd angen diweddaru'r holl wybodaeth a dogfennau sy'n ymwneud â'r pwnc hwn er mwyn rhoi sylw i newidiadau i'r seilwaith trafnidiaeth a datblygiadau eraill sydd wedi digwydd ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, ynghyd â diweddaru'r wybodaeth sydd ar gael yn gyffredinol. Rhoddir sylw i'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd (LTP) ar gyfer De-orllewin Cymru 2015-2020. Wrth ddisodli'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (a baratowyd gan gonsortia SWWITCH), mae'r pedwar awdurdod yn Ne-orllewin Cymru wedi gweithio ar y cyd i baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol fel Cynllun trosfwaol i'r Ddinas-Ranbarth. Mae angen ystyried goblygiadau polisi a defnydd tir y cynlluniau a nodwyd yn yr LTP.

**8.6.1.3** Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn pwysleisio pwysigrwydd cynyddol cerbydau ag allyriadau eithriadol isel (ULEVs), teithio llesol a chludiant cyhoeddus, ac mae'n cynnwys polisi sy'n cefnogi datblygiad system Metro Bae Abertawe. Mae'r thema creu lleoedd a ymgorfforir yn PCC yn arwyddocaol mewn perthynas â pholisi trafnidiaeth, a phwysleisir galluogi dewisiadau teithio mwy cynaliadwy, ynghyd â gwneud y defnydd gorau o'r capasiti presennol a rheoli'r galw. Cyflwynir yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy fel egwyddor allweddol ar gyfer cynlluniau datblygu, gan ffafrio cerdded a beicio gyntaf, gyda chludiant cyhoeddus yn dilyn, yna ULEVs, gyda cherbydau modur preifat ar waelod yr hierarchaeth.

**8.6.1.4** Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i gynhyrchu mapiau teithio llesol a chyflawni gwelliannau i'r llwybrau a'r cyfleusterau teithio llesol o flwyddyn i flwyddyn. Gellir ystyried unrhyw gynigion newydd neu ddiwygiedig ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol, yn arbennig cerdded a beicio, i'w diogelu trwy broses adolygu'r CDLI os ydynt yn rhan o raglen, yn cael eu cefnogi gan gyllid, ac yn debygol o gael eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun.

**8.6.1.5** Yng nghyfarfod Gweithgor y Swyddogion a gynhaliwyd i drafod y polisïau hyn, nodwyd bod angen ailystyried a diweddaru rhai o'r datblygiadau/safleoedd a restrir ym mholisïau TR1 (Cynigion Trafnidiaeth) a TR4 (Diogelu Cyfleusterau Cludo Nwyddau), lle bo hynny'n briodol er mwyn cymryd i ystyriaeth gwblhau rhai cynigion, ailystyried eraill nad ydynt wedi dod i'r amlwg fel y disgwylid, ac ychwanegu unrhyw gynlluniau newydd. Trafodwyd y posibilrwydd o gael polisïau newydd penodol ar gyfer ULEVs, Teithio Llesol a Seilwaith Werdd. Mae gan y Metro a gynigir ar gyfer Bae Abertawe oblygiadau cadarnhaol a negyddol posibl ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, a bydd angen eu hasesu wrth i gynigion mwy manwl ddod gerbron.

**8.6.1.6** Mae'r AMB yn nodi'r cynlluniau (a restrir ym Mholisi TR1) sydd heb eu cwblhau, ac mae'n nodi y bydd angen i TR1 fod yn destun proses adolygu i gymryd y sefyllfa bresennol i ystyriaeth. Ni nodwyd materion penodol gyda'r polisïau eraill.

## 8.7 Diwylliant a Threftadaeth

### 8.7.1 Polisi Strategol 21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol

**8.7.1.1** Mae Polisi Strategol (SP21), Polisïau BE1 (Dylunio), BE2 (Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol) a BE3 (Y Rhwydwaith Camlesi), y CCA Dylunio a CCA yr Amgylchedd Hanesyddol yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyrraedd safon uchel o ddylunio, a bod amgylchedd hanesyddol presennol pwysig yr ardal yn cael ei ddiogelu a'i wella lle bynnag y bo modd.

**8.7.1.2** Mae'r sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisïau hyn yn cynnwys Papur Pwnc yr Amgylchedd (adrannau ar yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol) a'r Atodlenni Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol a Strwythurau Camlas Dynodedig (sy'n rhan o CCA yr Amgylchedd Hanesyddol). Gan mwyaf, mae'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol yn annhebygol o fod wedi newid yn sylweddol yng nghyswllt y sylfaen o dystiolaeth, ond ymhlith y meysydd y gallai fod angen eu diweddaru mae'r Rhestr Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol (er mwyn cymryd i ystyriaeth golledion ac ychwanegiadau posibl fel rhan o'r adolygiad o'r CCA) a chynnal Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth.

**8.7.1.3** O'u cyfuno, mae goblygiadau sylweddol i'r thema creu lleoedd a gyflwynwyd gan PCC10, ynghyd â TAN12 (Dylunio), a newidiwyd yn 2016, ar gyfer materion dylunio yn arbennig, a bydd yn rhaid eu cymryd i ystyriaeth. Yn yr un modd, mae'r TAN24 newydd (yr Amgylchedd Hanesyddol) yn cadarnhau ac yn ehangu'n sylweddol ar y canllawiau blaenorol, a bydd angen adlewyrchu hynny yn yr adolygiad.

**8.7.1.4** Yng nghyfarfod Gweithgor y Swyddogion a gynhaliwyd i drafod y polisïau hyn, mynegwyd pryderon nad yw'r polisi dylunio (BE1) yn ddigon clir ac effeithiol pan gaiff ei ddefnyddio i benderfynu ar geisiadau. Trafodwyd hefyd yr angen am Bolisi BE2 (Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol) a'i ddefnyddioldeb, o ystyried y diffyg adnoddau sydd ar gael i ddelio gyda chadwraeth yr amgylchedd hanesyddol yn gyffredinol.

**8.7.1.5** Ni nodwyd materion penodol yn yr AMB yng nghyswllt gweithrediad polisïau'r CDLI ar gyfer yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol.

**8.7.1.6** Ymhlith y materion eraill y gallai fod angen eu hystyried fel rhan o'r adolygiad mae newid y derminoleg a ddefnyddir, er mwyn sicrhau ei fod yn cyfateb i'r canllawiau diweddaraf (e.e.Amgylchedd Hanesyddol yn hytrach na Threftadaeth Hanesyddol ac Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yn hytrach nag Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol). Mae'r pwyslais newydd ar greu lleoedd a materion dylunio hefyd yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth i rannu polisi dylunio oddi wrth faterion hanesyddol, ac ychwanegu polisi strategol newydd ar gyfer creu lleoedd/dylunio.

### 8.7.2 Polisi Strategol SP22 - Yr Iaith Gymraeg

**8.7.2.1** Mae'r Polisi Strategol (PS22), Polisi WL1 (Datblygiad mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif) a CCA Datblygiad a'r Iaith Gymraeg yn ceisio sicrhau bod datblygiad yn yr 'Ardal Ieithyddol Sensitif' (AIS) yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg yn sgîl y datblygiad, trwy ddarparu cyfraniadau Adran 106 er mwyn amddiffyn, hybu a gwella'r iaith Gymraeg.

**8.7.2.2** Mae Cymru sydd â diwylliant bywiog a iaith Gymraeg lewyrchus yn un o'r saith nod llesiant a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd hefyd wedi'i wreiddio ym Mholisi Cynllunio Cymru a'i egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy. Mae pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg hefyd yn cael ei amlygu gan darged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru, sef cyrraedd un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.[7]

**8.7.2.3** Mae'r sylfaen o dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisïau hyn yn cynnwys Papur Pwnc yr Iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Gan mwyaf, mae'r sylfaen o dystiolaeth yn annhebygol o fod wedi newid yn sylweddol, ond bydd angen adolygu'r data ystadegol diweddaraf er mwyn pennu a fydd angen newid cwmpas yr AIS dynodedig, neu a oes angen adolygu'r trothwyon polisi. Mae'n bosibl hefyd y rhoddir ystyriaeth i bolisi arwyddion dwyieithog.

**8.7.2.4** Ni nodwyd materion penodol yn yr AMB yng nghyswllt gweithrediad polisïau'r CDLI ar gyfer Yr Iaith Gymraeg ac ni fynegwyd pryderon ynghylch eglurder a geiriad y polisïau yng Ngweithgor y Swyddogion. Yn gyffredinol, ymddengys bod y polisi'n gweithio'n dda, a bydd yn cael ei gadw yn y CDLI Amnewid.



7 Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.

# 9 Ailystyried yr AC/AAS a'r ARhC

## 9.1 Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

**9.1.1** Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod y broses o lunio a datblygu CDLl yn cael ei llywio ar ei hyd gan broses ailadroddus Arfarniad Cynaliadwyedd (AC). Mae'r AC hefyd yn ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb Ewrop 2001/42/EC. Bwriad hyn yw sicrhau bod polisïau yn y CDLl i gyd yn hybu 'datblygu cynaliadwy' trwy integreiddio amcanion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol i ddatblygiad pob agwedd ar y CDLl.

**9.1.2** Crynhoir canfyddiadau monitro'r AC yn flynyddol yn yr AMB i roi asesiad o effeithiau gweithredu polisïau'r CDLl, a cheir crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn Adran 4 uchod.

**9.1.3** Bydd angen i'r AC/AAS fod yn destun proses adolygu drylwyr er mwyn cymryd i ystyriaeth yr holl newidiadau cyd-destunol ehangach o ran polisi a chanllawiau cenedlaethol, newidiadau a diweddariadau i wybodaeth sylfaenol a dulliau gweithredu a gwybodaeth eraill newydd. Bydd Adroddiad Rhychwantu'r AC yn cael ei adolygu'n unol â hynny, gan gynnwys fframwaith monitro a methodoleg yr AC. Bydd angen rhoi ystyriaeth hefyd i integreiddio gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y Ddeddf Cydraddoldebau, yr Iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith ar Iechyd i mewn i un Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

## 9.2 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

**9.2.1** Roedd y CDLl hefyd yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) er mwyn asesu a fyddai ei weithredu yn cael unrhyw effeithiau ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd sy'n bwysig o safbwynt cadwraeth natur (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Amddiffyniad Arbennig, gan gynnwys Safleoedd Ramsar). Mae hyn yn cynnwys proses sgrinio helaeth sy'n ymwneud â holl bolisïau a chynigion y CDLl ac asesiad manwl o'r effeithiau tebygol.

**9.2.2** Bydd angen eto i'r CDLl Amnewid fod yn destun ARhC, a bydd hynny'n galw am adolygu ac edrych eto ar broses sgrinio a methodoleg yr ARhC, a'u cymhwyso i gynigion CDLl sy'n datblygu mewn proses ailadroddus er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol a bod unrhyw broblemau'n derbyn sylw llawn.

# 10 Cyfleoedd i Gydweithio

## 10.1 CDLlau ar y Cyd ac Astudiaethau Cydweithredol

**10.1.1** Mae cydweithio yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn rhan o brawf cadernid cyntaf y CDLl (h.y. Ydy'r Cynllun yn ffitio?). Ar ben hynny, mae'r drafft a ddiweddarwyd 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), yn dangos y bydd angen i ACLlau ddangos bod yr holl gyfleoedd i weithio ar y cyd a chydweithio wrth baratoi'r cynllun a'r sylfaen o dystiolaeth wedi cael eu dihysbyddu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle mae CDLlau awdurdodau cymdogol ar amserlenni paratoi tebyg, a lle mae cysylltiadau cryf ar draws ffiniau.

### Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd

**10.1.2** Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn rhannu ei ffin weinyddol â chwe Awdurdod Cynllunio Lleol arall (ACLl): Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Powys, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa bresennol pob ACLl mewn perthynas â'u cylch paratoi ar gyfer y CDLl.

**Tabl 10.1.1 Statws y CDLl mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymdogol**

| Awdurdod Lleol | Dyddiad Mabwysiadu'r CDLl | Cyfnod y Cynllun | Cynnydd yr Adolygiad |
|---|---|---|---|
| Abertawe | 2019 | 2010 - 2025 | Dim angen ar hyn o bryd |
| Sir Gaerfyrddin | 2014 | 2006 - 2021 | Dechreuodd y gwaith ar y CDLl Amnewid, gydag ymgynghori diweddar ar y Strategaeth a Ffafrir. |
| Powys | 2018 | 2011 - 2026 | Dim angen ar hyn o bryd |
| Rhondda Cynon Taf | 2011 | 2006 - 2021 | AMH |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2013 | 2006 - 2021 | Dechreuodd y gwaith ar y CDLl Amnewid, gydag ymgynghori diweddar ar y Strategaeth a Ffafrir. |
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 2013 | 2007 - 2022 | Dechreuodd y gwaith ar y CDLl Amnewid, gydag ymgynghori diweddar ar y Strategaeth a Ffafrir. |

**10.1.3** Mae'r wybodaeth uchod yn amlygu nad oes llawer o gyfle, o ran amserlenni, i baratoi CDLl ar y cyd ag unrhyw awdurdod cymdogol, gan fod pawb ar gyfnodau go wahanol yn y broses o baratoi'r cynllun. Er gwaethaf y terfynau amser anghydnaws, bydd cydweithio â'r holl awdurdodau cymdogol yn dal yn rhan ganolog o'r gwaith i baratoi'r CDLl Amnewid, y bydd angen iddo gael ei alinio gymaint â phosibl â strategaethau a chynigion presennol a/neu sy'n dod i'r amlwg mewn ardaloedd cyfagos.

**Mentrau ac Astudiaethau Cydweithredol**

**10.1.4** Gan gydnabod mai'r ffocws a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ar hyn o bryd fyddai adeiladu ar gyfleoedd i weithio ar y cyd ar faterion trawsffiniol a meysydd tystiolaeth allweddol, mae cryn dipyn o waith ar y cyd sy'n cynnwys yr holl awdurdodau cysylltiedig â Grŵp Cynllunio Strategol Canolbarth a De-orllewin Cymru eisoes wedi cychwyn.

**10.1.5** Hyd yma, mae'r trafodaethau a'r cynnydd wedi troi o gwmpas tair astudiaeth allweddol: 'Astudiaeth Gyflogaeth Ranbarthol' (RES), 'Asesiad ar y cyd o'r Farchnad Dai Leol' (LHMA) ac 'Astudiaeth Ddichonoldeb Ranbarthol' (RVS). Bydd pob un o'r tair astudiaeth nid yn unig yn bwydo i adolygiadau CDLlau unigol, ond hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol fel gwaelodlin posibl ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) (gweler isod).

**10.1.6** Mae'r gwaith cysylltiedig â'r RES wedi oedi ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd problemau adnoddau /capasiti yn yr ACLlau hynny sy'n canolbwyntio eu hymdrechion a'u sylw ar roi sylfaen o dystiolaeth yn ei lle ar gyfer eu CDLl. Elfen nodedig yw bod swyddi 'Swyddogion Rhanbarthol' wedi cael eu creu'n ddiweddar yn Llywodraeth Cymru, ac felly y bwriad yw dychwelyd at RES yn y dyfodol, gyda ffocws mwy o bosib ar CDSau, mewn cydweithrediad â swyddogion LlC.

**10.1.7** Yn dilyn penodi Opinion Research Services (ORS) mae'r astudiaeth LHMA ar y Cyd yn agos at gael ei chwblhau. Mae disgwyl yr adroddiad rhanbarthol terfynol a'r adroddiad is-ardal (ACLl) ar ddiwedd mis Rhagfyr 2019. Nod y comisiwn oedd sicrhau bod dull methodolegol cyson yn cael ei sefydlu er mwyn asesu'r anghenion tai ar draws rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn unol ag arfer gorau, i ddarparu data cadarn i lywio LHMAs sydd i ddod.

**10.1.8** Mae'r RVS, dan arweiniad Andrew Burrows o 'Burrows-Hutchinson', hefyd yn agos at gael ei gwblhau: ac mae'r Model Dichonoldeb Datblygu (DVM) yn y broses o gael ei darparu ar wefan pob ALl yn ei dro. Mae'r DVM yn offeryn arfarnu seiliedig ar daenlen sy'n gallu profi addasrwydd safleoedd i'w cynnwys mewn Cynllun/Strategaeth a hefyd i helpu wrth asesu dichonoldeb ariannol cynnig datblygu penodol adeg cyflwyno'r cais. Gellir defnyddio'r DVM fel rhan o sylwadau a gyflwynir i'r Cyngor ar gyfer cyngor cyn-ymgeisio, ceisiadau cynllunio a 'Safleoedd Ymgeisiol' a gyflwynwyd fel rhan o broses adolygu'r CDLl.

**10.1.9** Mae gwaith ychwanegol ar y cyd a fydd yn llywio paratoi'r CDLl hefyd wedi digwydd gydag awdurdodau cymdogol penodol, ac enghraifft o hynny yw'r gwaith paratoi gyda chydweithwyr yn Abertawe ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Coridor Arloesedd Ffordd Fabian. Yn y dyfodol byddwn yn mynd ati gyda gwaith i baratoi tystiolaeth ar y cyd ac a rennir fel hyn, gan gynnwys Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) posibl, lle mae buddiannau a rennir yn bodoli, ble bynnag mae cyfle i wneud hynny.

## 10.2 Cynlluniau Datblygu Strategol

**10.2.1** Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 y fframwaith cyfreithiol i gryfhau'r dull gweithredu a arweinir gan y cynllun yng Nghymru trwy gyflwyno'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer paratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a hefyd Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau). Yn y pen draw bydd angen i CDLlau neu CDLl ysgafn (fersiwn fyrrach gyda mwy o ffocws o'r CDLl lle mae CDS yn ei le), gydymffurfio â'r cynlluniau haen uwch hyn.


**10.2.2** Mae'r fframwaith polisi FfDC drafft yn gofyn bod CDSau yn cael eu cyflwyno ym mhob un o'r tri rhanbarth a nodwyd: Gogledd Cymru; Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru. Yr ardaloedd hyn fydd y ffocws ar gyfer polisi LlC a buddsoddi yn y dyfodol. Bydd angen i'r CDS ymdrin â materion trawsffiniol ar lefel ranbarthol, a rhaid iddo gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC. Yn drawiadol, yng nghyswllt y fframwaith polisi FfDC drafft sy'n benodol i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru:

- Nodwyd Abertawe, Castell-nedd, Port Talbot a Llanelli fel 'Canolfannau Twf Cenedlaethol' a'r ardaloedd hynny yw'r prif ffocws ar gyfer buddsoddiad a thwf;
- Nodwyd Caerfyrddin, Llandrindod, y Drenewydd, Abertawe a'r pedair tref hafan fel 'Canolfannau Twf Rhanbarthol', a byddant yn ffocws ar gyfer twf a reolir, gan adlewyrchu eu swyddogaethau is-ranbarthol pwysig;

  Fel cyfran o'r angen cenedlaethol, mae angen 23,400 o gartrefi erbyn 2038 ac yn ystod y 5 mlynedd cychwynnol (2018/19 tan 2022/23), dylai 44% o'r cartrefi y mae angen amdanynt fod yn fforddiadwy; ac

  Mae'r fframwaith polisi hefyd yn cefnogi'n benodol ddatblygiad parhaus Dyfrffordd yr Hafan a Metro Bae Abertawe.

**Ffigur 10.1 Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru**




**10.2.3** Yng ngoleuni'r drefn gynllunio newydd hon sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru, mae trafodaethau ynghylch y CDS bellach yn digwydd yn rheolaidd ar draws rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru i ganfod rôl awdurdodau yn y dyfodol a chwmpas y gwaith sy'n angenrheidiol. Yn dilyn cyhoeddi'r FfDC Drafft, bydd trafodaethau rhwng yr ACLlau

sy'n rhan ohono yn awr yn ennill momentwm i bennu sut dylai'r gwaith o baratoi CDS fynd rhagddo, gan gynnwys cytuno ar yr ôl-troed daearyddol, y trefniadau llywodraethu, yr adnoddau sydd ar gael, ac amseriad paratoi'r cynllun.

**10.2.4** Yn ystod y broses o baratoi'r CDLI Amnewid, felly, bydd angen i'r Cyngor ystyried yn fanwl oblygiadau'r CDS pan ddaw cyfeiriad y polisi rhanbarthol newydd i'r amlwg.

# Atodiad A: Adolygiad Polisi'r CDLI

**A.1** Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o Bolisïau'r CDLI (mae'r Polisïau Strategol mewn **print Bras**):

### Tabl A.0.1 Polisïau Trosfwaol

| Cyf. y Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| **SP1** | **Newid yn yr Hinsawdd** | Cedwir y Polisi ond bydd meini prawf unigol y polisi yn cael eu hadolygu i sicrhau bod yr wybodaeth a'r dulliau gweithredu diweddaraf yn cael eu hymgorffori. |
| **SP2** | **Iechyd** | Bydd y polisi hwn yn destun adolygiad er mwyn ystyried a ddylid ehangu'r ystyriaethau Polisi yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol a mwy o ffocws ar ddull cyfannol o ymdrin â datblygu. |
| **SP3** | **Cymunedau Cynaliadwy** | Ni nodwyd materion penodol mewn perthynas â Pholisi SP3. Dylid rhoi ystyriaeth i'r angen am bolisi manwl ychwanegol yn ymwneud â chyfleusterau cymunedol newydd. |
| SC1 | Terfynau Aneddiadau | Bydd y polisi'n cael ei adolygu mewn perthynas â geiriad y meini prawf. |
| SC2 | Diogelu Cyfleusterau Cymunedol Presennol | Rhaid ystyried darparu eglurhad pellach ynghylch diffiniad/cwmpas y term Cyfleusterau Cymunedol. |
| **SP4** | **Seilwaith** | Bydd y polisi hwn yn destun adolygiad gan nad yw'n cyflawni'r manteision a ragwelwyd. Gall y term 'seilwaith' gwmpasu ystod o ystyriaethau cynllunio ac felly bydd angen newid testun y polisi i sicrhau bod modd gwahanu seilwaith ffisegol a rhwymedigaethau cynllunio yn hwylus i ddarparu eglurder. |
| I1 | Gofynion Seilwaith | Mae'r Polisi yn hanfodol er mwyn sicrhau bod seilwaith ddigonol i liniaru effeithiau datblygiad newydd, a dylid ei gario ymlaen i'r cynllun newydd. Fodd bynnag, fel yn achos y Polisi Strategol, mae angen newid y polisi i ddarparu mwy o eglurder ynghylch y gofynion o ran rhwymedigaethau cynllunio. Bydd profion dichonoldeb yn pennu'r cyfleoedd ar gyfer cyfraniadau datblygwyr mewn datblygiadau newydd a bydd asesiad o'r materion allweddol yn pennu a yw'r rhestr o ofynion posibl yn dal yn briodol. |

### Tabl A.0.2 Polisïau Ardal

| Cyf. y Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| **SP5** | **Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir** | Mae angen newid y polisi i adlewyrchu'r strategaethau gofodol a thwf diwygiedig. Bydd angen i'r polisi ystyried y FfDC sy'n dod i'r amlwg, y sylfaen o dystiolaeth a ddiweddarwyd, a bydd gofyn asesu dyraniadau presennol a rhai newydd posibl er mwyn penderfynu ar eu gallu i ddarparu ar gyfer datblygiad yn y dyfodol. |
| SRA1 | Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy | Diwygio'r polisi i adlewyrchu ailystyried y strategaeth twf a gofodol. |
| SRA 2 | Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr | Diwygio'r polisi i adlewyrchu ailystyried y strategaeth twf a gofodol. |
| CCRS 1 | Cynlluniau Adfywio Coridor yr Arfordir | Diwygio'r polisi i adlewyrchu ailystyried y strategaeth twf a gofodol. |

| Cyf. y Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| CCRS 2 | Campws y Brifysgol ar Goridor yr Arfordir | Campws wedi'i ddatblygu gan mwyaf, ystyried a yw polisi penodol yn dal yn berthnasol. |
| **SP6** | **Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd** | Ar y llaw arall, yn wyneb y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg, mae'n debygol y bydd y rhaniad arfordirol/cymoedd yn cael ei gadw, ac mae nifer o ddangosyddion sy'n berthnasol i'r Polisi hwn, sydd wedi cael llwyddiant cymysg. Nid yw'r rhai sy'n ymwneud â darparu tai yn gyffredinol ac ATS Pontardawe wedi cyflawni fel y rhagwelwyd. Er nad yw dangosyddion tai ATS Glyn-nedd a Chwm Nedd wedi codi unrhyw faterion, y rheswm am hynny yw na chyrhaeddwyd y dyddiad cyflawni. Mae'n debygol y bydd angen gwneud dyraniadau newydd yn y Cymoedd i helpu i alluogi twf yno, a fydd yn cynnwys datblygiadau preswyl, diogelu cyflogaeth, treftadaeth ddiwylliannol a chyfleoedd adfywio. |
| VRS 1 | Cynllun Adfywio Strategaeth y Cymoedd | Diwygio'r polisi i adlewyrchu ailystyried y strategaeth twf a gofodol. |

### Tabl A.0.3 Polisïau Pynciol Cymunedau a Thai

| Cyf. y Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| **SP7** | **Gofynion Tai** | Bydd y polisi yn destun newid i adlewyrchu'r strategaethau twf a gofodol a ddiweddarwyd a lefel yr angen am dai fydd yn ofynnol dros gyfnod y cynllun. |
| H2 | Safleoedd Tai | Diwygio dyraniadau tai i adlewyrchu'r strategaethau twf a gofodol a dosbarthiad gofodol tai dros gyfnod y cynllun. |
| **SP8** | **Tai Fforddiadwy** | Bydd y polisi yn destun newid i adlewyrchu'r strategaeth a ddiweddarwyd, tystiolaeth ynghylch dichonoldeb, a pholisi cenedlaethol ynghylch tai fforddiadwy. |
| AH1 | Tai Fforddiadwy | Bydd gofyn newid y polisi i adlewyrchu gwaith dichonoldeb a ddiweddarwyd. |
| AH2 | Safleoedd sy'n Eithriadau o ran Tai Fforddiadwy | Dim ceisiadau perthnasol ers mabwysiadu'r CDLl. Mae gofyn ymchwilio a thrafod ymhellach gyda phartneriaid sy'n LCC, a gwneud newidiadau o bosibl. |
| **SP9** | **Sipsiwn a Theithwyr** | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Mae newidiadau'n ofynnol i adlewyrchu'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr nesaf. |
| GT1 | Safle Sipsiwn a Theithwyr | Mae'r dyraniad wedi cael ei gyflawni. Mae'r polisi naill ai i gael ei ddileu neu ei ddiweddaru i adlewyrchu gofynion yr Asesiad Llety nesaf ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. |
| GT2 | Cynigion ar gyfer Safleoedd Newydd i Sipsiwn a Theithwyr | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Mae angen rhai mân newidiadau i gyfateb i'r canllawiau polisi cenedlaethol a ddiweddarwyd. |
| **SP10** | **Mannau Agored** | Mae'n bosibl na fydd gofyn diwygio'r polisi strategol, gan fod y materion y mae'n ymdrin â hwy yn dal yn berthnasol ac yn briodol. |
| OS1 | Darparu Mannau Agored | Mae angen diwygio'r Polisi hwn, oherwydd bu newidiadau i safon FIT, y bydd angen i adolygiad eu hystyried. Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd angen cynnwys y gofyn am Seilwaith Werdd yn y Polisi hwn, os nad yw wedi'i gynnwys yn rhywle arall. Ar ben hynny, mae angen rhai newidiadau mewn ymateb i sylwadau Gweithgor y Swyddogion er mwyn gwella eglurder. |

| Cyf. y Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| OS2 | Amddiffyn Mannau Agored sydd eisoes yn Bodoli | Ymddengys bod y polisi'n gweithio'n gymharol dda ar y cyfan, gallai fod angen rhywfaint o ddiwygio i sicrhau eglurder pellach, ond dylid ei gario ymlaen i'r Cynllun newydd. Ar ben hynny, mae angen rhai newidiadau mewn ymateb i sylwadau Gweithgor y Swyddogion er mwyn gwella eglurder. |

## Tabl A.0.4 Polisïau Pynciol yr Economi

| Cyf. y Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| **SP11** | **Twf Cyflogaeth** | Bydd y polisi'n cael ei adolygu yn unol â'r asesiad economaidd a ddiweddarwyd er mwyn sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu strategaeth y cynllun. |
| EC1 | Dyraniadau Cyflogaeth | Adolygu er mwyn canfod y galw disgwyliedig am arwynebedd llawr cyflogaeth sy'n ofynnol i gyflawni'r strategaeth. Adolygu'r dyraniadau cyflogaeth i benderfynu a yw'r dyraniadau'n gyflawnadwy ac yn ddichonadwy. |
| EC2 | Ardaloedd Cyflogaeth Presennol | Adolygu er mwyn canfod y galw disgwyliedig am arwynebedd llawr cyflogaeth sy'n ofynnol i gyflawni'r strategaeth. Ystyried a oes angen amddiffyn yr holl ardaloedd cyflogaeth a restrir ar sail casgliadau'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth. |
| EC3 | Defnyddiau Ardal Gyflogaeth | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Ystyried rhai mân addasiadau i wella eglurder ac ystyried a oes modd cyfuno polisïau EC3 ac EC4. |
| EC4 | Amddiffyn Defnyddiau Cyflogaeth Presennol | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Yn dilyn sylwadau gan Weithgor y Swyddogion, ystyried rhai mân newidiadau i wella eglurder ac ystyried a oes modd cyfuno polisïau EC3 ac EC4. |
| EC5 | Defnyddiau Cyflogaeth yn y Cymoedd | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Ystyried rhai mân newidiadau i wella eglurder, mewn ymateb i sylwadau Gweithgor y Swyddogion. |
| EC6 | Unedau Bywyd/Gwaith | Dim ceisiadau perthnasol ers mabwysiadu'r CDLl. Ystyried a yw'r polisi yn dal yn angenrheidiol. |
| **SP12** | **Manwerthu** | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol, ac mae'r materion a gwmpasir yn dal yn berthnasol. Gall fod angen rhai mân newidiadau i adlewyrchu newidiadau i'r polisi manwerthu cenedlaethol. Bydd yr hierarchaeth fanwerthu a'r ffiniau manwerthu yn destun adolygu a newid er mwyn sicrhau bod y dynodiadau wedi'u diweddaru ac yn briodol. |
| R1 | Dyraniadau Manwerthu | Bydd gofyn newid y polisi i adlewyrchu'r asesiad diwygiedig o'r angen. |
| R2 | Cynigion mewn Canolfannau Manwerthu | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Lle bo angen, gellir gwneud rhai mân ddiwygiadau i'r polisi, sy'n ofynnol i adlewyrchu newidiadau i'r polisi manwerthu cenedlaethol. |
| R3 | Cynigion Manwerthu y tu allan i'r Canol | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Lle bo angen, gellir gwneud rhai mân ddiwygiadau i'r polisi, sy'n ofynnol i adlewyrchu newidiadau i'r polisi manwerthu cenedlaethol. |
| **SP13** | **Twristiaeth** | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| TO1 | Datblygu Twristiaeth yng Nghefn Gwlad | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Ystyried rhai mân addasiadau i wella eglurder, mewn ymateb i sylwadau Gweithgor y Swyddogion. |
| TO2 | Amddiffyn Cyfleusterau Twristiaeth Presennol | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Yn dilyn sylwadau gan Weithgor y Swyddogion, mae angen ystyried a ddylid ehangu'r polisi i gwmpasu trosi i ddefnyddiau eraill, nid rhai preswyl yn unig. |

| Cyf. y Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| TO3 | Cynllun Adfywio ar sail Twristiaeth | Nid yw'r dyraniad wedi cael ei gyflawni. Ystyried a yw'r dyraniad yn dal yn briodol ac a oes modd ei gyflawni o fewn cyfnod y cynllun, ac ystyried a oes angen dyraniadau eraill i fodloni gofynion y strategaeth. |
| TO4 | Llwybrau Cerdded a Beicio | Mae'r llwybrau a nodwyd wedi cael eu darparu. Ystyried y dyraniad o lwybrau cerdded a beicio amgen sy'n ofynnol i gyflawni'r strategaeth. |

## Tabl A.0.5 Polisïau Pynciol yr Amgylchedd ac Adnoddau

| Cyf. y Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| **SP14** | **Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu** | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| EN1 | Arfordir sydd heb ei Ddatblygu | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| EN2 | Ardaloedd Tirlun Arbennig | Gall fod angen adolygu'r polisi yng ngoleuni newidiadau polisi cenedlaethol a phenderfyniadau ynghylch ceisiadau. |
| EN3 | Lletemau Glas | Gall fod angen adolygu'r polisi yng ngoleuni penderfyniadau ynghylch ceisiadau. |
| EN4 | Anheddau Amnewid yn Ardaloedd Agored Cefn Gwlad | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| EN5 | Trawsnewid ac Estyn Adeiladau sydd Eisoes yn Bodoli yng Nghefn Gwlad | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| **SP15** | **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth** | The policy will be reviewed in the light of the on-going loss of biodiversity as a result of planning decisions. |
| EN6 | Safleoedd Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth pwysig | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| EN7 | Nodweddion Naturiol Pwysig | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| **SP16** | **Amddiffyn yr Amgylchedd** | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| EN8 | Llygredd a Sefydlogrwydd Tir | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Yn dilyn sylwadau gan Weithgor y Swyddogion, ystyried rhannu'r polisi fel bod polisïau ar wahân ar gyfer Llygredd a Sefydlogrwydd Tir er mwy gwella eglurder. |
| EN9 | Datblygiadau yn Ardal Ganolog Port Talbot | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Ystyried rhai mân newidiadau i wella eglurder, mewn ymateb i sylwadau Gweithgor y Swyddogion. |
| EN10 | Mannau Tawel | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| **SP17** | **Mwynau** | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Mae newidiadau'n ofynnol i adlewyrchu newidiadau i'r polisi mwynau cenedlaethol. |

| Cyf. y Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| M1 | Datblygu mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Mae newidiadau'n ofynnol i adlewyrchu newidiadau i'r polisi mwynau cenedlaethol. |
| M2 | Gweithrediadau Glo ar yr Wyneb | Nid oes angen y polisi hwn bellach yn sgîl newidiadau i'r polisi mwynau cenedlaethol. |
| M3 | Datblygu mewn Parthau Clustogi Mwynau | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| M4 | Meini Prawf ar gyfer Asesu Datblygu Mwynau | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Mae newidiadau'n ofynnol i adlewyrchu newidiadau i'r polisi mwynau cenedlaethol. |
| **SP18** | **Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel** | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Mae newidiadau'n ofynnol i adlewyrchu newidiadau i'r polisi ynni adnewyddadwy cenedlaethol. |
| RE1 | Meini Prawf ar gyfer Asesu Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Mae newidiadau'n ofynnol i adlewyrchu newidiadau i'r polisi ynni adnewyddadwy cenedlaethol. |
| RE2 | Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Ystyried newid y trothwy ar gyfer cyflwyno asesiadau mewn ymateb i sylwadau Gweithgor y Swyddogion. |
| **SP19** | **Rheoli Gwastraff** | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Mae newidiadau'n ofynnol i adlewyrchu newidiadau i'r polisi gwastraff cenedlaethol. |
| W1 | Cyfleusterau Trin Gwastraff oddi mewn i Adeiladau | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| W2 | Gollwng Gwastraff Anadweithiol ar Dir Amaethyddol | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| W3 | Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad Newydd | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |

## Tabl A.0.6 Polisïau Pynciol Trafnidiaeth a Mynediad

| Cyf. y Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| **SP20** | **Y Rhwydwaith Trafnidiaeth** | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Mae newidiadau'n ofynnol i adlewyrchu newidiadau i'r polisi trafnidiaeth cenedlaethol. |
| TR1 | Cynigion Trafnidiaeth | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. Mae newidiadau'n ofynnol i adlewyrchu'r ffaith bod cynlluniau wedi cael eu cwblhau. |
| TR2 | Design and Access of New Development | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| TR3 | Safeguarding of Disused Railway Infrastructure | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| TR4 | Safeguarding Freight Facilities | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |

### Tabl A.0.7 Polisïau Pynciol Diwylliant a Threftadaeth

| Policy Ref | Title | Overview |
|---|---|---|
| **SP21** | **Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol** | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| BE1 | Dylunio | Bydd y polisi'n cael ei adolygu er mwyn ystyried newidiadau mewn ymateb i sylwadau gan weithgor y swyddogion. |
| BE2 | Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| BE3 | Y Rhwydwaith Camlesi | Mae'r polisi'n gweithredu'n effeithiol. |
| **SP22** | **Yr Iaith Gymraeg** | Gall fod angen mân ddiwygiadau i'r Polisi, os nodir unrhyw Ardaloedd Ieithyddol Sensitif eraill trwy'r ymchwil. |
| WL1 | Datblygiad mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif | Bydd y Polisi'n aros, ond gall fod angen mân ddiwygiadau os oes angen addasu'r trothwyon. Gall fod angen rhai mân newidiadau mewn ymateb i sylwadau Gweithgor y Swyddogion, e.e. Yng nghyswllt trothwyon, neu gynnwys Polisi Hysbysebion / Arwyddion. |

# Atodiad B: Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd - Canfyddiadau Allweddol

**Tabl B.0.1 Canfyddiadau Monitro'r AC (Tabl Crynodeb)**

| Amcan yr AC | | Cyf. Unigol | Cyflwynwyd yn 2017 | Cyflwynwyd yn 2018 | Cyflwynwyd yn 2019 | Canfyddiad / Argymhelliad yr AC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyf | | | | | | |
| 1A | Addasu i Newid yn yr Hinsawdd | 6 | Llifogydd: cymeradwywyd 3 chais ym Mharth C2 | AMH | AMH | Cymeradwywyd rhai ceisiadau yn groes i'r polisi ym mharth llifogydd C2. Ymdriniwyd â hyn trwy hyfforddiant i swyddogion/aelodau. Dylai'r mater hwn barhau i gael ei fonitro. |
| | | 62 | AMH | AMH | Datblygiad mewn ardaloedd GW/SLA | Mae ardaloedd GW/SLA heb gael eu diogelu. Dylid adolygu'r polisïau i sicrhau bod ardaloedd/mesurau rheoli dynodedig yn briodol. |
| 1B | Lliniaru'r Newid yn yr Hinsawdd | 1 | Dwysedd ASCA - cydymffurfio ar 50% | Dwysedd ASCA - cydymffurfio ar 32% | Dwysedd ASCA - cydymffurfio ar 17% | Mae'r diffygion sylweddol (sy'n cynyddu) yn y gofynion dwysedd yn anghynaliadwy o ran adnoddau ac effaith amgylcheddol. Dylid adolygu telerau a gweithrediad y polisi. |
| | | 2 | Dwysedd ASC - cydymffurfio ar 27% | Dwysedd ASC - cydymffurfio ar 24% | VSA Density - 16% compliance | |
| | | 75 | Dim REAs wedi'u cyflwyno | AMH | 1 REA wedi'i gyflwyno | Bu diffygion sylweddol yn nifer yr REAs a gyflwynwyd, ac felly yn narpariaeth y technolegau ynni adnewyddadwy/carbon isel. Dylid adolygu telerau a gweithrediad y polisi. |
| 1C | Ynni Newid yn yr Hinsawdd | 74 | AMH | Dim cynigion Ynni Adnewyddadwy | AMH | Pryderon ynghylch nifer isel y cynigion Ynni Adnewyddadwy/Carbon Isel, er bod hynny fel petai'n gwella. Dylid adolygu'r polisi, ond ymddengys bod y polisi cenedlaethol yn newid yng nghyswllt cynigion mwy o faint. |
| | | 75 | Dim REAs wedi'u cyflwyno | AMH | 1 REA wedi'i gyflwyno | Bu diffygion sylweddol yn nifer yr REAs a gyflwynwyd, ac felly yn |

## Atodiad B: . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd - Canfyddiadau Allweddol

| Amcan yr AC: Cyf | Amcan yr AC | Cyf. Unigol | Cyflwynwyd yn 2017 | Cyflwynwyd yn 2018 | Cyflwynwyd yn 2019 | Canfyddiad / Argymhelliad yr AC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | narpariaeth y technolegau ynni adnewyddadwy/carbon isel. Dylid adolygu telerau a gweithrediad y polisi. |
| 2A | Adnoddau Naturiol | 1 | Dwysedd ASCA - cydymffurfio ar 50% | Dwysedd ASCA - cydymffurfio ar 32% | Dwysedd ASCA - cydymffurfio ar 17% | Mae'r diffygion sylweddol (sy'n cynyddu) yn y gofynion dwysedd yn anghynaliadwy o ran adnoddau ac effaith amgylcheddol. Dylid adolygu telerau a gweithrediad y polisi. |
| | | 2 | Dwysedd ASC - cydymffurfio ar 27% | Dwysedd ASC - cydymffurfio ar 24% | Dwysedd ASC - cydymffurfio ar 16% | |
| | | 62 | AMH | AMH | Datblygiadau wedi'u cymeradwyo yn GW ac SLA yn groes i'r polisi | Mae ardaloedd GW/SLA heb gael eu diogelu yn unol â'r polisi. Dylid adolygu telerau a gweithrediad y polisïau perthnasol i sicrhau bod yr ardaloedd dynodedig a'r mesurau rheoli'n briodol. |
| 3A | Colli Bioamrywiaeth | SA8 | AMH | AMH | SINC 0.15ha wedi'i golli | Nid yw'r targedau Bioamrywiaeth yn cael eu cyrraedd. Dylid adolygu telerau a gweithrediad y polisïau perthnasol i sicrhau bod yr ardaloedd dynodedig a'r mesurau rheoli'n briodol. |
| 3B | Gwelliannau Bioamrywiaeth | 12 | AMH | AMH | Ni wnaed gwelliannau bioamrywiaeth o ganlyniad i gyfraniadau datblygwyr | Ni chyflawnwyd gwelliannau bioamrywiaeth trwy'r broses gynllunio (gwybodaeth ar gael ar gyfer 2019 yn unig): Dylid adolygu telerau a gweithrediad y polisïau perthnasol i sicrhau bod yr ardaloedd dynodedig a'r mesurau rheoli'n briodol. |
| 4A | Tirlun a Threflun | 62 | AMH | AMH | Datblygiadau wedi'u cymeradwyo yn GW ac SLA yn groes i'r polisi | Mae ardaloedd GW/SLA heb gael eu diogelu yn unol â'r polisi. Dylid adolygu telerau a gweithrediad y polisïau |

| Amcan yr AC | | Cyf. Unigol | Cyflwynwyd yn 2017 | Cyflwynwyd yn 2018 | Cyflwynwyd yn 2019 | Canfyddiad / Argymhelliad yr AC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyf | | | | | | |
| | | | | | | perthnasol i sicrhau bod yr ardaloedd dynodedig a'r mesurau rheoli'n briodol. |
| 6A | Cydlyniant Cymdeithasol | 7 | Collwyd 10 cyfleuster cymunedol | Collwyd 3 chyfleuster cymunedol | AMH | Ymddengys bod effeithiolrwydd y polisi'n gwella, ond dylid ei adolygu i sicrhau bod mesurau'n cael eu defnyddio i atal colli cyfleusterau cymunedol lle bynnag y bo modd. |
| | | 10 | Cymeradwywyd 1 cais ar gyfer defnyddiau canol tref mewn lleoliad y tu allan i'r dref | Cymeradwywyd 1 cais ar gyfer defnyddiau canol tref mewn lleoliad y tu allan i'r dref | AMH | Ymddengys bod effeithiolrwydd y polisi'n gwella, ond dylid ei adolygu i sicrhau bod mesurau'n cael eu defnyddio i gefnogi cymunedau lle bynnag y bo modd. |
| | | 14 | AMH | Mae darparu tai ar safleoedd a ddyrannwyd y tu ôl i'r targedau | Mae darparu tai ar safleoedd a ddyrannwyd y tu ôl i'r targedau | Mae'r diffygion o ran darparu tai yn debygol o gael effeithiau niweidiol ar yr economi leol a'r ddarpariaeth tai fforddiadwy, ac felly gallent gael effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol. Dylid adolygu'r polisïau perthnasol i sicrhau bod y manteision o safbwynt cydlyniant cymdeithasol yn cael eu mwyafu. |
| | | 31 | AMH | Mae darparu tai ar safleoedd a ddyrannwyd yn yr ASC y tu ôl i'r targedau | Mae darparu tai ar safleoedd a ddyrannwyd yn yr ASC y tu ôl i'r targedau | |
| | | 32 | AMH | Mae darparu tai ar safleoedd a ddyrannwyd ym Mhontardawe y tu ôl i'r targedau | Mae darparu tai ar safleoedd a ddyrannwyd ym Mhontardawe y tu ôl i'r targedau | |
| | | 39 | AMH | Mae'r gwaith i ddarparu pob math o dai y tu ôl i'r targed | Mae'r gwaith i ddarparu pob math o dai y tu ôl i'r targed | |
| | | 41 | AMH | Mae'r gwaith i ddarparu tai fforddiadwy y tu ôl i'r targed | Mae'r gwaith i ddarparu tai fforddiadwy y tu ôl i'r targed | |

| Amcan yr AC: Cyf | Amcan yr AC | Cyf. Unigol | Cyflwynwyd yn 2017 | Cyflwynwyd yn 2018 | Cyflwynwyd yn 2019 | Canfyddiad / Argymhelliad yr AC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 46 | Ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer darparu mannau agored yn llawn | Ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer darparu mannau agored yn llawn | Ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer darparu mannau agored yn llawn | Mae'r diffygion yn y ddarpariaeth mannau agored yn debygol o gael effeithiau negyddol ar gydlyniant cymdeithasol. Dylid adolygu'r polisïau perthnasol i sicrhau bod y manteision yn cael eu mwyafu. |
| | | 52 | AMH | Ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer darparu arwynebedd llawr cyflogaeth newydd yn llawn | Ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer darparu arwynebedd llawr cyflogaeth newydd am ddwy flynedd yn olynol | Mae'r diffygion yn y ddarpariaeth arwynebedd llawr cyflogaeth yn debygol o gael effeithiau negyddol ar gydlyniant cymdeithasol. Dylid adolygu'r polisïau perthnasol i sicrhau bod y manteision yn cael eu mwyafu. |
| | | 58 | AMH | AMH | Ni chymeradwywyd unrhyw gynigion manwerthu lleol ar raddfa fach | Mae'r diffyg darpariaeth manwerthu lleol ar raddfa fach yn debygol o gael effaith negyddol ar gydlyniant cymdeithasol. Dylid adolygu'r polisïau perthnasol i sicrhau bod y manteision yn cael eu mwyafu. |
| 7A | Canlyniadau o ran iechyd corff a meddwl | 7 | Collwyd 10 cyfleuster cymunedol | Collwyd 3 chyfleuster cymunedol | AMH | Ymddengys bod effeithiolrwydd y polisi'n gwella, ond dylid ei adolygu i sicrhau bod mesurau'n cael eu defnyddio i leiafu'r effeithiau niweidiol lle bynnag y bo modd. |
| | | 46 | Ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer darparu mannau agored yn llawn | Ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer darparu mannau agored yn llawn | Ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer darparu mannau agored yn llawn | Mae'r diffygion yn y ddarpariaeth mannau agored yn debygol o gael effeithiau negyddol ar ganlyniadau iechyd. Dylid adolygu'r polisïau perthnasol i sicrhau bod y manteision yn cael eu mwyafu. |
| | | 49 | AMH | Lefelau gostyngol o gyflogaeth yn y gweithle | Lefelau gostyngol o gyflogaeth yn y gweithle | Mae gostyngiadau yn lefelau cyflogaeth yn y gweithle yn debygol o gael effeithiau negyddol ar ganlyniadau iechyd. Dylid adolygu'r polisïau |

| Amcan yr AC: Cyf | Amcan yr AC | Cyf. Unigol | Cyflwynwyd yn 2017 | Cyflwynwyd yn 2018 | Cyflwynwyd yn 2019 | Canfyddiad / Argymhelliad yr AC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | perthnasol i sicrhau bod y manteision yn cael eu mwyafu. |
| | | 53 | AMH | Lefelau gostyngol o weithgaredd economaidd | AMH | Ymddengys bod y cyfraddau gweithgaredd economaidd wedi amrywio, gyda chanlyniadau cymysg tebygol ar ganlyniadau iechyd. Dylid adolygu'r polisïau perthnasol i sicrhau bod y manteision yn cael eu mwyafu. |
| 7B | Lleiafu nifer yr achosion o afiechyd a'u heffeithiau | 7 | Collwyd 10 cyfleuster cymunedol | Collwyd 3 chyfleuster cymunedol | AMH | Ymddengys bod effeithiolrwydd y polisi'n gwella, ond dylid ei adolygu i sicrhau bod mesurau'n cael eu defnyddio i leiafu'r effeithiau niweidiol lle bynnag y bo modd. |
| | | 46 | Ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer darparu mannau agored yn llawn | Ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer darparu mannau agored yn llawn | Ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer darparu mannau agored yn llawn | Mae'r diffygion yn y ddarpariaeth mannau agored yn debygol o gael effeithiau negyddol ar iechyd. Dylid adolygu'r polisïau perthnasol i sicrhau bod y manteision yn cael eu mwyafu. |
| | | 49 | AMH | Lefelau gostyngol o gyflogaeth yn y gweithle | Lefelau gostyngol o gyflogaeth yn y gweithle | Mae gostyngiadau yn lefelau cyflogaeth yn y gweithle yn debygol o gael effeithiau negyddol ar iechyd. Dylid adolygu'r polisïau perthnasol i sicrhau bod y manteision yn cael eu mwyafu. |
| 36 | Mr Mark Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru (HBF Wales) | Strategaeth Twf | 7.2 | Paragraff 7.2.19 Nid yw HBF yn cytuno bod modd i'r Cyngor ddweud yn syml, ar sail y dystiolaeth yn yr adroddiad, nad oes modd cario'r lefel bresennol o dwf ymlaen. Ym marn aelodau HBF mae galw am dai newydd yn yr ardal, ond mae eu hymdrechion i ddarparu'r cartrefi newydd hyn wedi cael eu llesteirio oherwydd nad yw'r safle a ddyrannwyd wedi bod ar gael, yn arbennig safle mawr strategol Coed Darcy, y mae'r cynllun yn dibynnu'n drwm arno. Yn y ddogfen hon mae'r Cyngor yn cyfaddef bod nifer o resymau pam nad yw safleoedd wedi bod ar gael, ond nid ydynt wedyn yn derbyn bod hynny wedi effeithio ar y cyfraddau cyflawni blynyddol. Nid defnyddio'r cyfraddau cyflawni isel i gyfiawnhau'r awgrym i ostwng y gofynion tai yn y CDLl diwygiedig yw'r ffordd i gynllunio ar gyfer y dyfodol, yn enwedig pan fo'r strategaeth ehangach yn cynllunio ar gyfer twf economaidd. | Mae paragraff 7.2.19 yn datgan nad oes modd cario'r gofynion tai na'r dyraniadau presennol ymlaen i'r cynllun newydd, ac y bydd angen eu hystyried o'r newydd. Mae'r cyflawniad o ran tai wedi gostwng yn sylweddol is na'r targed, ac felly ni fyddai'r Cyngor yn gallu parhau â gofyniad tai uchel nad oedd yn cael ei gyflawni, ac mae angen asesu'r dystiolaeth ddiweddaraf er mwyn pennu dyraniad tai addas, cadarn a seiliwyd ar dystiolaeth. Ar ben hynny, bydd angen ailasesu'r dyraniadau presennol, i benderfynu a yw'r safleoedd hyn yn ddichonadwy ac a oes modd eu cyflawni oddi mewn i gyfnod y cynllun, neu a ddylid eu dad-ddyrannu i wneud lle ar gyfer opsiynau amgen y gellir eu cyflawni. Mae'r Cyngor felly o'r farn bod angen ailasesu'r Strategaeth Twf a'r dyraniadau tai fel rhan o'r adolygiad. |

| ID | Enw | Sefydliad | Adran | Para | Sylw a Gyflwynwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 57 | Mr Peter Horsley | | Strategaeth Twf | 7.2 | Ydy'r Strategaethau Twf a Gofodol presennol yn dal yn briodol ar gyfer y cynllun Diwygiedig?<br><br>Dylai'r sylfaen o dystiolaeth adolygu pam mae'r economi wedi "bod yn ddisymud" yn yr ardal a chynnig ffyrdd o ymdrin â hynny. | Nodir y sylw a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r sylfaen o dystiolaeth wedi'i diweddaru ar gyfer y CDLl Amnewid. |
| 60 | Mr Peter Horsley | | Strategaeth Twf | 7.2 | A oes unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r Adroddiad Adolygu Drafft?<br><br>Paragraff 7.2.17 – Mae'r paragraff hwn yn datgan "bod nifer o resymau pam nad yw safleoedd (tai) wedi bod ar gael fel y rhagwelwyd". Dylai'r sylfaen o dystiolaeth i gefnogi'r cynllun ystyried yn fanwl pam mae hyn wedi digwydd a nodi ffyrdd o unioni hyn, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cyflawni ei amcanion. | Nodir y sylw. Bydd sylfaen dystiolaeth y CDLl Amnewid yn ystyried pam nad yw safleoedd tai wedi bod ar gael, ac yn ailasesu dyraniadau i benderfynu a oes modd eu cyflawni. Bydd lefel y twf hefyd yn cael ei adolygu i benderfynu a yw'n dal yn briodol. |
| 25 | Mrs D Phillips | Cyngor Tref Pontardawe | Strategaeth Ofodol | 7.3 | Cafodd Strategaeth Cymoedd y Gorllewin lawer iawn o fewnbwn o Bontardawe a'r gymuned leol ar y cychwyn, ond ni roddwyd fawr ddim adborth ar y pryd, ac nid ymddengys bod y cynllun wedi rhoi sylw i'w barn. | Bu strategaeth y CDLl o atgyfnerthu'r cymoedd yn rhoi sylw i'r holl raglenni a strategaethau perthnasol yn yr ardal, gan gynnwys Strategaeth Cymoedd y Gorllewin. Gan fod y Strategaeth hon yn awr wedi dod i ben, bydd y cynllun amnewid yn ystyried unrhyw waith perthnasol sydd eisoes yn digwydd yn yr ardal, ac yn ymgynghori â'r gymuned a sefydliadau partner ar hyd y broses o baratoi'r cynllun. |
| 37 | Mr Mark Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru (HBF Wales) | Strategaeth Ofodol | 7.3 | Paragraff 7.3.11 Dylai'r paragraff hwn gynnwys rhyw arwydd o'r terfynau amser sy'n debygol yng nghyswllt seilwaith y metro arfaethedig. Dealltwriaeth HBF yw bod hyn yn annhebygol o ddigwydd yn y dyfodol agos, felly mae'n annhebygol y bydd yn cael effaith sylweddol ar flynyddoedd cyntaf y cynllun. | Nid oes eglurhad o hyd ynghylch amseru Metro Abertawe. |
| 38 | Mr Mark Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru (HBF Wales) | Ailystyried y Strategaeth | 7.4 | Paragraffau 7.4.1 - 7.4.3 Yma nodir llawer o ffactorau negyddol a rhesymau pam dylid ystyried gostwng nifer y tai a symud i ffwrdd oddi wrth strategaeth ar sail economaidd. Fodd bynnag, er bod sôn am y Fargen Ddinesig, nid yw'r geiriad mewn gwirionedd yn ei nodi fel rheswm cadarnhaol pam gallai strategaeth twf ar sail economaidd | Mae'r adran hon yn datgan, oherwydd nad yw'r cynllun wedi cyflawni nifer o'i amcanion, bod angen ailystyried y strategaeth er mwyn penderfynu a yw strategaeth ar sail economaidd yn dal yn briodol, neu a ddylid ystyried strategaethau |

| ID | Enw | Sefydliad | Adran | Para | Sylw a Gyflwynwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | fod yn fwy perthnasol / angenrheidiol nawr. Mae HBF yn gofyn am esbonio rôl y Fargen Ddinesig yn well yn y ddogfen. | amgen. Yng nghyd-destun canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol, mae'r Cyngor o'r farn y dylid adolygu'r strategaeth, i gymryd y dystiolaeth ddiweddaraf i ystyriaeth, ac felly teimlir bod y geiriad a ddefnyddiwyd yn briodol. |
| 39 | Mr Mark Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru (HBF Wales) | Ailystyried y Strategaeth | 7.4 | Paragraff 7.4.5 Dylid newid y geiriad i'w wneud yn fwy eglur y bydd safleoedd H1 presennol a ddyrannwyd sydd heb fod ar gael hyd yma a lle na ellir darparu tystiolaeth eu bod yn ddichonadwy a bod modd eu cyflawni yn ystod cyfnod nesaf y cynllun, yn cael eu tynnu o'r cynllun, yn hytrach na'u "cario ymlaen", sef yr ymrwymiad sydd wedi digwydd yn draddodiadol gyda chynlluniau yng Nghymru. | Mae'r paragraff yn datgan y bydd safleoedd presennol yn cael eu hailasesu, ac y bydd y pwyslais cynyddol ar ddichonoldeb yn golygu y gallai rhai safleoedd gael eu dad-ddyrannu, a safleoedd newydd eu cynnwys. Mae'r Cyngor yn barnu bod hyn yn dangos yn eglur na fydd safleoedd presennol yn cael eu 'cario ymlaen', a bydd yn pwysleisio hynny wrth alw am safleoedd ymgeisiol. |
| 7 | Mrs Jane Hennell | Glandŵr Cymru | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Seilwaith<br><br>Mae Glandŵr Cymru (The Canal & River Trust yng Nghymru) yn croesawu'r adolygiad o'r polisi seilwaith ac yn cytuno bod angen darparu mwy o eglurder ynghylch ei ddiffiniadau. Rydym yn arbennig yn croesawu'r angen am ystyried ffurfiau eraill, megis Seilwaith Werdd. Byddem ni'n croesawu cael ein cynnwys yn yr adolygiad o'r CDLl, gan y dylid ystyried Camlas Tawe a'i lwybr halio fel seilwaith werdd sydd â sawl swyddogaeth. | Croesawir y gefnogaeth i adolygu'r polisi seilwaith a seilwaith werdd. Bydd y gwaith o baratoi'r CDLl Amnewid yn cynnwys asesu Seilwaith Werdd ar draws y Fwrdeistref Sirol, a'r cyfleoedd i'w defnyddio. |
| 10 | Mrs Jane Hennell | Glandŵr Cymru | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Seilwaith<br><br>Gofynnwn hefyd am ystyried effaith datblygu ar y seilwaith bresennol, a chytuno ar fesurau lliniaru lle bo hynny'n briodol. Gallai datblygu newydd olygu bod angen darparu seilwaith newydd, ond mae'n bwysig ystyried ei effaith ar y seilwaith bresennol er mwyn sicrhau nad yw cyfleusterau presennol yn cael eu diraddio o ganlyniad i ddefnydd cynyddol ar ôl datblygu gerllaw. | Wrth baratoi'r CDLl Amnewid, byddwn yn asesu'r effaith ar y seilwaith bresennol ac yn ystyried yr angen am liniaru. |
| 11 | Mrs Jane Hennell | Glandŵr Cymru | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Polisi SP16<br><br>Mae Glandŵr Cymru yn croesawu'r adolygiad o Bolisi Diogelu'r Amgylchedd, SP 16. Mae'r cynnig i wahanu sefydlogrwydd tir a llygredd yn ddau faes pwnc yn ymddangos | Nodir y gefnogaeth i wahanu sefydlogrwydd tir a llygredd ym Mholisi SP16. Bydd asesiad trylwyr o'r safleoedd ymgeisiol yn ymdrin â'r pryderon a godwyd. |

| ID | Enw | Sefydliad | Adran | Para | Sylw a Gyflwynwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | yn gall. Dylai fod gofyn bod datblygwyr yn rhoi sylw priodol i'r risg sy'n gysylltiedig â datblygu mewn ardaloedd sy'n dioddef effaith ansefydlogrwydd tir neu lygredd, a chynnwys mesurau lliniaru cadarn cyn penderfynu arnynt.<br><br>Rydym yn awgrymu bod pob safle'n cael ei adolygu, cyn ei ddyrannu, mewn perthynas â'r materion hyn oherwydd effaith bosibl costau adfer ar ddichonoldeb, ac yn sgîl hynny ar gyflawnadwyedd. | |
| 12 | Mrs Jane Hennell | Glandŵr Cymru | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | SP 18<br><br>Mae Glandŵr Cymru yn nodi bod y polisi ar hyn o bryd yn ymwneud yn bennaf â phŵer gwynt a solar. Gellir defnyddio dŵr i wresogi ac oeri datblygiadau newydd, neu i gynhyrchu trydan trwy gynlluniau pŵer trydan a dŵr. Dylid cynnwys y ffynonellau hyn fel opsiynau mewn astudiaethau ar botensial ynni adnewyddadwy. | Nodir y sylw. Bydd Asesiad Ynni Adnewyddadwy (AYA) yn cael ei gynnal fel rhan o'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer y CDLl Amnewid. |
| 9 | Mr Vic Price | | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Mae'r Ddogfen Adolygu yn diystyru pwysigrwydd safleoedd bychain, 3/5 uned yr un ar gyfer tai neilltuol yn y ddarpariaeth dai. Bydd y rhain yn ychwanegu amrywiaeth at y stoc tai newydd sydd ar gael yn yr ardal. Mae angen iddynt fod yn union yn ymyl ardaloedd preswyl presennol, yn agos at lwybrau bysiau, ac o fewn cyrraedd rhesymol i'r rhwydwaith rheilffyrdd, eisoes yn cael eu gwasanaethu gan briffordd gyfagos a fabwysiadwyd, a chyda phob gwasanaeth ar gael; mae angen iddynt fod mewn lleoliad a allai gael ei dirweddu'n helaeth, ond gyda golygfeydd da, ac eto'n gallu cael eu tirweddu fel eu bod bron yn anweladwy o briffyrdd cyfagos a fabwysiadwyd. Er enghraifft byddai tir fy nghleient, rhan o'r tir o amgylch ei gartref, "The Old Stables" Broomhill, yn ddelfrydol ar gyfer hyn, er bod y Cyngor yn berchen ar ran o'r tir y mae'n ei feddiannu, felly er mwyn cyflwyno'r safle hwn (er nad yw mewn gwirionedd yn fater cynllunio) bydd angen caniatâd y Cyngor fel perchennog y tir i fod yn barti i unrhyw werthiant. | Nodir y sylw. Mae'r tai a gyflwynwyd fel rhan o'r CDLl wedi cael eu cyflwyno ar amrywiaeth o safleoedd, o ddatblygiadau tai mawr ar dir a ddyrannwyd ym Mholisi H1, i safleoedd bach a rhai annisgwyl. Cydnabyddir felly y dylai'r cyflenwad o dai gynnwys amrywiaeth o elfennau er mwyn sicrhau bod tir digonol i ddiwallu anghenion yr ardal dros gyfnod y cynllun a chaniatáu dewis ar gyfer adeiladwyr tai a phrynwyr tai.<br><br>Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Amnewid, bydd cyfle i berchnogion tir gyflwyno safleoedd i'w hystyried (yn ystod yr 'Alwad am Safleoedd Ymgeisiol'). |

| ID | Enw | Sefydliad | Adran | Para | Sylw a Gyflwynwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Mrs Jane Hennell | Glandŵr Cymru | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | SP 20 a 21<br><br>Mae'r testun yn esbonio bod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i gynhyrchu mapiau teithio llesol a chyflawni gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn yn y llwybrau a'r cyfleusterau teithio llesol.<br><br>Gall unrhyw gynigion newydd neu ddiwygiedig ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol, yn arbennig cerdded a beicio, gael eu hystyried ar gyfer diogelu trwy broses adolygu'r CDLl, lle maent yn rhan o raglen yn cael eu cefnogi gan gyllid ac yn debygol o gael eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun.<br><br>Mae Polisi BE3, sy'n rhan o SP21, yn ymwneud â diogelu camlas Tawe. Awgrymodd y swyddogion nad oedd angen adolygu'r polisi. Er bod hyn yn gywir o bosib yng nghyswllt y gamlas ei hun, dylid manteisio ar y cyfle i ystyried a ddylid ehangu'r polisi i adlewyrchu newidiadau eraill arfaethedig i'r cynllun ac a ddylid diogelu'r llwybr halio yn ogystal. Nodir bod polisïau eraill megis Polisïau Strategol 8 a 10, sy'n ymwneud â mannau agored a seilwaith, hefyd yn berthnasol, yn ogystal â pholisi SP20. Mae rhan o'r llwybr halio yn Llwybr Beicio Cenedlaethol (NCN) 43, ac mae adrannau ohono'n cael eu gwella ar hyn o bryd o ganlyniad i gyllid Teithio Llesol.<br><br>Ar hyn o bryd nid yw Polisi BE3 yn cyfeirio at y manteision y gall llwybr halio'r gamlas eu cynnig i'r ardal trwy gysylltu ardaloedd preswyl, darparu manteision iechyd a llesiant, mynediad at gyfleoedd hamdden ar y tir a'r dŵr, nac yn ei gydnabod fel llwybr trafnidiaeth cynaliadwy. Wrth i Deithio Llesol a Seilwaith Werdd gael mwy o gydnabyddiaeth yn y cynllun, oni ddylid ehangu Polisi BE3 i fod yn fwy na pholisi diogelu'n unig? Mae'r gamlas a'r llwybr halio yn un o'r enghreifftiau gorau o seilwaith werdd aml-swyddogaeth yn y fwrdeistref ac eisoes yn cael eu cydnabod yn rhannol fel llwybr teithio llesol. Dylid adolygu ac addasu Polisi BE3 i adlewyrchu hyn. | Nodir y sylwadau a byddant yn cael eu hystyried wrth baratoi'r CDLl Amnewid. Bydd datblygu perthynas gliriach rhwng Teithio Llesol, Seilwaith Werdd a'r llesiant a geir o ddefnyddio mannau agored / mannau gwyrdd naturiol hygyrch yn thema allweddol yn y CDLl Amnewid. |

| ID | Enw | Sefydliad | Adran | Para | Sylw a Gyflwynwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Mr Vic Price | | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Mae'r ddogfen Adolygu yn methu â dyrannu safleoedd penodol ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae'r flaenoriaeth a roddir i ddefnydd o'r fath yn nogfen yr adroddiad adolygu i'w chroesawu, ond byddai'n gryfach o nodi safleoedd penodol, yn arbennig yn achos ynni solar. Mae'r safleoedd gorau yn wynebu i'r de ac ar dir sydd ar y cyrion mewn ystyr amaethyddol, yn rhyw 30 erw neu fwy ac yn agos at bwyntiau cyswllt trydanol, ac yn gallu cael eu tirweddu fel nad oedd modd eu gweld o dai. Mae fy nghleient yn berchen ar safle 40 (erw?) i'r gorllewin o Bryn a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer defnydd o'r fath. | Nid diben yr Adroddiad Adolygu yw dyrannu safleoedd penodol. Dyma gam cyntaf proses adolygu'r CDLl. Mae'r Adroddiad hwn yn adolygu'r CDLl presennol ac yn asesu a fu'r strategaeth a'r polisïau yn llwyddiannus neu a fydd angen strategaeth a pholisïau newydd (yn sgîl nifer o ffactorau) ar gyfer y CDLl Amnewid (RLDP).<br><br>O ran safleoedd penodol ar gyfer ynni adnewyddadwy, bydd cyfle i berchnogion tir gyflwyno safleoedd yn ystod yr 'Alwad am Safleoedd Ymgeisiol', a fydd yn cael ei hystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLlA. |
| 21 | Rhian Isaac | Cyfoeth Naturiol Cymru | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Ydy Adolygiadau'r Meysydd Pwnc yn nodi'r Polisïau sy'n debygol o fod angen eu diwygio?<br><br>Nodwn y crynodeb o adolygiad Polisi arfaethedig y CDLl, sy'n cyfeirio at newidiadau posibl i bolisïau:<br><br>SP1 – Newid yn yr Hinsawdd<br><br>SP4 – Seilwaith – rydym ni'n cefnogi cynnwys seilwaith werdd<br><br>SP10 – Mannau Agored – rydym ni'n cefnogi'r angen am ddyrannu tir ar gyfer mannau agored<br><br>SP14 – Cefn Gwlad a'r Arfordir heb ei Ddatblygu<br><br>SP15 – Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth – gan mai prif ganfyddiad yr adroddiadau monitro blynyddol yw'r golled net barhaus yng nghyswllt bioamrywiaeth, rydym yn awgrymu'n bendant y dylid cryfhau'r polisi hwn<br><br>SP16 – Amddiffyn yr Amgylchedd<br><br>SP18 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel<br><br>SP19 – Rheoli Gwastraff | Nodir y sylw. Mae'r cyd-destun Polisi Cenedlaethol wedi newid gyda chyflwyno Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), a fydd yn cael eu hystyried yn llawn wrth baratoi'r CDLl Amnewid. |

| ID | Enw | Sefydliad | Adran | Para | Sylw a Gyflwynwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Carem ategu'r newid sylfaenol i gynnal a gwella o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd, y mae angen rhoi sylw iddo wrth Adolygu'r CDLl. Ar ben hynny, rydym am ategu'r ffocws at gydnerthedd ecosystemau, sy'n un o nodau allweddol Egwyddorion Cynaliadwyedd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sydd hefyd angen sylw fel rhan o Adolygiad y CDLl. | |
| 50 | Tata Steel | | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Cwestiwn 5; Ydy Adolygiadau'r Meysydd Pwnc yn nodi'r Polisïau sy'n debygol o fod angen eu diwygio?<br><br>Polisi Strategol 11 Twf Cyflogaeth<br><br>Mae paragraff 8.4.1.7 o Adroddiad Adolygu'r CDLl yn nodi'r potensial ar gyfer cyfuno polisïau presennol EC3 (Defnyddiau Tir Cyflogaeth) ac EC4 (Diogelu Defnyddiau Tir Cyflogaeth Presennol) yn un polisi sy'n cwmpasu'r ddwy elfen. Y bwriad yw darparu eglurder ac annog datblygiad trwy wneud hyn.<br><br>Mae Tata Steel yn cefnogi cyfleoedd i annog datblygiad economaidd yn y rhanbarth. Nid yw'n cytuno y dylid cyfuno'r polisïau. Mae polisïau EC3 ac EC4 fel ei gilydd yn berthnasol iawn i unrhyw ddatblygiad sy'n digwydd yn y gwaith dur. Gallai unrhyw newidiadau polisi fod â goblygiadau ar gyfer dyfodol y safle. Byddai Tata Steel yn croesawu'r cyfle i ymwneud yn uniongyrchol a bod yn rhan o'r ymgynghori ar unrhyw newidiadau polisi arfaethedig ar y cyfle cynharaf.<br><br>Dylai unrhyw newidiadau neu gyfuniadau o bolisïau presennol EC3 ac EC4 barhau i gydnabod y canlynol;<br><br>• Bydd y cyfleusterau a'r gwasanaethau ategol sy'n briodol ar safle Tata Steel yn wahanol i ddefnyddiau cyflogaeth cyffredinol eraill. Dylid cadw'r hyblygrwydd sydd i'w weld ar hyn o bryd ym mharagraff ategol 5.2.22 yn y CDLl a fabwysiadwyd mewn unrhyw bolisi yn y dyfodol. Bydd hyn yn parhau i gefnogi buddsoddiad ac | Nodir y sylwadau. Nododd yr Adroddiad Adolygu rai meysydd yn y cynllun lle gallai fod angen mwy o eglurder. Yn ystod Gweithgor y Swyddogion, awgrymwyd y gallai polisïau cyflogaeth EC3 ac EC4 gael eu cyfuno, neu eu hailysgrifennu i sicrhau bod mwy o eglurder ynghylch eu defnydd a sut maen nhw'n cael eu dehongli. Byddai unrhyw newidiadau posibl yn rhoi ystyriaeth lawn i'w defnydd, ac ni fyddai bwriad i lesteirio datblygiad economaidd nac atal ardaloedd cyflogaeth rhag dal i weithredu. Bydd yr adolygiad polisi, fel rhan o'r CDLl Amnewid, yn rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw newidiadau polisi a'u heffeithiau. |

| ID | Enw | Sefydliad | Adran | Para | Sylw a Gyflwynwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | arallgyfeirio yn y gwaith dur.<br><br>• Diogelu'r gwaith dur a thir cysylltiedig fel ardal gyflogaeth arwyddocaol sydd eisoes yn bodoli. | |
| 51 | Tata Steel | | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Polisi Strategol 16 – Amddiffyn yr Amgylchedd<br><br>Mae paragraff 8.5.4.3 o Adroddiad Adolygu'r CDLl yn dweud y gellid rhannu Polisi presennol EN8 yn bolisïau ar wahân ar gyfer llygredd a sefydlogrwydd tir. Mae'r paragraff hwn hefyd yn amlygu y bydd cysylltiadau rhwng y gofyn bod datblygiadau newydd yn cynnwys systemau draenio cynaliadwy (SAB) a meini prawf ansawdd dŵr ym mholisi presennol EN8 yn cael eu cymryd i ystyriaeth.<br><br>Mae Gwaith Dur Tata Steel ym Mhort Talbot yn safle diwydiant trwm mawr gyda system ddraenio breifat sydd eisoes yn bodoli. Gall y draenio sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad ar y safle amrywio'n fawr, mae'n aml yn cael ei greu'n arbennig, ac nid yw'n cyfateb i'r dull o ymdrin â draenio a welid ar lawer o fathau “nodweddiadol” o ddatblygiadau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mewn llawer o achosion nid yw'r lefelau blaenoriaeth uchaf a nodir yn Safon S1 yn ymarferol nac yn ddichonadwy. Mae Tata Steel wedi bod yn cydweithio'n agos â thîm SAB CBSCNPT ar nifer o brosiectau i sicrhau draeniad priodol a chymeradwyaeth SAB.<br><br>Ni ddylai unrhyw gysylltiadau a wneir rhwng SAB a meini prawf ansawdd dŵr Polisi EN8 osod gofynion anymarferol nac annichonadwy ar safleoedd diwydiant trwm Castell-nedd Port Talbot. Gallai gwneud hynny gyfyngu ar ddatblygiadau economaidd pellach yn y rhanbarth, a bod â goblygiadau ar gyfer hynny. Byddai hyn yn groes i nodau Polisïau presennol EC3 ac EC4. Byddai Tata Steel yn barod i weithio gyda CBSCNPT ar eiriad unrhyw bolisi yn y dyfodol. | Nodir y sylwadau. Cydnabyddir bod gweithrediadau TATA yn unigryw ac na fyddai bwriad i unrhyw newidiadau polisi gyfyngu arnynt. Wedi dweud hynny, byddai angen i unrhyw newidiadau polisi yn y dyfodol sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Cenedlaethol a gofynion SAB. |
| 53 | Tata Steel | | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Polisi Strategol 18 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel | Nodir y sylwadau, ac mae'r gwaith mae TATA yn ei wneud yn cael ei gydnabod a'i gefnogi. Byddwn yn |

| ID | Enw | Sefydliad | Adran | Para | Sylw a Gyflwynwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae paragraff 5.0.37 yn cyfeirio at y drafft diweddar o'r Strategaeth Dadgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DRES), ac yn nodi y bydd strategaeth / cynllun gweithredu yn cael ei gyhoeddi'n fuan i gyflwyno fframwaith ar gyfer dyheadau lleihau ôl-troed carbon. Bydd y CDLl amnewid yn allweddol i hwyluso gweithrediad y strategaeth.<br><br>Mae Tata Steel yn rhan greiddiol o Glwstwr Diwydiannol De Cymru, ac yn arwain y ffordd ar ddiwydiant cynaliadwy yn y rhanbarth, gan gynnwys datblygu prosiectau dadgarboneiddio rhanbarthol, effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu pŵer carbon isel. Mae'r DRES ddrafft yn cydnabod y gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda'r Cyngor i ddatblygu mathau cynaliadwy o ynni ar safle Port Talbot. Byddai Tata Steel yn ddiolchgar am gael ymwneud â'r Cyngor yn gynnar i drafod a chynorthwyo gydag unrhyw newidiadau i'r polisïau ynni adnewyddadwy presennol a'r cynllun gweithredu ar gyfer y DRES. | ymgynghori â TATA ym mhob cyfnod o baratoi'r cynllun, yn unol â'r Cytundeb Cyflawni. |
| 4 | Mrs Chris Thomas | | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Ymddengys nad yw'r adolygiad hwn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dyfodol y busnes a enwir uchod (Parc Busnes Glyn-nedd). | Mae'r Adroddiad Adolygu yn cyfeirio at berfformiad a chyflawni safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl presennol. Fel rhan o'r broses Adolygu, bydd nifer o astudiaethau sylfaen o dystiolaeth yn cael eu cynnal, gan gynnwys fel asesiad o'r gofynion cyflogaeth yn y dyfodol ac Adolygiad o Dir Cyflogaeth, er mwyn canfod faint o dir cyflogaeth fydd yn ofynnol yn ystod cyfnod y cynllun amnewid a'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiad o'r fath. Unwaith byddwn wedi cael hyd i'r opsiynau hynny, byddant yn destun ymgyngoriadau cyhoeddus yn y dyfodol. |
| 5 | Mr Rob Bowen | | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Cyflenwad Tir; Nodir bod y cyflenwad tir wedi syrthio o dan 5 mlynedd, ac felly y bernir bod angen tir ychwanegol i ddarparu anheddau.<br><br>Oddi mewn i'r CDLl mae safleoedd bychain i ddarparu 180 o anheddau, sef 9.4% o'r cyfanswm cyffredinol. | Nodir y sylw. Mae'r Adroddiad Adolygu yn cydnabod bod datblygu ar safleoedd mawr wedi syrthio o dan y targedau a nodwyd yn y fframwaith monitro. Bydd lefel y twf, a'i |

| ID | Enw | Sefydliad | Adran | Para | Sylw a Gyflwynwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | I'w roi'n syml, felly, am bob 1 annedd ar safle bychan dylid adeiladu 10 ar safleoedd mwy. Fodd bynnag, ers 2013, safleoedd bychain sydd wedi darparu 14% o'r holl dai, ac yn ystod y 2 flynedd diwethaf, o'r 447 o anheddau a gwblhawyd, roedd 89 (20%) ar safleoedd llai.<br><br>Byddai'r dystiolaeth hon yn awgrymu bod safleoedd llai yn cael eu cyflawni'n gyflymach. Mae hefyd yn debygol eu bod yn cael eu cyflawni gan ddatblygwyr lleol sy'n cadw mwy o incwm yn yr economi leol. O ganlyniad, bernir y dylid rhoi mwy o bwyslais ar safleoedd llai wrth ddyrannu safleoedd ychwanegol. | ddosbarthiad, yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses adolygu.<br><br>Bydd dyrannu safleoedd tai rhwng safleoedd mawr a safleoedd bach yn rhan allweddol o broses adolygu'r CDLl. Does dim angen cymryd camau pellach. |
| 6 | Mr Rob Bowen | | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Dwysedd BE1 (Dylunio) Er y cydnabyddir bod angen darparu mwy o dai, bernir bod gofynion BE1 yn rhy haearnaidd. Mae'r polisi yn cyfyngu ar y gallu i newid i fyny i dŷ mwy o faint, darparu amrywiaeth o dai, ac yn gosod cyfyngiadau diangen ar safleoedd bach. Bernir felly y dylid adolygu'r polisi, gyda golwg ar ei gymhwyso i safleoedd, er enghraifft, ar draws ardal benodol. | Nodir y sylw. Defnyddir gofynion dwysedd Polisi BE1 i sicrhau bod tir yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, gan gydnabod ei fod yn adnodd prin.<br><br>Fel rhan o'r broses adolygu, bydd y gofynion dwysedd yn cael eu hadolygu i weld a ydynt yn dal yn briodol. |
| 41 | Mr Mark Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru (HBF Wales) | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Paragraff 8.1.4.6 Mae HBF yn gwrthwynebu'r awgrym bod tai fforddiadwy yn angen seilwaith. Yn wahanol i seilwaith arall fel ffyrdd, neu ysgolion, nid yw cartrefi newydd yn creu angen am dai fforddiadwy, mae'r angen eisoes yn bodoli, ac mae gofyn bod datblygwyr yn cyfrannu at y cyflenwad tai fforddiadwy yn ofyniad polisi sy'n amodol ar ystyried dichonolrwydd y cynllun. | Mae Polisi I1 'Gofynion Seilwaith', yn rhestru'r mathau o seilwaith bydd angen i ddatblygiadau newydd eu hystyried. Mae tai fforddiadwy yn cael eu cynnwys yn y polisi hwn, ac felly mae'r Cyngor o'r farn bod geiriad 8.1.4.6 yn gywir.<br><br>Mae Polisi I1 yn bolisi trosfwaol y mae polisi strategol SP8 Tai Fforddiadwy a pholisïau sy'n seiliedig ar bynciau Tai Fforddiadwy yn llifo ohono, ac yn pennu'r gofynion polisi penodol. |
| 42 | Mr Mark Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru (HBF Wales) | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Paragraff 8.3.1.2 Eto mae HBF o'r farn nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng gofynion tai a chreu lleoedd, felly dylid dileu'r cyfeiriad at hynny yn yr adran hon o'r adroddiad. | Yng nghyd-destun Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10, mae'r Cyngor o'r farn bod cyfatebiaeth uniongyrchol rhwng Creu |

| ID | Enw | Sefydliad | Adran | Para | Sylw a Gyflwynwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Lleoedd a nifer y tai fydd yn ofynnol ar gyfer pob anheddiad. |
| 43 | Mr Mark Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru (HBF Wales) | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Paragraff 8.3.1.4 Mae HBF yn awgrymu bod hyn yn gamarweiniol gan y bydd adolygiad y cynllun yn estyn oes y cynllun o 2026 i 2035, felly mae amser ychwanegol i gyflawni'r lefel flaenorol o dwf. | Mae'r Cyngor yn cynnig adolygiad llawn o'r CDLl presennol, felly bydd y CDLl Amnewid (CDLlA) i bob pwrpas yn gynllun newydd, yn hytrach nag estyn oes y cynllun presennol yn unig. Bydd angen felly i'r CDLlA bennu lefel newydd o dwf ar gyfer cyfnod y cynllun diwygiedig, ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf. |
| 44 | Mr Mark Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru (HBF Wales) | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Paragraff 8.3.2 Polisi Strategol 8 – Tai Fforddiadwy – Mae HBF yn awgrymu y dylai'r adran hon gynnwys sylwadau hefyd ar y llythyr diweddar gan y Gweinidog Tai ynghylch defnyddio tir ym meddiant y cyhoedd i gyflawni cynlluniau seiliedig ar dai fforddiadwy, gydag isafswm o 50% o dai. | Bydd Tai Fforddiadwy yn parhau'n ystyriaeth bwysig ar gyfer y CDLl Amnewid. Bydd y llythyr gan y Gweinidog Tai yn cael ei ystyried yn ystod y CDLl Amnewid, fel y bydd y polisïau tai fforddiadwy yn y FfDC sy'n dod i'r amlwg. |
| 61 | Mr Peter Horsley | | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Paragraff 8.5.4.3 – cyfeirier at y sylwadau ar baragraff 5.0.27 uchod. Mae MTAN 1 yn gofyn bod y Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) yn cynnig strategaeth ar gyfer darparu agregau yn y rhanbarth, yn unol â'r asesiad rhanbarthol hwnnw, gyda dyraniadau darpariaeth agregau pob ardal awdurdod cynllunio mwynau yn y dyfodol yn sylfaen strategol ar gyfer datblygu yn y dyfodol.<br><br>Ymhellach, mae gofyn bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol unigol yn nodi sut bydd yr angen am fwynau yn cael ei ddiwallu dros gyfnod o hyd at 25 mlynedd (yn achos cerrig mâl), neu 22 mlynedd, yn achos tywod a graean o'r tir, yn hytrach na'r 15 mlynedd y cyfeirir ato yn y paragraff hwn. | Mae pob Adolygiad o'r RTS yn fodd i hybu'r amcanion cynaliadwyedd cenedlaethol ynghylch mwynau sydd i'w cyflawni gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) ym mhob Rhanbarth dros gyfnod o hyd at 25 mlynedd yn achos cerrig mâl a 22, yn achos tywod a graean o'r tir – sy'n ddigonol ar gyfer gofynion MTAN1 a PCC, sef cynnal cronfeydd tir o 10 mlynedd a 7 mlynedd yn eu tro, ar hyd cyfnod 15 mlynedd llawn pob CDLl / CDLlA. |
| 62 | Mr Peter Horsley | | Adolygu Meysydd Pwnc y CDLl | 8 | Mae paragraff 8.5.4.4 yn datgan bod "y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr AMBau hyd yma yn dangos bod gan Gastell-nedd Port Talbot gronfa dir o agregau sy'n fwy na digonol i ymateb i'r angen a nodwyd, ac felly mae'n annhebygol iawn y bydd angen unrhyw ddyraniadau newydd". Er y gallai hyn fod yn wir, mae'n bwysig cydnabod bod Adroddiad Blynyddol SWARP yn cadarnhau bod Echdynnu Mwynau yn dod i ben ar y ddau safle | Nodir y sylw – bydd y Cyngor yn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol o ran polisi a naratif i ddangos sut cyflawnir y cyflenwad digonol o agregau. Bydd 2il Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) sy'n dod i'r amlwg yn cyflwyno'r gofynion ar gyfer Cyngor Castell-nedd Port Talbot [a'r holl Awdurdodau |

| ID | Enw | Sefydliad | Adran | Para | Sylw a Gyflwynwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | tywodfaen, Cwm Nant Lleici a'r Gilfach, yn 2026 a 2028 yn eu tro, gyda dyddiadau adolygu mwynau (ROMP) yn 2024 a 2027. Mae'r dyddiadau hyn oddi mewn i gyfnod y cynllun amnewid. Yn bwysicach, mae'r safleoedd hyn yn cyflenwi Agregau Manyleb Uchel (PSV uchel), sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a heb eu cyfyngu i farchnadoedd lleol. Mae'n rhaid felly i'r Cyngor ddarparu cefnogaeth polisi a naratif yn yr adolygiad i ddangos sut bydd y cyflenwad digonol o fwynau, gan gynnwys agregau PSV, yn cael ei ddarparu ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol ar hyd cyfnod y cynllun ac am y cyfnod gofynnol wedi hynny. | Cynllunio Mwynau (ACMau) eraill] er mwyn dangos sut bydd y cyflenwad lleol a rhanbarthol o agregau yn cael ei ddarparu. Fel rhan o'r broses o baratoi'r RTS newydd, mae saith is-ranbarth newydd wedi cael eu creu'n benodol ar gyfer hwyluso dulliau strategol o gynllunio mwynau a chydweithio. Mae Castell-nedd Port Talbot, ynghyd ag Abertawe a Sir Gaerfyrddin, yn rhan o grŵp Is-ranbarth Dinas Abertawe.<br><br>Yn nodedig, mae 2il Adolygiad yr RTS yn cyflwyno gofyniad newydd i bob ACM gytuno ar 'Ddatganiadau Cydweithio Is-ranbarthol' (SSRC) yng nghyswllt eu cyfraniadau i ddarparu agregau sylfaenol a gafwyd o'r tir. Mae gofyn bod SSRCs yn cael eu paratoi, ar y cyd, gan bob ACM sy'n rhan o'r is-ranbarth dan sylw (fel y diffiniwyd gan 2il Adolygiad yr RTS) fel rhan o'r sylfaen o dystiolaeth sy'n angenrheidiol i gefnogi pob Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA). Ar ôl cytuno arno, bydd SSRC yn parhau mewn grym nes iddo gael ei ddisodli gan ofynion adolygiadau o'r RTS yn y dyfodol. Bydd yr SSRC yn cadarnhau bod pob ACM sy'n rhan o'r is-ranbarth yn derbyn yr isafswm gofynion unigol ar gyfer dyrannu a dogni agregau yn ardal eu Hawdurdod unigol, fel y nodwyd yn yr adolygiad diweddaraf o'r RTS, ac y bydd gofynion yr RTS ar gyfer yr is-ranbarth hwnnw yn cael eu cyflawni (o leiaf). |
| 22 | Rhian Isaac | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyfleoedd i Weithio ar y Cyd | 10 | Ydy'r Adroddiad yn esbonio'r potensial ar gyfer cydweithio yn ddigonol, yn ogystal â'r rhesymau pam nad yw CDLl ar y cyd yn briodol ar hyn o bryd? | Nodir y sylw. Er na fernir bod modd llunio CDLl ar y cyd ar hyn o bryd, oherwydd amrywiadau yng nghyfnodau paratoi awdurdodau, bydd y |

| ID | Enw | Sefydliad | Adran | Para | Sylw a Gyflwynwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Byddai'n fuddiol petai CDLl yn cael ei lunio ar y cyd ag awdurdodau cymdogol. Mae'n well ystyried llawer o'n buddiannau cynllunio strategol ar lefel trawsffiniol. Bydd hyn hefyd yn cydweddu â'r Datganiadau Ardal.<br><br>Fodd bynnag, rydym ni'n gwerthfawrogi'r anawsterau posibl y gallech eu hwynebu wrth lunio CDLl ar y cyd. | Cyngor yn dal i gyflawni gwaith ac astudiaethau rhanbarthol lle bo modd. |
| 58 | Mr Peter Horsley | | Cyfleoedd i Weithio ar y Cyd | 10 | Ydy'r Adroddiad yn esbonio'r potensial ar gyfer cydweithio yn ddigonol, yn ogystal â'r rhesymau pam nad yw CDLl ar y cyd yn briodol ar hyn o bryd?<br><br>Mae'r ddogfen yn nodi'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) fel dogfen allweddol lle bernir bod yr Adolygiad o'r Cynllun yn cynnig strategaeth ar gyfer darparu agregau yn y rhanbarth ac ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae diffygion yn y ddarpariaeth agregau, bydd angen i awdurdodau lleol yn yr is-ranbarth neu is-ranbarth cyfagos sicrhau bod isafswm darpariaethau yn cael eu cyflawni a bod capasiti cynhyrchu'n cael ei gynnal i sicrhau cyflenwad cyson a digonol o agregau. Bydd angen cadarnhau hyn trwy Ddatganiadau Is-Ranbarthol ynghylch Cydweithio Rhanbarthol. Mae disgwyl y bydd canllawiau ar y Datganiadau hyn (SSRC) yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r ail adolygiad o'r RTS. | Nodir y sylw a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer y CDLl Amnewid. |
| 45 | Mr Mark Harris | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru (HBF Wales) | Statws Dyraniadau'r CDLl | Atodiad C: | Atodiad C Statws Dyraniadau'r CDLl<br><br>Paragraff C.2 Carai HBF awgrymu "y dylai safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio ond nad ydynt yn rhan o'r cyflenwad tir cyfredol o 5 mlynedd" gael eu hailasesu hefyd. Mae llawer o safleoedd mewn CDLliau ledled Cymru sydd â chaniatâd cynllunio a adnewyddwyd sawl tro neu sy'n dal i fodoli oherwydd bod gwaith wedi cychwyn ar y safle, ond ni fydd llawer o'r rhain byth yn cael eu datblygu. | Mae'r Adroddiad Adolygu yn cyfeirio at ailasesu pob safle yn y portffolio H1 yn ystod yr adolygiad, p'un a ydynt yn rhan o'r cyflenwad tir 5 mlynedd neu beidio. |

# Atodiad F: Rhestr Eirfa

**Tabl D.0.1 Rhestr Termau**

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) | Adroddiad i asesu i ba raddau mae polisïau'r CDLl a fabwysiadwyd yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus (Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (2005). |
| Safle Ymgeisiol | Safleoedd Ymgeisiol yw'r rhai a enwebir gan unrhyw un i'w hystyried gan yr ACLl fel dyraniadau mewn CDLl sy'n dod i'r amlwg. |
| Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) | Mae'r CIL yn dâl cynllunio, a gyflwynwyd gan y Ddeddf Cynllunio (2008) fel offeryn i helpu ACLlau i ddarparu seilwaith i gefnogi datblygiad eu hardal. Daeth i rym ar 6 Ebrill 2010 trwy'r Rheoliadau CIL (2010). |
| Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS) | Rhan o'r Cytundeb Cyflawni sy'n cyflwyno cynllun y Cyngor ar gyfer cynnwys cymunedau lleol yn y broses o baratoi'r Cynllun. |
| Ymgynghori | Proses ffurfiol lle gwahoddir sylwadau ar bwnc penodol neu gyfres o bynciau, neu ddogfen ddrafft. |
| Cytundeb Cyflawni (DA) | Dogfen sy'n cynnwys Amserlen yr Awdurdod ar gyfer paratoi'r CDLl, ynghyd â'r Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG), a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ar gyfer cytundeb. |
| Y CDLl Adnau | Yw'r Cynllun y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yn barnu sy'n gadarn ac yn gallu cael ei fabwysiadu. Yn amodol ar gyfnod ymgynghori ffurfiol o chwe wythnos lle gall unigolion a sefydliadau gyflwyno sylwadau ar y Cynllun. |
| Sylfaen o Dystiolaeth | Dehongli gwybodaeth / data i ddarparu sylfaen ar gyfer polisïau'r Cynllun. |
| Archwiliad Cyhoeddus (EIP) | Proses lle mae Arolygydd annibynnol yn ystyried a yw'r CDLl Adnau yn 'gadarn' ac unrhyw sylwadau a gyflwynwyd arno. |
| Seilwaith Werdd (GI) | Mae PCC yn nodi Seilwaith Werdd fel: rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n digwydd rhwng lleoedd ac yn eu cysylltu. Gall cydrannau'r seilwaith werdd weithredu ar wahanol raddfeydd.<br><br>Ar raddfa'r tirlun, gall seilwaith werdd gynnwys ecosystemau cyfan megis gwlyptir, dyfrffyrdd a chyfresi o fynyddoedd.<br><br>Ar raddfa leol, gallai gynnwys parciau, caeau, hawliau tramwy cyhoeddus, rhandiroedd, mynwentydd a gerddi.<br><br>Ar raddfa lai, gall ymyriadau trefol unigol fel coed ar y stryd, perthi, ymyl ffyrdd a thoeon/waliau gwyrdd i gyd gyfrannu at rwydweithiau seilwaith werdd. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Arolygydd | Y person a benodir gan yr Arolygiaeth Gynllunio i ystyried y CDLl a chynnal yr Archwiliad Cyhoeddus. |
| Adroddiad yr Arolygydd | Adroddiad yr Arolygydd sy'n pennu argymhellion penodol o ran newidiadau sy'n ofynnol i'r CDLl, ynghyd â rhesymau am y newidiadau. Bydd yn canolbwyntio ar a yw'r CDLl yn 'gadarn'. |
| Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) | Y Cynllun Datblygu statudol ofynnol sydd i'w gynhyrchu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru o dan Ran 6 o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004). |
| Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) | Awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi CDLl - h.y. Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref neu Awdurdod Parc Cenedlaethol. |
| Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) | Bydd y FfDC yn cyflwyno fframwaith defnydd tir 20 mlynedd ar gyfer Cymru, ac yn disodli Cynllun Gofodol cyfredol Cymru (CGC). Mae'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd y FfDC yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2020. Cyhoeddwyd drafft ymgynghori ym mis Awst 2019. |
| Creu Lleoedd | Dull cyfannol yw hwn o ymdrin â chynllunio a dylunio datblygiad a lleoedd, gyda ffocws ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiad o ansawdd uchel a mannau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn yr ystyr ehangaf (PCC 10). |
| Polisi Cynllunio Cymru (PCC) | Dogfen Genedlaethol sy'n cyflwyno polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â Nodiadau Cyngor Technegol, llythyron Egluro Polisi a Chylchlythyron Llywodraeth Cymru. |
| Dogfennau Cyn-Adnau (CDLl) | Mae’r rhain yn cynnwys y weledigaeth, opsiynau strategol, strategaeth a ffafrir, polisïau allweddol, adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA), y gofrestr safleoedd ymgeisiol a'r Adroddiad Adolygu (lle bo'n briodol). |
| Adroddiad Adolygu | Yr adroddiad statudol sy'n ofynnol o dan A69 o Ddeddf 2004 a/neu Reoliad 41 er mwyn dod i gasgliad ynghylch y weithdrefn diwygio CDLl sydd i'w dilyn ar sail asesiad clir o'r hyn sydd wedi cael ei ystyried a beth mae angen iddo newid a pham, ar sail tystiolaeth. |
| Cadarn | Er mwyn cael ei fabwysiadu, rhaid i'r CDLl gael ei farnu'n 'gadarn' gan yr Arolygydd sy'n ei archwilio (A64 o Ddeddf 2004). Nodir y profion cadernid a'r gwiriadau yn PCC. |
| Rhanddeiliad | Unigolyn, grŵp neu gorff y mae'r CDLl yn effeithio'n uniongyrchol ar eu buddiannau. |
| Cynllun Datblygu Strategol (CDS) | Gwnaed darpariaeth o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru)(2015) ar gyfer paratoi CDSau ar lefel ranbarthol. Bydd CDS yn rhoi sylw i'r FfDC; ymateb ar lefel ranbarthol i faterion strategol. |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol<br><br>(AAS) | Term cyffredinol a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y'i cymhwysir i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Mae'r Gyfarwyddeb AAS (2001/42/EC) yn galw am "asesiad amgylcheddol" ffurfiol "o rai cynlluniau a rhaglenni, yn cynnwys rhai ym maes cynllunio a defnydd tir’. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Canllawiau Cynllunio Atodol<br><br>(CCA) | Mae'n darparu gwybodaeth ategol ynghylch y polisïau a geir mewn CDLl. Nid yw CCA yn rhan o'r cynllun datblygu ac nid ydynt yn destun archwiliad annibynnol, ond rhaid iddynt gyd-fynd ag ef ac â pholisi cynllunio cenedlaethol. |
| Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) | Offeryn ar gyfer arfarnu polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy - h.y. ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae A62(6) o'r Ddeddf yn gofyn bod pob ACLl yn cynnal AC o'r CDLl. Mae'r math hwn o AC yn ymgorffori'n llawn ofynion y Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau AAS. |
| Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) | Dogfen bynciol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i gyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC). |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) | Deddf sy'n gofyn bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rhoi sylw i'r tymor hir, i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, i weithio ar y cyd ac i gynnwys pobl o bob oed. Y nod yw cefnogi a chyflwyno gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. |
| Cynllun Llesiant | Mae'r Cynllun Llesiant yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer yr ardal, yn ogystal â blaenoriaethau gweithredu yn ystod y 5 mlynedd nesaf. |

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council